Mawrth 2014

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

gan Ymgynghoriaeth Sbectrwm

YMGYNGHORIAETH
sbectrwm

Mawrth 2014

CYNNWYS

1.	Gogledd Ddwyrain Cymru	03
2.	Sir Conwy	10
3.	Sir Ddinbych	40
4.	Sir y Fflint	74
5.	Sir Wrecsam	106
6.	Prif Gasgliadau	134
7.	Argymhellion Cyffredinol	139
8.	Argymhellion Sirol: Sir Conwy	143
9.	Argymhellion Sirol: Sir Ddinbych	151
10.	Argymhellion Sirol: Sir y Fflint	159
11.	Argymhellion Sirol: Sir Wrecsam	166

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

Gogledd Ddwyrain Cymru

Gogledd Ddwyrain Cymru

Prif Nodweddion Ieithyddol a Sosio-Economaidd

1. Ar gyfer yr adolygiad hwn, mae Gogledd Ddwyrain Cymru yn cynnwys siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 478,616 o bobl tair oed a throsodd yn byw yn y pedair sir. Roedd 88,838 ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, sef 18.6% o'r boblogaeth.

2. Yn 2001, roedd poblogaeth siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam yn 463,807, sef cynnydd o 14,809 dros y ddegawd ddiwethaf. Roedd 93,762 yn siaradwyr Cymraeg, sef 20.2% o'r boblogaeth. Golygai hyn golled o 4,924 o siaradwyr Cymraeg mewn nifer a lleihad o 1.6% fel canran mewn deng mlynedd.

3. Rhwng 2001-2011, cynyddodd maint y boblogaeth 3 oed + gan 14,809, a'r nifer nad oedd yn siarad Cymraeg gan 19,733. Cynyddodd nifer y trigolion yn gyffredinol (pob oed) gan 16,581 ond cynyddodd nifer y rheiny a aned y tu allan i Gymru gan 11,197. Mae mewnfudo felly (yn bennaf o Loegr), yn ffactor sylweddol o ran y dirywiad cyffredinol yng nghanran siaradwyr Cymraeg y Gogledd Ddwyrain, er bod maint ac effaith y mewnfudo yn amrywio o ardal i ardal.

4. Dengys ffigurau'r Cyfrifiad bod canrannau a niferoedd siaradwyr Cymraeg yn lleihau wrth symud o'r gorllewin tuag at y dwyrain. Er enghraifft, ceir 27.4% o boblogaeth Sir Conwy yn siarad Cymraeg yn 2011 (30,600 mewn nifer), 24.6% yn Sir Ddinbych (22,236), 13.2% yn Sir y Fflint (19,343) a 12.9% (16,659) yn Sir Wrecsam. Roedd y patrwm hwn o ddirywiad daearyddol tuag at y ffin â Lloegr hefyd yn wir yn 2001 a'r degawdau cyn hynny.

5. Mae sefyllfa'r Gymraeg yn y Gogledd Ddwyrain mewn gwirionedd yn waeth o lawer na'r hyn sy'n cael ei ddarlunio gan ystadegau'r Cyfrifiad. Er enghraifft, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 36% o blant Sir Y Fflint (5-15 oed) yn medru'r Gymraeg. Mae'r ganran hon chwe gwaith yn uwch na'r realiti, gan mai dim ond rhyw 6% o ddisgyblion yn y grŵp

oedran hwn sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Sir Conwy mae'r gwahaniaeth rhwng ffigurau'r Cyfrifiad a'r canran sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn 50% > 16%, yn Sir Ddinbych 47% > 20% a Sir Wrecsam 33% > 9%. Mae'r gorliwio aruthrol hwn gan rieni di-Gymraeg o allu ieithyddol eu plant yn rhywbeth cyffredin iawn ar draws Cymru, yn enwedig yn siroedd y Gogledd Ddwyrain a'r De-Ddwyrain.

6. Mae'n anodd cymharu data'r Cyfrifiad fesul sir cyn 2001 gan fod newidiadau i ffiniau'r awdurdodau lleol wedi digwydd yn 1996. Gan nad yw'r ffiniau'n union yr un fath ac oeddynt cyn 1996 mae'n amhosibl felly cymharu tebyg wrth debyg o ran canrannau a niferoedd siaradwyr Cymraeg.

7. Mae natur sosio-economaidd y Gogledd Ddwyrain yn amrywio'n fawr. Ar y naill law, ceir ardaloedd gwledig gyda phoblogaeth wasgaredig iawn ac ar y llaw arall ardaloedd trefol gyda dwysedd poblogaeth uchel, yn arbennig ar hyd y glannau, mewn stribed sy'n ymestyn o Benmaenmawr i Brestatyn, ac mewn ardaloedd gyda chysylltiadau diwydiannol traddodiadol megis Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.

8. At ei gilydd mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cymunedau gwledig neu drefi marchnad ond ceir niferoedd gweddol uchel mewn pocedi daearyddol ar hyd y glannau megis Llandrillo-yn-Rhos, Abergele a'r Rhyl ac mewn pentrefi o gwmpas Wrecsam.

9. Mae'r patrymau cyflogaeth ar draws y Gogledd Ddwyrain hefyd yn amrywio'n fawr. Mae'r sector cyhoeddus (swyddi proffesiynol a gweinyddol) yn dal i fod yn gyflogwr pwysig ond mae datblygiadau yng Nglannau Dyfrdwy a chyffiniau Wrecsam yn y sectorau gweithgynhyrchu, technoleg gwybodaeth, y cyfryngau digidol, telegyfathrebu a'r diwydiannau prosesu yn cynnig cyfleoedd gwaith i filoedd o bobl ar draws y gogledd. Mae'r bwriad i godi carchar newydd sbon ar gyrion Wrecsam hefyd yn mynd i gynnig cyflogaeth i dros 1,000 o bobl.

10. Yn ogystal â'r sectorau uwch-dechnolegol a gweithgynhyrchu yn agos i'r ffin, mae amaethyddiaeth a busnesau cysylltiedig yn parhau i fod yn ddiwydiant pwysig i gefngwlad y Gogledd Ddwyrain. Mae'r fferm deuluol yn dal i fod yn asgwrn cefn i'r cymunedau gwledig ac yn cynnal ffordd o fyw sydd wedi bod yn batrwm traddodiadol ers cenedlaethau lawer.

11. Mae'r sector twristiaeth ac ynni amgen hefyd yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi wrth i fusnesau fanteisio ar harddwch naturiol yr ardaloedd gwledig ac arfordirol tra ar yr un pryd yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol.

12. Mae'r newidiadau demograffaidd a welwyd dros y degawdau diwethaf wedi gwanhau sefyllfa'r Gymraeg yn y rhan hon o Gymru wrth i batrymau mewnfudo ac allfudo newid natur ieithyddol nifer o gymunedau gwledig a threfol. Mae'r effaith yn fwy mewn cymunedau gwledig lle mae canrannau siaradwyr Cymraeg yn uwch, yn arbennig mewn siroedd megis Conwy a Dinbych.

13. Ychydig dros 50% o drigolion siroedd Conwy (54.4%), Dinbych (58.1%) a'r Fflint (50.0%) a anwyd yng Nghymru. Mae'r ffigwr fymryn yn uwch ar gyfer Sir Wrecsam, sef 69.2%.

14. Er y llanw a thrai yng nghyflwr yr economi dros y degawdau diwethaf, amcangyfrifir bod rhyw draean o bobl ifanc yn gadael Gogledd Cymru bob blwyddyn i fynychu prifysgolion dros y ffin neu i chwilio am waith. [1]

15. Mae gan bob un o'r cyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yn y Gogledd Ddwyrain Gynllun Iaith yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993). Mae'r cyrff hyn yn cynnwys y Cynghorau Sir, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri.

[1] *Welsh in the 21st Century*, Dr Delyth Morris (Gwasg Prifysgol Cymru, 2010)

16. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ym mis Ionawr 2014 y set gyntaf o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Fel man cychwyn mae'r safonau'n canolbwyntio ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn raddol gymryd lle'r system bresennol o Gynlluniau Iaith, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

17. Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu pum math penodol o safonau, sef:-

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

18. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

19. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydnabod wrth ddarparu gwasanaethau ei bod yn bwysig iawn bod defnyddwyr gwasanaeth a staff yn cael cyfathrebu'n rhwydd gyda'i gilydd. Wrth ddarparu gwasanaethau yn unol â chynnwys ei Gynllun Iaith, bydd y Bwrdd Iechyd yn:-

- cynnig gwasanaethau yn newis iaith y cleifion heb iddynt orfod gwneud cais penodol neu neilltuol am hynny;
- anelu at sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ymhob maes gofal. Mewn rhai meysydd gwasanaeth mae'n bosib y bydd prinder siaradwyr Cymraeg

ac os felly bydd angen rhoi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion Cymraeg eu hiaith yn derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith;

- darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff i hwyluso gweithrediad y Cynllun Iaith;
- hyrwyddo gweithle dwyieithog;
- hybu gwasanaeth cyfieithu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cyfieithiadau o ansawdd uchel o holl lenyddiaeth berthnasol a gynhyrchir gan y Bwrdd Iechyd ar gael i gleifion.

20. Mae Cynllun Iaith Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn anelu at:-

- Fod yn sefydliadau mwy dwyieithog;
- Cynyddu nifer y staff sy'n medru siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a'u hannog i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau er mwyn cyfrannu tuag sicrhau dewis iaith i'r cyhoedd;
- Codi ymwybyddiaeth staff presennol a staff newydd ynghylch ymrwymiad yr heddlu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;
- Gweithio tuag at ddenu mwy o geisiadau gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o gymunedau Cymraeg i ymuno â Heddlu Gogledd Cymru fel swyddogion neu staff yr Heddlu;
- Parhau â strategaeth sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff gan gynnwys y rhai hynny yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gallu dangos o leiaf cwrteisi ieithyddol sylfaenol cyn ymuno, yn ychwanegol at ganolbwyntio ar staff presennol sy'n cael cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd;
- Sicrhau bod gweithrediadau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol mewnol yn llwyr gydnabod ac yn ystyried gallu yn y Gymraeg fel sgil, ochr yn ochr â sgiliau angenrheidiol eraill;
- Chwilio am gyfleoedd i hybu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a gweithdrefnau gyda'r Swyddfa Gartref, Arolygiaeth yr Heddlu a heddluoedd eraill Cymru;

- Manteisio ar bob cyfle i ddehongli ymrwymiad Heddlu Gogledd Cymru i'r Gymraeg fel rhan o'u hymdrechion i gydnabod Hil ac Amrywiaeth yng Nghymru.

21. Ceir manylion am Gynlluniau Iaith a datblygiadau Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria mewn perthynas ag ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Manylir hefyd ar Gynlluniau Iaith yr awdurdodau lleol unigol yn y Gogledd Ddwyrain yng nghorff yr adroddiad.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

Sir Conwy



Pont Fawr, Llanrwst

Sir Conwy

Cefndir Cymdeithasol ac Economaidd:

1. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 115,228 o bobl yn byw yn Sir Conwy. Dim ond 54.4% ohonynt gafodd eu geni yng Nghymru.

2. Dengys data diweddar gan y Cyngor Sir fod poblogaeth Sir Conwy yn mynd yn hŷn. Mae lefel y bobl dros oed ymddeol (25%) yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18.5%. Amcangyfrifir bod un aelwyd o bob pump yn y Fwrdeistref Sirol yn bensiynwyr sengl - y gyfran uchaf yng Nghymru. Mae tua 85% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y glannau, gyda 5% yn byw o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

3. Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn broblem**.** Mae nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar (34.3%) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

4. Mae mwyafrif y gweithlu yn gweithio yn y sectorau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (16.7%), Cyfanwerthu a Manwerthu (17%), Addysg (10%) ac Adeiladu (8%).

5. Ceir ardaloedd difreintiedig yn y sir. Mae'r sir wedi ei chynnwys yn Rhaglen Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd oherwydd ei bod yn ardal gyda chynnyrch mewnwladol crynswth llai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Mae 9 o wardiau Conwy yn rhestr 100 ardal fwyaf difreintiedig Cymru.

6. Mae cyflenwi sgiliau yn broblem fawr i fusnesau yng Nghonwy. Nid oes gan 24.6% o'r boblogaeth oed gweithio gymwysterau. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru, sef 24.7%.

7. Mae cael gafael ar dai fforddiadwy yn peri pryder. Mae nifer y cartrefi yng Nghonwy yn cynyddu'n gyson o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth a'r duedd bod mwy a mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain.

Yr Iaith Gymraeg yn Sir Conwy:

8. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 30,600 o bobl ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 27.4% o'r boblogaeth. Cyfanswm y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 31,298, sef 29.2% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeng mlynedd mae gostyngiad wedi bod o 698 mewn nifer a 1.8% fel canran o siaradwyr Cymraeg.

9. Fel y mae'r map isod yn dangos, mae dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir Conwy yn dangos mai yn ne-ddwyrain y sir y ceir y canrannau uchaf, sef adrannau etholiadol Uwchaled, Llangernyw, Gower, Llansannan ac Uwch Conwy.



Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

10. Fel y gwelir ar y map, yr adrannau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Towyn (10.8%), Bae Kinmel (11.5%) ac Abergele Pensarn (11.6%) sef ardaloedd ar hyd yr arfordir.

11. Mae'r tabl isod yn dangos yr adrannau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf a'r isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Conwy:

Adran Etholiadol	Canran Siaradwyr Cymraeg 2011
Uwchaled	70.8%
Llangernyw	65.8%
Gower	63.5%
Llansannan	63.0%
Uwch Conwy	60.7%
Rhiw	16.7%
Gogarth	16.0%
Abergele Pensarn	11.6%
Bae Kinmel	11.5%
Towyn	10.8%

12. Yn wahanol i'r adrannau etholiadol â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg - sydd yn rhai gwledig i gyd - mae mwyafrif yr adrannau etholiadol sydd â'r niferoedd uchaf i'w gweld ar hyd yr arfordir. Mae 7 o'r 9 adran etholiadol sydd â mwy na 1,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw nepell o'r môr:

Adran Etholiadol	Nifer Siaradwyr Cymraeg
Llandrillo yn Rhos	1,366
Crwst	1,217
Llansannan	1,179

Conwy	1,134
Tudno	1,134
Marl	1,114
Penrhyn	1,092
Rhiw	1,080
Gele	1,020

13. Mae Crwst a Llansannan yn ddwy ardal o arwyddocâd ieithyddol arbennig gan fod ganddynt niferoedd a chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, sef:

Crwst – 1,217 (59.6%)

Llansannan – 1,179 (63%)

14. Rhwng 2001-2011, roedd pedair adran etholiadol yn y sir wedi gweld cynnydd o ran nifer a chanran siaradwyr Cymraeg, sef Llandrillo yn Rhos, Bae Kinmel, Penrhyn ac Eglwysbach ac un ar ddeg wedi gweld cynnydd mewn niferoedd yn unig. Fel y nodir yn y tabl isod roedd un adran etholiadol, sef Llansanffraid wedi gweld cynnydd bach o ran canran (+0.2%) ond gostyngiad o ran niferoedd (-26):-

Adran Etholiadol	Cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg	Newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg
Llandrillo yn Rhos	**114**	**+0.4%**
Bae Kinmel	**72**	**+0.4%**
Penrhyn	**70**	**+0.9%**
Rhiw	**70**	-1.2%
Betws yn Rhos	**65**	-1.0%
Pant-yr-afon /Penmaenan	**63**	-4.1%
Crwst	**49**	-3.7%
Eglwysbach	**32**	**+0.1%**

Deganwy	**31**	-0.7%
Gele	**19**	-0.6%
Llangernyw	**18**	-3.5%
Marl	**16**	-0.6%
Llansannan	**15**	-2.6%
Gower	**13**	-2.9%
Towyn	**11**	-0.2%
Llansanffraid	-26	**+0.2%**

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran:

15. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae dros 43% (6,602 mewn nifer)) o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Conwy. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu dylanwad y gyfundrefn addysg ar sgiliau ieithyddol plant oed ysgol. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 33% (6,022) ar gyfer y grŵp oedran 15-30 ac yn is, sef 24% ar gyfer y grŵp oedran 30-50, sef 6,812 mewn nifer. Er bod y ganran yn is yn y grŵp oedran hwn, mae'r niferoedd yn uwch oherwydd bod cyfanswm y boblogaeth yn uwch. Y grŵp oedran 50-69 sydd â'r canran lleiaf o siaradwyr Cymraeg yn yr holl grwpiau oedran, sef 20.4%, sy'n cyfateb i 6,465 mewn nifer.

16. Fel mae'r tabl isod yn amlygu, mae'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grwpiau oedran 40-80 yn 2011 yn gymharol debyg – o gwmpas 22%. Yn ôl y disgwyl efallai, oherwydd dylanwad y gyfundrefn addysg, ceir y canrannau uchaf yn y grŵp oedran 4-15. O safbwynt niferoedd, sylwer bod y ffigurau ym mhob grŵp oedran o 20 oed i fyny yn gymharol debyg. Ychydig gannoedd sy'n gwahaniaethu'r nifer uchaf a'r isaf ar draws ystod oedran eang iawn. Cyfartaledd y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp oedran rhwng 20-80 oed yw 1,644.

Grŵp Oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb dros 3 oed	29.2	27.4	31,298	30,600
3-4 oed	24.1	31.7	583	740
5-9 oed	46.1	47.9	2,881	2,637
10-14 oed	52.2	50.2	3,611	3,225
15-19 oed	45.5	39.8	2,761	2,630
20-24 oed	31.9	30.1	1,544	1,745
25-29 oed	30.8	30.5	1,602	1,647
30-34 oed	25.4	28.6	1,726	1,530
35-39 oed	24.1	28.0	1,787	1,689
40-44 oed	22.7	23.5	1,591	1,809
45-49 oed	23.9	21.5	1,566	1,784
50-54 oed	23.8	20.4	1,853	1,620
55-59 oed	23.8	20.5	1,676	1,503
60-64 oed	25.2	20.3	1,688	1,796
65-69 oed	25.6	20.3	1,658	1,546
70-74 oed	25.5	21.8	1,563	1,390
75-79 oed	25.3	23.3	1,373	1,294
80+ oed	25.2	23.3	1,835	2,015

17. Wrth gymharu canlyniadau 2011 a data 2001 gwelir bod cynnydd yng nghanran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg - o 24.1% i 31.7% (+ 7.6%) a chynnydd o 157 o ran nifer. Mae hyn yn galonogol iawn a gellir priodoli hyn i ddau brif ffactor - naill ai bod mwy o rieni neu aelodau o'r teulu estynedig yn siarad Cymraeg â'r plant ar yr aelwyd

neu fod mwy o blant yn mynychu cylchoedd 'Ti a Fi' neu gylchoedd meithrin dan nawdd y Mudiad Meithrin.

18. Mae'r canrannau sy'n medru siarad Cymraeg yn y grwpiau oedran 5-15 yn 2001 a 2011yn debyg iawn, sef 49.1% a 49.0% fel ei gilydd, ond gwelir mwy o ostyngiad yn yr oedran 15-19 yn 2011, sef o 49.0% i 39.8% (- 9.2%) o'i gymharu â chwymp o 49.1% i 45.5% yn 2001 (- 3.6%).

19. Er bod y canrannau'n debyg ar gyfer y grŵp oedran 5-15, mae'r gwahaniaeth yn y niferoedd yn sylweddol. Yn 2001, nododd 6,492 o blant yn yr oedran hwn eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Erbyn 2011 roedd y ffigwr wedi syrthio i 5,862, sef gostyngiad o 630 mewn degawd.

20. Fel y dengys y graff isod, gwelir ymchwydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 4-15 yn 2001, a bob degawd cyn hynny gyda'r un grŵp oedran. Fodd bynnag ni lwyddir i barhau â'r momentwm hwn a chynnal y sgiliau iaith ar yr un raddfa i'r ddegawd nesaf. Fel y gwelir yn y graff, roedd rhyw 52% o ddisgyblion 15 oed Sir Conwy yn siarad Cymraeg yn 2001, ond degawd yn ddiweddarach roedd hyn wedi gostwng i 30%. O ran niferoedd, mae hyn yn golygu colled o 1,866 o siaradwyr Cymraeg ifanc, o 3,611 yn 2001 i 1,745 yn 2011.



21. Bu ychydig o leihad hefyd yng nghanran y grŵp oedran 40-80 sy'n gallu siarad Cymraeg yn ystod y ddegawd 2001-2011, o 24.5% i 21.5%. O ran niferoedd roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad o 46 o bobl. Fel y nodir isod, mae'n ymddangos mai mewnfudo i'r sir gan bobl sydd wedi ymddeol sy'n gyfrifol am y gostyngiad uwch o ran canran rhwng 2001-2011 a marwolaethau naturiol sy'n gyfrifol am y gostyngiad mewn nifer.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Man Geni:

22. Bu cynnydd o 5,434 o breswylwyr yn Sir Conwy rhwng 2001-2011. Roedd dros 3,000 ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn. Roedd 63.4% o'r boblogaeth 65+ wedi eu geni y tu allan i Gymru yn ôl Cyfrifiad 2011. Ar yr un pryd bu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn o 25.4% i 22.1%.

23. Yn yr adrannau etholiadol ar hyd yr arfordir lle mae 86% o'r boblogaeth yn byw, roedd 66.6% wedi eu geni y tu allan i Gymru.

24. Dengys y tabl isod bod y rhai a anwyd yng Nghymru, sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, lawer mwy tebyg o fod yn siarad Cymraeg na'r rhai a aned ar hyd yr arfordir.

	Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed	Canran y boblogaeth a aned yng Nghymru	Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	Nifer a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg	Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg
Conwy	111,724	53.2	44.5	4,143	7.9
Arfordir	96,540	51.0	37.5	3,373	7.1
Cefngwlad	15,184	67.0	78.6	770	15.4

25. Fel y nodir yn y siart isod, mae 44.5% o'r boblogaeth a aned yng Nghymru sydd yn byw yn Sir Conwy yn medru siarad Cymraeg, sef 26,457.

26. Ar y llaw arall, dim ond 7.9% o bawb a aned y tu allan i Gymru sydd wedi meistroli'r iaith ac yn ystyried eu hun yn rhugl, sef 4,143 o bobl, fel y nodir yn y siart isod. Mae'r data'n dangos bod y rhai a aned tu allan i Gymru sy'n byw yng nghefngwlad Sir Conwy ddwywaith yn fwy tebygol o ddysgu Cymraeg na'r rhai sy'n byw ar hyd yr arfordir. Yn ôl y ffigurau, mae 15.4% o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau gwledig, sef 770 o bobl.



Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref:

27. Mae trosglwyddiad iaith yn y cartref yn allweddol ar gyfer cynaladwyedd y Gymraeg. Dengys y graff isod bod graddfa trosglwyddiad iaith yn Sir Conwy yn ôl Cyfrifiad 2011 mewn cartref cwpwl lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg ychydig yn is na'r ffigwr gyfatebol yn 2001, sef 74% o'i gymharu â 75.9%. Fodd bynnag mae'r gyfradd drosglwyddo mewn cartref cwpwl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg wedi codi fymryn o 34.8% i 36.6%. Mewn cartref rhiant unigol lle mae'r oedolyn yn siarad Cymraeg bu gostyngiad o 49.1% i 46.2%. Yn ddiddorol, mae'r nifer o blant 3-4 oed sy'n siarad yr iaith mewn cartref heb oedolyn Cymraeg wedi cynyddu o 10.2% i 19.5%.

28. Yn gyffredinol felly, mae'r cyfartaledd o blant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg ym mhob cartref wedi cynyddu o 24.0% i 32.5% rhwng 2001-2011, sy'n naid sylweddol. Gwelir yn ôl y graff a'r tabl isod fod gan y Gymraeg fwy o bresenoldeb mewn cartrefi lle mae plant yn bresennol yn 2011na deng mlynedd ynghynt a bod hyn wedi codi o 24% i 32.5%.



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg	Pob cartref
2011	74.0	46.2	36.6	19.5	32.5
2001	75.9	49.1	34.8	10.2	24.0

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

29. Mae'r graff isod yn dangos bod 431 o blant wedi cael eu hamddifadu o fod yn siaradwyr mamiaith oherwydd diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref. Mae'r nifer yn arbennig o uchel mewn cartrefi gydag un oedolyn yn medru'r Gymraeg.

30. Y cynnydd mwyaf arwyddocaol wrth gwrs yw'r nifer o blant o gartrefi di-Gymraeg sydd wedi caffael yr iaith drwy fynychu cylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg neu sydd wedi dysgu'r iaith drwy ddylanwad teulu estynedig.

31. Mae'r gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg yn 2011, sef 74%, sydd dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 82%.

32. Mae'r gyfradd ar gyfer cartrefi cwpwl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg, sef 36.6% hefyd dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 45%.

Conwy: Nifer o blant Cymraeg 3 i 4 oed



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg
2011	230	55	165	246
2001	205	56	140	160

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

33. Fel y nodir uchod, gwelir cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi cwpwl lle mae'r ddau oedolyn yn siarad Cymraeg, o 205 i 230 a chynnydd hefyd yn y nifer mewn cartrefi cwpwl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg o 140 i 165.

34. Mae'r ffaith bod rhyw 20% o blant, sef 246 mewn nifer wedi caffael yr iaith drwy fynychu cylchoedd Ti a Fi neu gylchoedd meithrin hefyd yn dangos y potensial aruthrol sydd yn bodoli i gynyddu'r nifer hwn dros y blynyddoedd nesaf drwy sefydlu mwy o ddarpariaeth cyn-ysgol ar draws y sir.

Proffil o Alwedigaethau Siaradwyr Cymraeg Sir Conwy

35. Mae'r graff isod yn dangos mai'r sectorau sy'n denu'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg o ran nifer a chanran yw – galwedigaethau crefftau medrus (34.8%), galwedigaethau proffesiynol (32.3%), galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill (27.7%) a galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (26.6%).

36. Mae'n ddiddorol nodi mai yn y sector sy'n cynrychioli rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion y gwelir y lleiaf o siaradwyr Cymraeg fel canran, sef 19.1%. Mae hyn yn arwyddocaol iawn gan fod rheolwyr a chyfarwyddwyr yn gallu dylanwadu'n fawr ar bolisïau recriwtio gan ddibynnu'n aml iawn ar gysylltiadau personol mewn swyddi blaenorol a'u profiad cynt o ran defnyddio'r Saesneg fel iaith weinyddu a chyfathrebu. Mae hyn yn ategu dadl gref gan Delyth Morris a Glyn Williams[2] sydd wedi dangos fod tuedd gyson yn hanesyddol i siaradwyr Cymraeg gael eu diystyru ar gyfer swyddi rheoli, a bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl ddi-Gymraeg yn meddiannu swyddi rheolwyr ar draws Cymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

[2] *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*, Yr Athro Glyn Williams a Dr Delyth Morris, Gwasg Prifysgol Cymru (2000)

Conwy

Nifer a % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl galwedigaeth. Pobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2612.

Addysg

Addysg Feithrin

37. Y Mudiad Meithrin sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Conwy. Mae gan y mudiad 39 Cylch Meithrin a 24 Cylch Ti a Fi ar draws y sir. Mae 12 o'r cylchoedd meithrin yn derbyn cyfraniad gan gynllun *Dechrau'n Deg* sy'n ceisio hybu llythrennedd a rhifedd ymhlith plant oed meithrin sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Cylchoedd Meithrin:

Abergele (4)*
Bae Colwyn (2)*
Bae Penrhyn (2)
Betws y Coed
Betws yn Rhos (2)
Bro Cernyw (2)
Capel Garmon
Cerrigydrudion
Llanfairfechan
Llangelynnin
Llanrwst (2)
Llansannan
Maelgwn (Cyffordd Llandudno) (2)
Morfa Rhianedd (Llandudno) (2)*
Penmaenmawr
Pentrefoelas

Conwy (2)
Dolgarrog
Eglwys Bach
Hen Golwyn (2)*
Llanddoged
Talhaiarn
Talybont
Trefriw
Tudno (Llandudno) (2)*
Ysbyty Ifan

(Cynllun Dechrau'n Deg)*

Cylchoedd Ti a Fi:

Abergele
Bae Kinmel
Betws y Coed
Betws yn Rhos
Bro Cernyw
Capel Garmon
Cerrigydrudion
Craig y Don (Llandudno)
Dolwyddelan
Eglwysbach
Hen Golwyn
Llanddoged
Llangelynnin
Llanrwst (2 gylch)
Llansannan
Maelgwn
Morfa Rhianedd (Llandudno)
Penmachno
Penmaenmawr
Pentrefoelas
Rowen
Talhaiarn
Llanfairfechan

Meithrinfeydd Dydd:

Meithrinfa *Twt Lol* (Betws y Coed)
Meithrinfa *Bobol Bach* (Llansannan)

38. Fel y gwelir yn ôl y rhestr uchod, mae dosbarthiad daearyddol y cylchoedd yn reit eang sy'n dangos bod darpariaeth addysg feithrin ar gael o fewn pellter rhesymol i bawb yn y fwrdeistref.

Addysg Gynradd

39. Mae 24 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Conwy, 1 ysgol dwy ffrwd a 13 sydd yn ysgolion Saesneg gyda defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg (rhwng 25% a 50% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg). Ceir 21 o ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd, er y dysgir elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion hyn, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen.

Ysgolion Cymraeg Sir Conwy:

Ysgol Betws y Coed

Ysgol Betws yn Rhos

Ysgol Bod Alaw

Ysgol Bro Aled

Ysgol Bro Cernyw

Ysgol Bro Gwydir

Ysgol Capel Garmon

Ysgol Cerrigydrudion

Ysgol Dolgarrog

Ysgol Dolwyddelan

Ysgol Eglwysbach

Ysgol Glan Morfa

Ysgol Llanddoged

Ysgol Llangelynnin

Ysgol Llangwm

Ysgol Llanefydd

Ysgol Morfa Rhianedd

Ysgol Pencae

Ysgol Pentrefoelas

Ysgol Penmachno

Ysgol Rhydgaled

Ysgol Tal y Bont

Ysgol Trefriw

Ysgol Ysbyty Ifan

Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd:

Ysgol Maelgwn

40. Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Conwy mae'r awdurdod addysg - 'yn gweithredu polisi dwyieithog yn yr holl ysgolion yng Nghonwy er mwyn sicrhau bod disgyblion a myfyrwyr yn cael cymhelliant addysgol i feithrin sgiliau ieithyddol fydd yn arwain at ddwyieithrwydd a sgiliau priodol mewn Cymraeg a Saesneg.'

41. Yn ôl ffigurau PLASC y Cyngor Sir ar gyfer 2013 (sef cyfrifiad o lefelau rhuglder disgyblion) mae 38.4% o blant oed cynradd a 69.6% o ddisgyblion uwchradd y sir yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond 10.7% (cynradd) a 14% (uwchradd) sy'n cael eu hystyried yn rhugl yn yr iaith, sef cyfartaledd o 12.3%. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod 16.4% o blant Sir Conwy mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 21.7% arall mewn ysgolion sy'n darparu cyfran sylweddol o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymddengys felly nad yw cyfrwng yr addysg yn arwain at ruglder yn y Gymraeg mewn nifer fawr o achosion.

42. Cafodd 226 o ddisgyblion allan o 1,038 (21.8%) eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2013 a 204 allan o 1,151 (17.7%) yng Nghyfnod Allweddol 3.

43. Yr hyn sy'n codi amheuon fodd bynnag ynglŷn a dilysrwydd canlyniadau'r Cyfrifiad yw'r ffaith bod data 2011 yn nodi bod 50% o bobl ifanc 10-14 oed Sir Conwy yn gallu siarad Cymraeg er gwaetha'r ffaith mai rhyw 16% gafodd eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2011. Mae hyn yn awgrymu bod nifer o rieni wedi dynodi eu plant fel siaradwyr Cymraeg rhugl, er mai astudio'r Gymraeg fel ail iaith maent yn ei wneud yn yr ysgol.

Addysg Uwchradd

44. Ceir dwy ysgol uwchradd yn Sir Conwy sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae un, sef Ysgol y Creuddyn yn Llandudno, yn ysgol benodedig Gymraeg gyda rhyw 700 o ddisgyblion a'r llall, sef Ysgol Dyffryn Conwy yn Llanrwst yn ysgol ddwyieithog gyda rhyw 710 o ddisgyblion.

45. Yn Ysgol y Creuddyn mae pob pwnc yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol ddwyieithog sy'n darparu hyd at 80% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn gorfod darparu 100% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Saesneg, yn bennaf ar gyfer hwyrddyfodiaid.

46. Mae'r cyfraddau dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd yn Ysgol Dyffryn Conwy wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2007/08 rhyw 59% o'r disgyblion gafodd eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 oedd yn parhau ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Erbyn 2009/10 roedd y ffigwr hon wedi cynyddu i 71% ond erbyn y flwyddyn ysgol ddiwethaf (2012/13) mae'r canran wedi codi i 90%.

47. Er mwyn hybu'r Gymraeg ymhellach, mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ddiweddar wedi penodi swyddog ieuenctid ar y cyd â'r Urdd i drefnu gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ac ar lefel gymunedol.

Addysg Bellach

48. Mae gan Grŵp Llandrillo Menai nifer o gyrsiau Cymraeg/Dwyieithog ar y tri champws ym Mangor, Llandrillo-yn-Rhos a Rhyl. Mae maint cyfrwng yr addysgu yn amrywio o gwrs i gwrs ond mae cyfran o bob un o'r canlynol yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:-

Gwasanaethau Cyhoeddus
Cyfrifiadureg a'r Cyfryngau
Twristiaeth
Peirianneg
Adeiladwaith
Celfyddydau Creadigol
Trin Gwallt a Harddwch
Chwaraeon
Astudiaethau Busnes
Lletygarwch
Iechyd a Lles
Peirianneg ceir

Cymraeg i Oedolion

49. Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar bob lefel yn Sir Conwy. Mae gan y ganolfan ddarpariaeth eang iawn sy'n ceisio ymateb i amrywiol anghenion dysgwyr o safbwynt lefelau, lleoliadau, amserau a dulliau dysgu.

49. Gweler isod y nifer o ddysgwyr a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau ar lefelau gwahanol yn Sir Conwy yn ystod 2013-14. Fel y gellid disgwyl efallai, mae'r mwyafrif helaeth wedi

cofrestru ar gyfer cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Ar sail y ffigurau hyn, lleiafrif sy'n parhau i ddilyn cyrsiau ar lefel Uwch a Hyfedredd.

Lefel	Sir Conwy
Mynediad	491
Sylfaen	117
Canolradd	78
Uwch	90
Hyfedredd	79

50. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn Sir Conwy. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa anffurfiol. Ymhlith y gweithgareddau a drefnwyd dros y misoedd diwethaf, mae:-

- Sesiynau 'Paned a Sgwrs'
- Cwisiau
- Helfa drysor a phicnic
- Teithiau cerdded
- Bowlio deg
- Clybiau darllen
- Eisteddfod i Ddysgwyr

51. Gweler yn ôl y map isod leoliad y ddarpariaeth yn Sir Conwy a'r gwahanol lefelau a gynigir gan y Ganolfan - o lefel Mynediad i lefel Uwch:-

Cyrsiau Iaith Conwy
2012-2013



52. Mae Menter Iaith Conwy wedi bod yn cydweithio'n agos iawn gyda'r Ganolfan dros y blynyddoedd diwethaf i annog pobl i fynychu cyrsiau iaith yn Nant Gwrtheyrn fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig sy'n weithredol ar draws siroedd y gogledd. Ers 2012 mae dros 340 o ddysgwyr wedi mynychu cyrsiau yno ar wahanol lefelau, yn amrywio o gyrsiau lefel Mynediad i gyrsiau Uwch. Gweler isod sut mae'r niferoedd wedi ymrannu yn ôl siroedd:-

Sir	Nifer Unigolion (2012-14)
Conwy	75
Dinbych	54
Fflint	42
Maelor	37
Gwynedd	89
Môn	43
CYFANSWM	**340**

Mudiadau Iaith/Cymdeithasol

Urdd Gobaith Cymru

53. Mae gan yr Urdd ddarpariaeth eang iawn ar draws Sir Conwy sydd yn cynnwys clybiau mewn ysgolion, adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd. Mae gan yr Urdd dros 2,600 o aelodau yn y sir. Mae'r tabl isod yn dangos lleoliad daearyddol a natur y ddarpariaeth.

Darpariaeth yr Urdd yn Sir Conwy

UWCH CONWY
2 Adran (dan 12 oed)
9 Clwb (dan 12 oed ar ôl ysgol)
2 Uwch Adran (12 – 14 oed)
1 Aelwyd (14 – 25 oed)

BRO CONWY
14 Clwb (dan 12 oed ar ôl ysgol)
1 Clwb (12 – 16 oed amser cinio)

BRO DULAS
8 Clwb (dan 12 oed ar ôl ysgol)
1 Aelwyd (14 – 25 oed)

BRO ALED
5 Adran (dan 12 oed)
1 Clwb (dan 12 oed ar ôl ysgol)
3 Uwch Adran (12 – 14 oed)
1 Aelwyd (14 – 25 oed)

UWCHALED
2 Adran (dan 12 oed)
1 Clwb (dan 12 oed ar ôl ysgol)
2 Uwch Adran (12 – 14 oed)
1 Aelwyd (14 – 25 oed)

Clybiau Ffermwyr Ifanc

52. Mae gan Ffederasiwn Clybiau'r Ffermwyr Ifanc saith clwb yn Sir Conwy, sef -

Betws yn Rhos
Llanefydd
Llansannan
Uwch Aled, Cerrigydrudion
Llanrwst

Ro-wen

Ysbyty Ifan

Cymraeg yw prif iaith bob un o'r clybiau hyn ar gyfer gweinyddu a chynnal eu gweithgareddau amrywiol.

Merched y Wawr/Clybiau Gwawr

53. Mae gan Ferched y Wawr 22 o ganghennau yn Sir Conwy, sef Abergele, Bae Colwyn, Groes, Hen Golwyn, Llanfair Talhaiarn, Llangernyw, Llangwm, Llansannan, Pandy Tudur, Pentrefoelas, Uwchaled, Betws Y Coed, Capel Garmon, Carmel, Cyffordd Llandudno, Eglwys Bach, Eigiau, Henryd, Llanddoged, Llanrwst, Mochdre, Penmachno.

54. Yn ogystal â changhennau Merched y Wawr, mae tri Clwb Gwawr i'r aelodau iau yn Sir Conwy, sef Clwb Gwawr 'Y Glannau', Clwb Gwawr 'Cywion Conwy' a Chlwb Gwawr 'Crwst' yn Llanrwst.

Menter Iaith Conwy

55. Sefydlwyd Menter Iaith Conwy yn 2003 yn dilyn diddymu Menter Iaith Dinbych-Conwy a fu mewn bodolaeth ers 1998. Yn dilyn yr ad-drefnu, mae dalgylch y Fenter bellach yn cydweddu â ffiniau Cyngor Sir Conwy.

56. Prif nodau tymor hir y Fenter fel yr amlinellir yn ei chyfansoddiad yw:

- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith trwch poblogaeth y sir ym mhob agwedd o fywyd;
- Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr ddysgu'r Gymraeg, ac i drigolion brodorol ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith;
- Sicrhau fod yr holl ystod o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir yn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog;

- Cynorthwyo i godi canran siaradwyr Cymraeg y sir 5% bob deng mlynedd i gyd-fynd â strategaeth iaith genedlaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef *Iaith Pawb*.

57. Er mwyn cyflawni hyn ac er mwyn adlewyrch natur ieithyddol gwahanol rannau o'r sir mae'r fenter wedi sefydlu pwyllgorau ardal ar hyd yr arfordir (yn ardaloedd Llanfairfechan a Phenmaenmawr, Llandudno ac Abergele) ac yn y berfeddwlad (yn ardaloedd Penmachno, Llanrwst, Glan-Conwy, Capel Garmon a Cherrigudrudion) ac yn yr ardal wledig rhwng Dyffryn Conwy a Sir Ddinbych.

58. Prif feysydd gweithredu'r Fenter yw:-

- Cymhathu mewnfudwyr
- Cefnogi dysgwyr
- Annog y defnydd o'r iaith ymhlith pobl ifanc
- Atal allfudo a sicrhau cyflogaeth leol
- Hybu defnydd cymunedol o'r Gymraeg
- Hybu'r Gymraeg ymhlith plant a theuluoedd
- Cryfhau trosglwyddiad iaith yn y cartref

59. Dylid cyfeirio at un cynllun llwyddiannus y bu Menter Iaith Conwy'n gysylltiedig â'i ddatblygu'n ddiweddar, sef cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau awyr agored. Mae'r astudiaeth achos hwn yn cynnig tystiolaeth o effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn maes pwysig o weithredu economaidd. Dangosodd adroddiad ymchwil gan Brifysgol Bangor yn 2004 mai 5% yn unig o weithwyr y sector Awyr Agored oedd yn ddwyieithog. Drwy ymdrechion y Bartneriaeth Awyr Agored Eryri, yr Urdd a Menter Iaith Conwy, ceisiwyd denu mwy o siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i gael eu hyfforddi yn y maes. Yn dilyn arolwg arall gan y Brifysgol yn 2013, gwelwyd bod canran y gweithlu dwyieithog wedi codi i 29%. Dengys yr achos hwn sut y mae adfywio'r Gymraeg yn gallu cyd-gerdded yn effeithiol â datblygu'r economi.

59. Cafodd adroddiad ar yr adolygiad a gynhaliwyd o'r Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Aman Tawe gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a

chwmni *Sbectrwm* ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ddiwedd Ionawr. Nodir y prif argymhellion yn ***Atodiad A***.

TWF

60. Mae gan TWF ddau swyddog rhan-amser yn gweithio yn Sir Conwy. Mae un yn canolbwyntio ar ardal y glannau a'r llall yn gweithio'n bennaf yn ardaloedd gwledig y sir.

61. Mae'r gwaith o siarad â rhieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog yn digwydd yn bennaf mewn clinigau cyn-geni ac ôl-eni ond hefyd mewn canolfannau iechyd, meddygfeydd, canolfannau plant ac ysbytai. Trefnir ymweliadau â dros 20 o leoliadau i gyd ar draws y sir. Mae'r sgwrs fynychaf yn anffurfiol ac yn digwydd ar lefel un-i-un. Yn ogystal â sgwrsio'n gyffredinol mae pob rhiant yn derbyn pecyn gwybodaeth gan swyddogion TWF sy'n cynnwys manylion am fanteision dwyieithrwydd, gwybodaeth am gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin lleol. Ceir manylion hefyd am gyrsiau 'Cymraeg o'r Crud' sy'n cael eu darparu gan Goleg Harlech i Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

62. Mae Sesiynau TWF yn cael eu trefnu ar draws y sir ar gyfer rhieni â babis hyd at 18 mis oed. Mae'r sesiynau yn cynnwys canu, chwarae, tylino babis, sgwrsio, gweithgareddau crefft ac ati. Mae'r sesiynau, sy'n rhedeg am 6 wythnos mewn un lle fel arfer, yn cael eu cynnal fel arfer yn Llandudno, Bae Colwyn, Abergele a Llanrwst. Manteisir ar y cyfle yn y sesiynau hyn i sgwrsio ymhellach â rhieni am fanteision dwyieithrwydd a rhagoriaethau addysg Gymraeg.

63. Mae TWF yn cydweithio'n dda gyda'r Mudiad Meithrin o safbwynt hyrwyddo dilyniant o sesiynau TWF i gylchoedd Ti a Fi ac yna ymlaen i gylchoedd meithrin. Mae cydweithio da'n digwydd ar gynlluniau penodol, er enghraifft 'Mam a'i phram' yn Llanrwst i annog mamau yn arbennig i siarad Cymraeg â'u plant.

Papurau Bro

64. Mae dau bapur bro yn cael eu cynnal yn Sir Conwy, sef *Yr Odyn*, yn ardal Llanrwst a'r *Pentan* yn ardal Bae Colwyn. Mae cylchrediad y ddau bapur o gwmpas 700. Mae *Y Gadlas* hefyd yn gwasanaethu'r ardal wledig rhwng Conwy a Chlwyd ac mae ganddo gylchrediad o gwmpas 1400 gyda rhyw 70% o'r gwerthiant yn Sir Conwy.

Cymdeithasau Cymraeg Eraill

65. Mae gan Sir Conwy draddodiad o fywyd diwylliannol cyfoethog sy'n cael ei adlewyrchu yn nifer y cymdeithasau a chorau Cymraeg sydd yn yr ardal, er enghraifft:

Cymdeithasau Cymraeg:

Clwb Rygbi Nant Conwy, Llandudno

Clybiau Pêl Droed, Llansannan, Llangernyw, Cerrigydrudion

Capel Seilo, Llandudno

Clwb Capel Llansannan

CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol)

Clwb Capel Tabernacl, Llanrwst

Clwb Cerdded y Gadlas

Côrau:

Doniau'r Dyffryn (Côr Ieuenctid Dyffryn Conwy)

Genod y Gân (Llangernyw)

Hogia 'Sbyty (Ysbyty Ifan)

Côr Maelgwn (Llandudno)

Hogiau'r Berfeddwlad (rhwng Dyffrynnoedd Conwy a Dinbych)

Parti Llais Afon (Llanrwst)

Côr Alaw (Bae Colwyn)

Côr Dyffryn Conwy

Fforwm Iaith Sir Conwy

66. Mae Fforwm Iaith Sir Conwy yn cynnwys yr aelodau canlynol:-

- Menter Iaith Conwy
- Yr Urdd
- Mudiad Meithrin
- Merched y Wawr/Clybiau Gwawr
- TWF
- Ffermwyr Ifanc
- Pennaeth Ysgol Dyffryn Conwy
- Pennaeth Ysgol Y Creuddyn
- Athrawon Bro, Cyngor Sir Conwy
- Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Sir Conwy
- Aelod ar ran Comisiynydd y Gymraeg
- Popeth Cymraeg
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Llywodraeth Cymru

67. Yn gyffredinol teimlwyd bod y Fforwm Iaith wedi bod yn ormod o 'siop siarad' yn y gorffennol gyda mudiadau a sefydliadau gwahanol yn adrodd ar hyn roeddynt wedi ei gyflawni yn hytrach na nodi'r hyn oeddynt yn bwriadu ei wneud. Ychydig iawn o gynllunio ar y cyd oedd yn arfer digwydd. Fodd bynnag, teimlir erbyn hyn fod y Fforwm Iaith wedi aeddfedu a bod llawer mwy o bwyslais ar gyd-gynllunio a gweithredu'n strategol o ran adnabod blaenoriaethau a mesur deilliannau.

68. Mae'n fwriad gan y Fforwm Iaith i ddefnyddio'r Proffil Iaith hwn a'r adroddiad ar yr adolygiad o'r Mentrau Iaith i gydweithio gyda'r Cyngor Sir i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer adfywio'r Gymraeg yn Sir Conwy. Mae'n fwriad hefyd i ail-ystyried aelodaeth y Fforwm a gwneud mwy o ymdrech i sicrhau presenoldeb mwy cyson gan rai mudiadau a sefydliadau sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i adfywiad y Gymraeg yn Sir Conwy.

Y Sector Cyhoeddus

69. Mae Cynllun Iaith Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy yn datgan fod y Cyngor –

- yn cydnabod bod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth person;
- yn ymrwymo i barchu hunaniaeth pawb a wasanaethir ganddo; ac
- yn cydnabod y gall y cyhoedd fynegi eu sylwadau a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith a bod galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith wrth gael neu gysylltu â gwasanaethau yn fater o arfer da yn hytrach na goddefiad.

70. Mae gan y Cyngor oddeutu 2,400 o staff parhaol. Yn ôl yr arolwg diweddaraf a wnaed o sgiliau iaith y staff, rhyw 25% o'r sawl a gymrodd rhan yn yr hunanasesiad a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd 28% o'r staff nad oedd ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl.

71. Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Conwy yn nodi bod angen adeiladu tua 7,000 o dai newydd yn y sir erbyn 2022. Bwriedir cyfyngu'r datblygiadau mwyaf i ardal y glannau, yn benodol o gwmpas trefi megis Llanfairfechan, Llandudno ac Abergele. Fodd bynnag, bwriedir adeiladu tua 200 o dai newydd yn ardal Llanrwst dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu gofyn am Ddatganiad Iaith ar ddatblygiadau tai llai na 5 uned ac Astudiaeth Effaith Ieithyddol ar ddatblygiadau dros 10 uned. Y datblygwyr tai fydd yn gyfrifol am gynnal yr astudiaethau hyn.

72. Mae Menter Iaith Conwy wedi cynhyrchu adroddiad manwl mewn ymateb i'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n argymell y dylai'r Cyngor Sir gymryd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg i ystyriaeth wrth asesu ceisiadau cynllunio a bod Llywodraeth Cymru'n cryfhau'r canllawiau i awdurdodau cynllunio yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 o ran y gofynion i fesur effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg.

Cynghorau Tref a Chymuned

73. Anfonwyd holiadur syml i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Conwy i holi am iaith cyfarfodydd, iaith gohebiaeth, agenda a chofnodion cyfarfodydd a'r defnydd o offer cyfieithu. Cafwyd ymateb gan 13 o'r 33 Cyngor, sef 39%. Cafwyd gwybodaeth gan Cyfieithu Cymunedol, Menter Iaith Conwy am y defnydd o'r Gymraeg gan 4 Cyngor Tref a Chymuned arall.

74. O'r sawl a gafwyd gwybodaeth ganddynt, roedd 4 yn cynnal eu cyfarfodydd yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith ar gyfer cofnodion a gohebiaeth gyffredinol. Roedd 6 yn defnyddio offer cyfieithu mewn cyfarfodydd ac yn cyhoeddi'r agenda, cofnodion a gohebiaeth gyffredinol yn ddwyieithog. Roedd 5 hefyd ag agenda a chofnodion dwyieithog ac yn cyhoeddi cylchlythyrau a hysbysiadau dwyieithog ond nid yn defnyddio offer cyfieithu. Roedd y gweddill (2) yn cynnal eu cyfarfodydd a'u gweinyddiaeth yn Saesneg yn unig.

75. Roedd y mwyafrif nad oeddent yn defnyddio offer cyfieithu ar hyn o bryd yn barod i ystyried defnyddio'r gwasanaeth pe bai yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim.

Y Sector Gwirfoddol

76. Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir Conwy 20 o staff i gyd, 10 yn gweithio'n llawn amser a 10 yn rhan-amser. Mae 11 o'r staff yn siaradwyr Cymraeg a 3 yn ddysgwyr. Mae gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol 15 o ymddiriedolwyr sy'n gweithredu fel Pwyllgor Rheoli ac yn eu plith mae 8 yn siaradwyr Cymraeg. Mae ganddynt 225 o fudiadau gwirfoddol amrywiol yn aelodau o'r corff ymbarél sirol.

77. Mae gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cynllun Iaith gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith sy'n golygu fod y wefan, posteri, arwyddion, cyhoeddiadau a bwletinau newyddion yn ddwyieithog. Mae'r corff hefyd yn ceisio sicrhau fod negeseuon Twitter a Facebook yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae offer cyfieithu ar-y-pryd yn cael ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus. Cwmni o'r enw *Cyfieithu*

Cymunedol dan adain Menter Iaith Sir Conwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyfieithu i'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol.

78. Wrth iddynt baratoi ar gyfer ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ymhen blwyddyn, hoffai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir Conwy ddatblygu mwy o gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg neu loywi eu hiaith dros y flwyddyn nesaf a chynnal mwy o gyrsiau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys mwy o gyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r corff yn awyddus iawn i integreiddio'r Gymraeg ar draws pob agwedd o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

Sir Ddinbych

Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun

Sir Ddinbych

Cefndir Economaidd a Chymdeithasol:

1. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 93,734 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych. Ganwyd 58.1% ohonynt yng Nghymru.

2. Mae economi Sir Ddinbych yn amrywiol iawn. Yn y gogledd, mae trefi Y Rhyl a Phrestatyn yn ganolfannau allweddol ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a thwristiaeth. Yn y gogledd hefyd mae Parc Busnes Llanelwy, sydd yn gartref i nifer o gwmnïau technolegol pwysig. Yn y de, mae'r ardal wledig yn rhwydwaith o fân bentrefi traddodiadol sydd yn gyrchfan poblogaidd i dwristiaid. Mae harddwch naturiol y dirwedd sydd wedi'i ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn denu ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

3. Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad mae canran y boblogaeth sy'n economaidd weithredol (65.6%), hynny yw mewn gwaith, ychydig yn is na chyfartaledd Gogledd Cymru (67.3%).

4. Mae mwyafrif y gweithlu yn gweithio yn y sectorau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (19.1%), Cyfanwerthu a Manwerthu (14%), Addysg (10%) ac Adeiladu (9%). Y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys iechyd, addysg a gweinyddiaeth, yw'r cyflogwr mwyaf yn y sir, gyda chyfran uwch o'r boblogaeth yn gweithio yn y sector hwn nag unrhyw awdurdod lleol arall yn y DU.

5. Nid oes gan 25.4% o'r boblogaeth oed gweithio gymwysterau. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru, sef 24.7%.

6. Mae rhai wardiau yn Y Rhyl a Dinbych ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

7. Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn mynd yn hŷn, yn bennaf oherwydd mewnfudo gan bobl o Loegr sydd wedi ymddeol. Mae allfudo ymhlith pobl ifanc sy'n gadael yr ardal i chwilio am waith hefyd yn her i'r sir. Mae'r cyfuniad o'r ffactorau demograffaidd hyn yn bygwth cynaladwyedd cymunedol y sir i'r dyfodol.

Yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych:

8. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 22,236 o bobl Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 24.6% o'r boblogaeth. Cyfanswm y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 23,760, sef 26.4% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeng mlynedd gwelwyd cwymp o 1,524 mewn nifer a 1.8% fel canran o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

9. Mae dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir Ddinbych ychydig yn fwy gwastad na'r hyn a geir yn Sir Conwy. Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos mai yn ne-orllewin y sir y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, yn wardiau etholiadol Llandrillo (59.2%), Efenechtyd (53.7%), Llanrhaeadr yng Nghynmeirch (50.0%) a Llanfair Dyffryn Clwyd (48.3%).

10. Fe welir yn ôl y map isod mai'r wardiau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Gogledd Prestatyn (12.6%), Gorllewin Rhyl (12.7%) a Dwyrain Rhyl (13.0%), sydd yn ardaloedd ar hyd yr arfordir.



Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

11. Mae'r tabl isod yn dangos yr adrannau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf a'r isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych:

Adran Etholiadol	% Siaradwyr Cymraeg 2011
Llandrillo	59.2
Efenechtyd	53.7

Llanrhaeadr yng Nghynmeirch	50.0
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	48.3
Corwen	47.9
Rhuthun	41.7
Dinbych Isaf	40.2
De Orllewin Rhyl	13.7
De Orllewin Prestatyn	13.7
Dwyrain Rhyl	13.0
Gorllewin Rhyl	12.7
Gogledd Prestatyn	12.6

12. Yn wahanol i'r adrannau etholiadol â chanrannau uchel - sydd yn rhai gwledig i gyd – mae'r tabl isod yn dangos bod mwyafrif y wardiau etholiadol sydd â'r niferoedd uchaf i'w gweld yn y trefi marchnad megis Corwen, Rhuthun a Dinbych. Ymddengys felly bod y trefi hyn yn rhai arwyddocaol o ran cynllunio ar gyfer dyfodol yr iaith gan fod niferoedd a chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt, yn yr un modd wardiau megis Llanfair DC/Gwyddelwern ac Efenechtyd sydd â chanrannau a niferoedd gweddol uchel. Yn ddiddorol, gwelir bod dros 1,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward De Ddwyrain Rhyl er bod y ganran yn gymharol isel (15.5%):-

Adran Etholiadol	Nifer Siaradwyr Cymraeg
Rhuthun	2,195
Dinbych Isaf	1,777
De Ddwyrain Rhyl	1,132
Llanfair DC/Gwyddelwern	1,044
Corwen	1,084
Dinbych Uchaf	998

13. Rhwng 2001-2011, roedd 5 adran etholiadol yn y sir wedi gweld cynnydd o ran nifer a chanran siaradwyr Cymraeg.

Adran Etholiadol	Cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg	Newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg
Efenechtyd	58	+2.10%
Llangollen	41	+0.15%
Gogledd Prestatyn	84	+0.28%
De Orllewin Prestatyn	67	+1.13%
Gorllewin Rhyl	19	0.32%

14. Roedd 9 adran etholiadol wedi gweld cynnydd mewn niferoedd ers 2001. Yn ogystal â'r rhai a enwyd uchod roedd adrannau etholiadol Bodelwyddan (+3), Llanarmon yn Iâl/Llandegla (+20), De Ddwyrain Y Rhyl (+5) a Rhuthun (+23) wedi codi mewn degawd. Gogledd a De Orllewin Prestatyn welodd y cynnydd mwyaf, fel y nodir uchod.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran:

15. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae dros 40% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 26% ar gyfer y grŵp oedran 15-30 ac yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-50 (21.3%). Y grŵp oedran 50-70 sydd â'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg yn yr holl grwpiau oedran, sef 18.3%. Mae'r grŵp oedran 70+ ychydig yn uwch gyda 22.4% yn medru'r Gymraeg. Fel y gwelir, ceir y canrannau mwyaf yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn mae'n debyg yn adlewyrchu dylanwad y gyfundrefn addysg ar sgiliau ieithyddol plant oed ysgol.

16. Mae'r niferoedd yn y grwpiau oedran 20-70 yn weddol gyson ac yn amrywio o 1,032 i 1,340. Y cyfartaledd ar gyfer pob grŵp oedran yw 1,174 o siaradwyr Cymraeg.

Grŵp Oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer Siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer Siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb dros 3 oed	26.4	24.6	23,760	22,236
3-4 oed	19.6	27.6	417	584
5-9 oed	39.4	45.3	2,273	2,248
10-14 oed	46.3	47.2	2,865	2,581
15-19 oed	36.6	32.5	1,990	1,950
20-24 oed	24.8	23.0	1,115	1,198
25-29 oed	24.2	22.8	1,174	1,032
30-34 oed	22.0	23.1	1,295	1,039
35-39 oed	21.5	22.7	1,425	1,215
40-44 oed	21.6	20.6	1,271	1,320
45-49 oed	20.5	19.1	1,202	1,326
50-54 oed	21.0	18.6	1,471	1,158
55-59 oed	22.1	17.3	1,283	1,034
60-64 oed	22.8	18.7	1,212	1,340
65-69 oed	25.0	18.6	1,175	1,079
70-74 oed	24.4	20.3	1,109	972
75-79 oed	24.6	22.4	1,011	832
80+ oed	26.9	24.6	1,472	1,328

17. Yr hyn sy'n galonogol am y data yw'r cynnydd sylweddol yn y ganran a'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-4, o 19.6% (417 mewn nifer) yn 2001 i 27.6% (584) yn 2011, sy'n gynnydd o + 8% a 167 mewn nifer. Mae hyn naill ai'n adlewyrchu'r

ffaith bod mwy o rieni neu'r teulu estynedig yn siarad Cymraeg â'u plant yn y cartref neu fod mwy o blant yn mynychu cylchoedd Ti a Fi neu gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg.

18. Mae'n werth nodi hefyd bod cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ers 2001, o 42.8% i 46.25%. O ran niferoedd mae gostyngiad yn y grŵp oedran hwn o 309, sydd yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o blant yn y blynyddoedd hynny o'u cymharu â degawd yng nghynt.

19. Yn anffodus, fel sy'n digwydd mewn nifer o siroedd eraill yn yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg, nid yw'r cynnydd ieithyddol hwn yn cael ei gynnal o ddegawd i ddegawd. Gweler yn y graff isod, er enghraifft, bod 46.3% o blant 10-14 oed yn siarad Cymraeg yn 2001, ond degawd yn ddiweddarach dim ond 23% o'r un garfan, sydd bellach yn 20-24 oed, sy'n parhau i siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai na'r hanner.

20. Os edrychir ar y niferoedd yn yr un grwpiau oedran gwelir y bu gostyngiad o 1,667 o siaradwyr Cymraeg mewn degawd, rhwng y rhai oedd yn rhugl yn 14 oed (2,865) a'r rhai a ddynodwyd yn rhugl yn 24 oed (1,198). Fel y nodir ym mhwynt 16 isod, mae allfudo gan bobl ifanc yn un rheswm pam y gwelir cwymp yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran hwn bob degawd.



21. Fel y mae'r graff uchod yn amlygu, mae gostyngiad sylweddol yn digwydd bob degawd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran 16+. Mae hyn yn awgrymu'r gryf bod y diffyg cyswllt â'r gyfundrefn addysg a diffyg cyfleoedd yn y gymuned a'r gweithle i ddefnyddio'r Gymraeg yn erydu sgiliau a hyder ieithyddol pobl ifanc.

22. Ffactor arall sy'n gyfrifol am y dirywiad hwn yw'r ffaith bod nifer sylweddol o bobl ifanc Sir Ddinbych yn gadael y sir i fynychu prifysgolion dros y ffin neu i chwilio am waith. Yn ôl ymchwil ddiweddar gan Brifysgol Bangor, bernir fod traean o bobl ifanc Gogledd Cymru'n gadael yr ardal i chwilio am swyddi neu i ddilyn cyrsiau prifysgol dros Glawdd Offa. Er nad oes modd cofnodi faint yn union o bobl ifanc sy'n gadael y sir sy'n siaradwyr Cymraeg, gellid tybio bod y ganran o leiaf yn debyg i'r cyfartaledd sirol ar gyfer y grŵp oedran hwn.

23. Gwelir bod canrannau'r rhai sy'n medru'r Gymraeg rhwng 20-50 oed yn 2001 a 2011 yn weddol debyg ond gwelir cwymp yn y ganran o siaradwyr Cymraeg 60+ o 24.7% yn

2001 i 20.9% yn 2011. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai dyma'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r iaith amlaf yn eu bywyd pob dydd.

24. Mae canran yr oedolion (16+) sy'n siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob grŵp oedran. Canran y siaradwyr Cymraeg dros 16 oed yw 21.2% o'i gymharu â 24.6% ar gyfer pob grŵp oedran dros 3 oed.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Man Geni:

25. Bu cynnydd ym mhoblogaeth Sir Ddinbych rhwng 2001-2011. Yn 2001 roedd 90,085 o bobl yn byw yn y sir. Erbyn 2011 roedd y cyfanswm dros 3 oed wedi codi i 93,734, sef cynnydd o 3,649 o bobl. Cymharer hyn â Sir Conwy a welodd gynnydd o 5,408 dros yr un cyfnod.

26. Mae dros hanner poblogaeth y sir (55%) yn byw ar y stribed cul o arfordir yng ngogledd y sir. Y Rhyl gyda phoblogaeth o 24,000 yw'r dref fwyaf, gyda Phrestatyn yn ail gyda phoblogaeth o 18,000. Dafliad carreg o'r trefi hyn mae Bodelwyddan, Rhuddlan a Dyserth, gyda phoblogaeth o tua 8,000 rhyngddynt. Dyma ardal fwyaf Seisnigaidd y sir o ddigon. Yma, mae 15.4% yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd o 30.7% yng ngweddill y sir.

27. Mae 43.2% o boblogaeth Sir Ddinbych wedi eu geni y tu allan i Gymru, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn dod o Loegr. Mae 48% o'r sawl sy'n byw ar hyd yr arfordir wedi eu geni y tu allan i Gymru o'i gymharu â 33% yn yr ardaloedd gwledig a threfol/wledig. Mae 47% o drigolion ardal Llangollen hefyd wedi eu geni y tu allan i Gymru.

28. Dengys y tabl isod bod y rhai a anwyd yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol wledig (gan gynnwys Llangollen a'r cylch) lawer mwy tebygol o fod yn siarad Cymraeg na'r rhai a aned ar hyd yr arfordir – 50.8% o'i gymharu â 24%.

	Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed	Canran y boblogaeth a aned yng Nghymru	Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	Nifer a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg	Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg
Sir Ddinbych	90,527	56.8	37.5	3,112	8.0
Arfordir	50,182	52.0	24.3	1,378	5.7
Cefngwlad Trefol/ Wledig	40,345	67.0	50.8	1,734	13.5

29. Fel y nodir yn y tabl uchod, mae'r ganran o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol wledig ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn siarad Cymraeg.

30. Mae'r siart isod yn dangos bod 19,124 o bobl a anwyd yng Nghymru (sef 37.5%) yn siarad Cymraeg, sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfan y sir gyfan, sef 24.6%. Mae hyn yn dangos cymaint yw effaith y mewnlifiad ar ganrannau siaradwyr Cymraeg yn y sir.



31. O safbwynt pobl dros 3 oed sydd wedi dysgu Cymraeg, mae'r siart isod yn dangos bod 3,112 o bobl a anwyd y tu allan i Gymru bellach yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn 7.9% o'r cyfanswm o 39,069 o bobl a symudodd i Sir Ddinbych i fyw dros y blynyddoedd diwethaf. Plant oed ysgol wrth gwrs fyddai'r mwyafrif o'r rhain.



Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref:

32. Un o'r ffactorau sy'n bennaf gyfrifol am danseilio parhad yr iaith Gymraeg yw diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref a diffyg defnydd o'r iaith o fewn y teulu. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw* yn nodi pwysigrwydd teuluoedd mewn cynllunio ieithyddol.

33. Mae ymchwil yn dangos y gall proffil iaith y gymuned a statws iaith o fewn y gymuned fod yn ffactorau pwysig wrth drosglwyddo iaith mewn ardaloedd â chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg. Nodir hefyd fod yr addysg Gymraeg a'r gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn gallu naill ai atgyfnerthu neu rwystro'r broses o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu.

34. Dengys y tabl isod bod cyfradd y trosglwyddo mewn cartrefi cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg ac mewn cartrefi rhiant unigol sy'n siarad Cymraeg i raddau helaeth wedi aros yn ei unfan ers 2001. Ychydig iawn o newid sydd wedi digwydd mewn deng mlynedd.

35. Ceir y newid mwyaf syfrdanol fodd bynnag yng nghyfradd y trosglwyddiad iaith mewn cartrefi cwpl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg ac mewn cartrefi heb oedolyn yn medru'r iaith.



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg
2011	145	38	160	200
2001	148	37	111	103

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

36. Mae'r tabl isod yn nodi mai 82.4% yw cyfradd trosglwyddiad iaith mewn cartrefi gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych. Fel mae'n digwydd 82% yw cyfartaledd y trosglwyddo mewn cartrefi o'r fath ar draws Cymru gyfan yn ôl Cyfrifiad 2011. Mae Sir Ddinbych felly yn adlewyrchu tueddiad cyffelyb mewn cartrefi gyda dau riant dwyieithog.

37. Ar lefel Cymru, cynyddodd y gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg o 40% yn 2001 i 45% yn 2001. Fodd bynnag, cododd y gyfradd mewn cartrefi o'r math yn Sir Ddinbych o 29.5% i 40.9%. Er bod y ffigwr hon yn is na chyfartaledd Cymru, mae'r cynnydd yn un arwyddocaol ac yn cyfateb i ryw 50 o blant.

38. Er y gwelwyd gostyngiad ar draws Cymru yn y gyfradd drosglwyddo mewn cartrefi un rhiant, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, o 55% yn 2001 i 53% yn 2011, gwelwyd cynnydd bychan iawn yn Sir Ddinbych o 46.8% i 48.1%.

39. Fel y gwelir isod, y ffigwr fwyaf calonogol er hynny, yw'r nifer o blant sy'n gallu siarad Cymraeg mewn teuluoedd heb oedolyn sy'n siarad Cymraeg. Mae'r ganran, a'r nifer bron wedi dyblu mewn deng mlynedd. Ffaith nodedig hefyd yw bod canran y cartrefi sydd â phlant 3-4 oed yn medru'r Gymraeg wedi cynyddu o 19.6% i 28% mewn degawd. Gellir yn hyderus ddod i'r casgliad mai ymyrraeth sefydliadau fel Mudiad Meithrin a TWF sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn dros y blynyddoedd diwethaf.



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg	Pob cartref
2011	82.4	48.1	40.9	15.5	28.0
2001	80.4	46.8	29.5	7.2	19.6

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Proffil o Alwedigaethau Siaradwyr Cymraeg Sir Ddinbych

40. Mae'r graff isod yn dangos mai'r sectorau sy'n denu'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg o ran nifer a chanran yw – galwedigaethau proffesiynol (29.5%), galwedigaethau crefftau medrus (27.5%) a galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (24.1%).

41. Mae'n ddiddorol nodi mai ymhlith rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion y ceir y lleiaf o siaradwyr Cymraeg o ran canran, sef 19.2%. Mae rheolwyr ac uwch swyddogion di-Gymraeg yn gallu cael dylanwad negyddol ar bolisïau recriwtio gan eu bod yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol mewn swyddi blaenorol a'u profiad cynt o ran defnyddio'r Saesneg fel iaith weinyddu a chyfathrebu. Mae hyn yn ategu dadl gref gan Delyth Morris a Glyn Williams (*Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*), sydd wedi dangos fod tuedd gyson yn hanesyddol i siaradwyr Cymraeg gael eu diystyru ar gyfer swyddi rheoli, a bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl ddi-Gymraeg yn meddiannu swyddi rheolwyr ar draws Cymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

42. Mae'n ddiddorol nodi hefyd mai'r alwedigaeth sydd â'r gynrychiolaeth isaf o ran canran siaradwyr Cymraeg yw'r sector gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid lle dylai fod pwyslais mawr ar gyfathrebu a rhoi dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Sir Ddinbych

Nifer a % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl galwedigaeth. Pobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2612.

Addysg

Addysg Feithrin

43. Mudiad Meithrin sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Ddinbych. Mae gan y mudiad 14 Cylch Meithrin/Meithrin Mwy a 22 Cylch Ti a Fi ar draws y sir. Yn ogystal, bwriedir cychwyn dau gylch Ti a Fi newydd yn Henllan a Dinbych Uchaf yn y dyfodol agos.

Cylchoedd Ti a Fi y Glannau:

Aberclwyd, Rhyl*
Rhuddlan
Y Llys, Prestatyn*
Llanelwy
Tremeirchion
Bodelwyddan

*(*Darpariaeth Dechrau'n Deg)*

Cylchoedd Ti a Fi Ardal Rhuthun/Dinbych

Bodawen, Dinbych
Llanrhaeadr
Prion
Clocaenog
Pwllglas
Cyffylliog
Rhuthun
Gellifor
Pentrecelyn

Cylchoedd Ti a Fi Edeyrnion a Llangollen

Caer Drewyn, Corwen
Glyndŵr, Corwen
Gwyddelwern
Betws Gwerfyl Goch
Ffrindiau Bach Llangollen
Llangollen
Dyfrdwy

Cylchoedd Meithrin y Glannau:

Aberclwyd, Rhyl

Rhuddlan

Y Llys, Prestatyn

Tremeirchion

Cylchoedd Meithrin Ardal Rhuthun/Dinbych

Bodawen, Dinbych

Dinbych Uchaf*

Twm o'r Nant, Dinbych

Llanrhaeadr

Pwllglas

Henllan

Clocaenog

Gellifor

Prion

Ffrindiau Bach Penbarras, Rhuthun

*(*Darpariaeth Dechrau'n Deg)*

Cylchoedd Meithrin Edeyrnion a Llangollen

Corwen

Cynwyd

Llangollen

44. Fel y gwelir yn ôl y rhestr uchod, mae'r cylchoedd Ti a Fi a'r cylchoedd meithrin wedi eu lleoli yn y trefi a'r pentrefi mwyaf poblog ar draws y sir neu o fewn cyrraedd hwylus iddynt.

Addysg Gynradd

45. Mae gan Sir Ddinbych bedwar categori gwahanol o ysgolion cynradd:-

15- ysgol gynradd Gymraeg

3- ysgol dwy-ffrwd

5- ysgolion cyfrwng Saesneg ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

28- ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf

Ysgolion Cynradd Cymraeg:

Ysgol Betws Gwerfyl Goch

Ysgol Clocaenog

Ysgol Maes Hyfryd, Cynwyd

Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych

Ysgol Bro Elwern, Gwyddelwern

Ysgol Henllan

Ysgol Llandrillo

Ysgol Gwernant, Llangollen

Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr

Ysgol Pentrecelyn

Ysgol y Llys, Prestatyn

Ysgol Pant Pastynog, Prion

Ysgol Dewi Sant, Rhyl

Ysgol Pen Barras, Rhuthun

Ysgol Tremeirchion

Ysgolion Cynradd Dwy Ffrwd:

Ysgol Cyffylliog

Ysgol Llanfair

Ysgol Rhewl

46. Mae nifer y disgyblion saith oed yn Sir Ddinbych sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf o 23% i 25%. Nod yr Awdurdod Addysg yw cynyddu'r ffigwr hwn i 28% erbyn 2015-16.

47. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 11 oed ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi amrywio o 20% i 23% dros y blynyddoedd diwethaf. Y ffigwr ar gyfer 2013 oedd 23.1%, sef 234 o ddisgyblion allan o 1,012.

Addysg Uwchradd Gymraeg

48. Mae gan Sir Ddinbych un Ysgol Uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy a dwy ysgol uwchradd ddwyieithog, sef Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ac Ysgol Dinas Brân, Llangollen.

49. Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol (2013-14) mae 980 o ddisgyblion yn Ysgol Glan Clwyd, sydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 11-19 oed. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu Cynllun Trochi sy'n galluogi disgyblion sydd wedi derbyn addysg gynradd cyfrwng Saesneg i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cyfartaledd o 20 o ddisgyblion wedi dilyn y Cynllun Trochi dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y cohort cyntaf wedi sefyll arholiadau TGAU llynedd a chafodd 70% ohonynt A*- C mewn Cymraeg fel iaith gyntaf.

5. Mae gan Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ddwy ffrwd Gymraeg, un ffrwd ddwyieithog a rhwng 3-6 ffrwd Saesneg, yn ddibynnol ar y flwyddyn, ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Tua 33% o ddisgyblion Blwyddyn 7 eleni (56/171) sydd yn y ffrydiau Cymraeg a 12% (21) yn y ffrwd ddwyieithog. Ym Mlwyddyn 8 mae 23% (41/179) yn y ffrydiau Cymraeg a 9% (17) yn y ffrwd ddwyieithog ac ym Mlwyddyn 9 mae 32% (49/153) yn y ffrydiau Cymraeg ac 11% (17) yn y ffrwd ddwyieithog. Yn y chweched dosbarth mae'r dosbarthiadau yn gymysg eu hiaith.

6. Mae gan Ysgol Dinas Brân, Llangollen un ffrwd Gymraeg ar gyfer y grŵp oedran hwn. Nod y Cyngor Sir yw cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y ddwy ysgol hyn dros y blynyddoedd nesaf.

50. Bu gostyngiad o 2% yn nifer y disgyblion gafodd eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2011-12 o 20.7% i 18.7%. Nod yr Awdurdod Addysg yw cynyddu'r ffigwr hwn i 21% erbyn 2015-16.

51. Mae nifer y disgyblion sydd yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf – o gwmpas 98%. Nod y Cyngor yw cynyddu hwn i 99% erbyn 2015-16.

52. Tua 15% o ddisgyblion oed 14-16 Sir Ddinbych oedd yn astudio'r cwricwlwm cyfan neu ran o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2011-12 sy'n cyfateb i 1241 o ddisgyblion. Mae hyn fymryn yn is na'r cyfanswm o 1306 yn 2010-11, yn bennaf oherwydd bod carfan lai o ddisgyblion yn y flwyddyn arbennig honno yn Ysgol Glan Clwyd. Nod y Cyngor Sir yw cynyddu'r ganran i 18% erbyn 2015.

53. Er bod y ganran o blant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn ddibynnol ar y grŵp oedran, mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn nodi bod cyfartaledd y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 10-14 oed dros 50%. Mae hyn wrth gwrs dipyn uwch na'r ganran gafodd eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2011, sef 20.7%. Y tebygrwydd yw bod plant sydd yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol yn cael eu dynodi gan eu rhieni fel siaradwyr Cymraeg rhugl, sydd i raddau'n camliwio, neu'n codi amheuon mawr o leiaf, ynglŷn â gwir sefyllfa'r Gymraeg yn y sir.

Addysg Uwchradd Saesneg

54. Mae gwybodaeth gan CBAC yn dangos bod dros 75% o ddisgyblion uwchradd Sir Ddinbych yn dilyn cyrsiau byr mewn Cymraeg fel ail iaith yn hytrach na'r cwrs llawn. Mae arolygon Estyn yn dangos mai dim ond nifer fechan iawn o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr mewn Cymraeg fel ail iaith sy'n gwneud cynnydd da tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Er bod canran y disgyblion ar draws Cymru sy'n cael graddau A* - C ar y cwrs byr wedi cynyddu rhywfaint o 47% yn 2006 i 49% yn 2012, mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n wael â'r nifer gafodd raddau A* - C ar y cwrs llawn, sef 69% yn 2006 a 74% yn 2012. Yn ôl Estyn, y prif resymau pam mae disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr yn tangyflawni yw:

- caiff gormod o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer yr arholiad haen is er y gallant ennill graddau uwch;

- mae'r amser a ddyrennir i addysgu'r cwrs byr yn aml yn llai na'r amser a argymhellir gan CBAC;
- yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr glywed ac ymarfer defnyddio'r iaith y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol;
- mewn gormod o ysgolion, caiff y cwrs byr ei addysgu gan athrawon nad oes ganddynt yr arbenigedd na chwaith ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.

Addysg Bellach

55. Mae gan Grŵp Llandrillo Menai nifer o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog ar y tri champws ym Mangor, Llandrillo-yn-Rhos a'r Rhyl. Mae maint cyfrwng yr addysgu yn amrywio o gwrs i gwrs ond mae cyfran o bob un o'r canlynol yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:-

Gwasanaethau Cyhoeddus
Cyfrifiadureg a'r Cyfryngau
Twristiaeth
Peirianneg
Adeiladwaith
Celfyddydau Creadigol
Trin Gwallt a Harddwch
Chwaraeon
Astudiaethau Busnes
Lletygarwch
Iechyd a Lles
Peirianneg ceir

56. Mae Coleg Cambria, sydd yn goleg newydd ar ôl uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl yn Awst 2013, hefyd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog ar y chwe safle sydd ganddo, gan gynnwys Coleg Llysfasi ger Rhuthun.

57. Mae Cynllun Iaith Gymraeg newydd y coleg yn nodi ei fod yn llwyr ymroddedig i hyrwyddo dwyieithrwydd, diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn hynod falch o fod yn sefydliad gwirioneddol Gymreig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

58. Mae'n un o golegau mwyaf y DU, yn cyflogi dros 1,600 o staff gyda dros 7,000 o fyfyrwyr llawn amser ac 20,000 o ddysgwyr rhan-amser, a chysylltiadau rhyngwladol dros bedwar cyfandir.

59. Mae chwe safle i'r coleg, tri yn Wrecsam a'r lleill yng Nghei Connah, Llaneurgain a Llysfasi. Mae'r coleg yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys tri awdurdod lleol gyda phoblogaeth o bron i 400,000 sy'n cynrychioli dros 12% o boblogaeth Cymru.

60. Mae'r coleg yn denu myfyrwyr o dair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sef Morgan Llwyd, Maes Garmon a Glan Clwyd yn ogystal â nifer o ysgolion dwyieithog gan gynnwys Dinas Brân, Brynhyfryd a'r Berwyn.

61. Mae Coleg Cambria yn cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog. Mae maint y cyfrwng addysgu yn amrywio o gwrs i gwrs ond mae cyfran sylweddol o'r cyrsiau canlynol yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:-

- Gofal Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sgiliau Cyflogadwyedd
- Gwallt a Harddwch
- Mecaneg Cerbydau
- Adeiladu
- Amaethyddiaeth
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Cymraeg i Oedolion

62. Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar bob lefel yn Sir Ddinbych. Mae gan y ganolfan ddarpariaeth eang iawn sy'n ceisio ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr o safbwynt lefelau, lleoliadau, amserau a dulliau dysgu.

63. Gweler isod y nifer o ddysgwyr a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau ar lefelau gwahanol yn Sir Ddinbych yn ystod 2013-14. Fel y gellid disgwyl efallai, mae'r mwyafrif helaeth wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Ar sail y ffigurau hyn, ychydig dros 10% sy'n parhau i ddilyn cyrsiau ar lefel Hyfedredd er bod carfan sylweddol yn dilyn cyrsiau ar lefel Uwch.

Lefel	Sir Ddinbych
Mynediad	338
Sylfaen	144
Canolradd	73
Uwch	110
Hyfedredd	36

64. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn Sir Ddinbych. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa anffurfiol. Ymhlith y gweithgareddau a drefnwyd dros y misoedd diwethaf, mae:-

- Noson blasu gwin a siocled
- Boreau coffi
- Te prynhawn a sgwrs
- Stomp farddol
- Clwb darllen

- Bingo a gêmau
- Noson o ganu
- Sesiynau 'Paned a Sgwrs'
- Cwisiau
- Teithiau cerdded

Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod mae clybiau Cymraeg i ddysgwyr wedi eu sefydlu yn ddiweddar yn Ninbych, Rhyl a Phrestatyn.

65. Gweler yn ôl y map isod leoliad y ddarpariaeth yn Sir Ddinbych a'r gwahanol lefelau a gynigir - o gyrsiau lefel Mynediad i gyrsiau lefel Uwch:-

Cyrsiau Iaith Dinbych 2012-2013



Mudiadau Iaith/Cymdeithasol

Urdd Gobaith Cymru

55. Mae gan yr Urdd ddarpariaeth eang iawn ar draws Sir Ddinbych sydd yn cynnwys clybiau mewn ysgolion, adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd. Mae gan yr Urdd dros 2,088 o aelodau yn y sir.

56. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau wythnosol mewn gwahanol rannau o'r sir, mae'r Urdd yn trefnu Eisteddfodau Cylch ac Eisteddfod Sirol, cystadlaethau chwaraeon, clybiau chwaraeon mewn ysgolion (5x60), gweithdai o bob math, tripiau ac ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd. Mae'r mudiad hefyd yn gweithio'n agos iawn â Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir i ddarparu sesiynau bugeiliol mewn ysgolion ac wedi bod ynghlwm â phrosiect 'Byw ar y Fiw', sef cynnal cyfres o weithgareddau awyr agored ar y cyd â Menter Iaith Sir Ddinbych.

57. Mae'r map isod yn dangos lleoliad a natur y ddarpariaeth yn y sir

Darpariaeth yr Urdd yn Sir Ddinbych

urdd.org

Y RHYL
Cynnal gweithgareddau yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac ysgolion uwchradd Y Rhyl a Bendigaid Edward.

LLANELWY
Gweithgareddau amrywiol yn Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Gynradd Esgob Morgan.

DINBYCH
Cynnal gweithgareddau amrywiol yn ysgolion cynradd - Twm o'r Nant, Frongoch, Trefnant, Pant Pastynog a Bro Cinmeirch ac yn ysgolion uwchradd Dinbych a Santes Ffraid. Uwch Adran Dinbych.

CORWEN
Cynhelir gweithgareddau yn yr ysgolion cynradd canlynol – Betws Gwerfyl Goch, Maes Hyfryd, Carrog, Gwyddelwern.

PRESTATYN
Cynnal gweithgareddau amrywiol yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Y Llys.

RHUTHUN
Cynnal gweithgareddau yn ysgolion cynradd - Pen Barras, Rhewl, Llanbedr, Stryd y Rhos, Pentrecelyn, Llanfair, Cyffylliog, Clocaenog ac Ysgol Uwchradd Brynhyfryd. Aelwyd Llysfasi. Aelwyd ac Uwch-adran Rhuthun.

LLANGOLLEN
Cynhelir gweithgareddau amrywiol yn Ysgol Uwchradd Dinas Brân ac Ysgol Gynradd Gwernant.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

58. Mae gan Ffederasiwn Clybiau'r Ffermwyr Ifanc bedwar clwb yn Sir Ddinbych, sef:

Bro Edeirnion, Corwen
Rhuthun
Nantglyn
Llangollen

Mae pob un o'r clybiau hyn ac eithrio clwb Llangollen yn cynnal eu gweithgareddau a'u gweinyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CFfI Llangollen yn gweithredu'n ddwyieithog.

Merched y Wawr/Clybiau Gwawr

59. Mae gan Ferched y Wawr 15 cangen yn Sir Ddinbych, sef:-

Bryneglwys a Llandegla
Corwen
Cynwyd
Derwen
Dinbych
Rhuthun
Y Rhyl
Llanelwy
Gwyddelwern
Llanfair Dyffryn Clwyd
Dyffryn Ceiriog
Llanrhaeadr
Rhiwlas a'r Cylch
Prestatyn
Henllan

Mae dau Glwb Gwawr hefyd yn weithredol yn y sir, sef clwb 'Traed yn Rhydd', Corwen a chlwb 'Y Gleision', Pwllglas, Rhuthun.

Menter Iaith Sir Ddinbych

60. Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003. Mae'r fenter yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Erbyn hyn (2013-14) mae'r fenter yn cyflogi 2.8 o staff craidd ac un swyddog prosiect.

Prif nodau'r Fenter yw:

- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymysg poblogaeth y Sir ym mhob agwedd ar fywyd;
- Sicrhau bod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr ddysgu'r Gymraeg ac i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r iaith;
- Sicrhau bod yr holl ystod o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir yn datblygu i fod yn gwbl ddwyieithog.

Mae rhaglen waith y Fenter yn canolbwyntio ar dri phrif faes ar hyn o bryd sef:

- Ieuenctid (cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc)
- Teuluoedd
- Y Gymuned

O fewn y penawdau hyn mae'r Fenter yn cynnal nifer o weithgareddau amrywiol er mwyn sicrhau fod:

- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a hyderus tu allan i oriau ysgol;
- Rhagor o blant yn cael eu magu'n ddwyieithog naill ai drwy fod mwy o rieni sy'n Gymry Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith yn y cartref neu fod rhieni di-Gymraeg yn dewis addysg Gymraeg i'w plant;
- Codi'r lefel o ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg/Cymreig a chynyddu'r nifer o gyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

61. Cafodd Prosiect Iaith Cydweithredol ei redeg ar y cyd rhwng Mentrau Iaith y gogledd ddwyrain a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru. Nod y prosiect oedd hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant treftadol Cymraeg ac annog gwell cydweithrediad rhwng y mudiadau hynny sydd yn hybu ac yn datblygu defnydd o'r iaith Gymraeg yn yr ardal ar draws yr holl sectorau. Roedd hefyd yn ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a chefnogi gweithgareddau i ddatblygu sylfaen sgiliau er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am weithlu dwyieithog.

62. Cafodd adolygiad ei gynnal yn ddiweddar o'r Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Aman Tawe gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a chwmni *Sbectrwm.* Cafodd adroddiad ar yr adolygiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Cyfeirir at brif argymhellion yr adroddiad yn *Atodiad A*.

Cynlluniau Gweithredu Iaith Rhuthun a Bro Edeyrnion

63. Mae dau Gynllun Gweithredu Iaith yn weithredol yn Sir Ddinbych, sef Cynllun Gweithredu Iaith Rhuthun a Bro Edeyrnion. Mae Cynlluniau Gweithredu Iaith yn wahanol i'r Mentrau Iaith, gan eu bod yn targedu ardaloedd llai eu maint sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg ond lle mae'r defnydd o'r iaith yn dirywio'n sydyn. Bwriad y Cynlluniau Gweithredu Iaith yw gweithio'n agos gyda mudiadau a sefydliadau lleol i'w hannog i sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae gan y Cynlluniau Gweithredu Iaith yn Rhuthun a Bro Edeyrnion Bwyllgorau Llywio sy'n gweithio yn y gymuned i gefnogi gwaith y swyddogion datblygu. Mae un aelod o staff yn gweithio i bob un o'r ddau Gynllun Gweithredu Iaith. Gweision sifil, a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, yw staff y Cynlluniau Gweithredu Iaith ac maent yn rhan o Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru.

64. Mae'r adolygiad o'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod tensiynau'n bodoli mewn nifer o achosion ar draws Cymru rhwng y Mentrau a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith ac mae'r prif resymau am hyn

yw'r diffyg dealltwriaeth ynglŷn ag amcanion y naill sefydliad â'r llall, diffyg cyfathrebu a diffyg cynllunio ar y cyd.

TWF

65. Mae gan TWF ddau swyddog rhan-amser yn gweithio yn Sir Ddinbych. Mae un yn canolbwyntio ar ardal y glannau a'r llall yn gweithio'n bennaf yn ne'r sir yn yr ardaloedd mwy gwledig sy'n cynnwys trefi fel Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen.

66. Mae'r gwaith pennaf, o safbwynt siarad â rhieni am fanteision magu plant yn ddwyieithog, yn digwydd mewn clinigau, canolfannau iechyd, meddygfeydd, canolfannau plant ac ysbytai. Mae'r sgwrs fynychaf yn anffurfiol ac yn digwydd ar lefel un-i-un. Yn ogystal â sgwrsio'n gyffredinol mae pob rhiant yn derbyn pecyn gwybodaeth gan swyddogion TWF sy'n cynnwys manylion am fanteision dwyieithrwydd, gwybodaeth am gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin lleol a manylion am gyrsiau 'Blasu Iaith' sy'n cael eu darparu gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

67. Mae Sesiynau TWF yn cael eu trefnu ar draws y sir ar gyfer rhieni â babis hyd at 18 mis oed. Mae'r sesiynau yn cynnwys caneuon, chwarae, tylino babis, sgwrsio, gweithgareddau crefft ac ati. Mae'r sesiynau, sy'n rhedeg am 6 wythnos mewn un lle fel arfer, yn cael eu cynnal fel arfer yng Nghorwen, Llangollen, Rhuthun, Dinbych, Y Rhyl, Prestatyn a Llanelwy.

68. Mae TWF yn cydweithio gyda chynllun 'Dechrau Da' sy'n cael ei ariannu gan Adran Llyfrgelloedd Sir Ddinbych. Bwriad y cynllun yw targedu rhieni mewn ardaloedd difreintiedig i wella sgiliau llythrennedd ymhlith plant. Mae TWF hefyd yn cydweithio gyda chynllun 'Iaith a Chwarae' yr Adran Addysg sydd yn cydweithio â rhieni i symbylu a datblygu iaith a llythrennedd ymhlith plant cyn oed ysgol.

Papurau Bro

69. Mae pedwar papur bro ar gael yn Sir Ddinbych, sef:-

Y Glannau – cylchrediad o gwmpas 850 y rhifyn

Y Bigwn (ardal Dinbych) - cylchrediad o gwmpas 450 y rhifyn

Y Bedol (ardal Rhuthun/Corwen) - cylchrediad o gwmpas 1600 y rhifyn

Y Gadlas (yr ardal wledig rhwng Conwy a Chlwyd) - cylchrediad o gwmpas 1400 y rhifyn sy'n cynnwys tua 70% dros y ffin yn Sir Conwy a thua 30% yn Sir Ddinbych.

Cymdeithasau Cymraeg Eraill

70. Nid oes rhestr gyflawn o gymdeithasau Cymraeg ar gael ar gyfer Sir Ddinbych, ond ymhlith y cymdeithasau/corau mwyaf blaenllaw yn yr ardal mae'r canlynol:-

Côr Rhuthun

Genod y Gân

Côr Dinbych

Côr Llangollen (dwyieithog)

Cymdeithas Caledfryn, Dinbych

Cymdeithas Gymraeg, Dinbych

Clwb Sgwrs a Sangria, Dinbych

Clwb yr Henllys, Rhuthun

Cylch Llenyddol Bro Glyndŵr

Cylch Darllen Llyfrgell Rhuthun

Theatr Ieuenctid Dyffryn Clwyd

Gŵyl Rhuthun (dwyieithog)

** Am restr gyfredol o gymdeithasau a chlybiau Cymraeg ewch i wefan Menter Iaith Sir Ddinbych*

Fforwm Iaith Sir Ddinbych

71. Pwrpas Partneriaith (Fforwm Iaith Sir Ddinbych) yw dod â mudiadau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg at ei gilydd er mwyn cydlynu ymdrechion a chreu gwell dealltwriaeth rhwng y gwahanol bartneriaid â'i gilydd. Aelodau presennol Fforwm Iaith Sir Ddinbych yw:-

- Menter Iaith Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Ddinbych
- Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych
- Yr Urdd
- Mudiad Meithrin
- TWF
- Merched y Wawr
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Popeth Cymraeg
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Cynllun Gweithredu Iaith Rhuthun
- Cynllun Gweithredu Iaith Bro Edeyrnion
- Coleg Cambria (Coleg Llysfasi)
- Llywodraeth Cymru

72. Barn mwyafrif y mudiadau y cysylltwyd â hwy yn Sir Ddinbych yw bod y Fforwm Iaith yn ddim byd mwy na 'siop siarad'. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yn yr adolygiad diweddar a wnaed gan Brifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm o'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith. Fel y nodir yn yr adroddiad - 'Mae'r Fforymau Iaith Sirol (fforymau trafod sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau lleol perthnasol) yn cael eu hystyried gan lawer yn endidau heb fod iddynt werth sylweddol, dylanwad strategol nac effaith lluosi…….Er bod gwerth iddynt o ran dod i adnabod gwahanol sefydliadau ac unigolion a chlywed drwy adroddiadau beth sydd wedi digwydd, ni welir pwrpas iddynt o ran gweithredu fel cyrff cynllunio strategol.'

73. Mae gan y Fforymau Iaith botensial o ran gallu cydlynu ymdrechion yr holl fudiadau perthnasol a'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol. Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn ystyried ail-ymweld ag aelodaeth a chylch gorchwyl y Fforwm a'i ail-lansio er mwyn iddo weithredu fel cyfrwng mwy strategol a chydlynol o ran adfywio'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Y Sector Cyhoeddus

74. Mae Cynllun Iaith Cyngor Sir Ddinbych yn datgan mai nod y Cyngor yw diogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy Sir Ddinbych gyfan, drwy'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, drwy'r partneriaid mae'n gweithio gyda nhw a thrwy ei rôl fel prif gyflogwr a phrif gontractwr yn y sir.

75. Nod y cyngor yw cael sefyllfa lle bo staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn ddwyieithog a bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog. Wrth wneud hyn bydd y cyngor yn sicrhau ei fod yn:

- cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin â'r cyngor;
- cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad;
- cydnabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa o anfantais wirioneddol.

76. Mae gan y Cyngor Sir 5,000 o staff ac yn ôl yr awdit diwethaf o'u sgiliau iaith, dynodir bod tua 28% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

77. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar 6ed Ionawr, 2014 y set gyntaf o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Fel man cychwyn mae'r safonau'n canolbwyntio ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Mae'r Mesur yn

galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd safonau yn raddol gymryd lle'r system bresennol o Gynlluniau Iaith, y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

78. Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu pum math penodol o safonau, sef:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

79. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau dros y misoedd nesaf mewn perthynas â chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

80. Fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych mae'n fwriad codi dros 1,700 o dai ym mhentref Bodelwyddan. Yn ôl y datblygwyr, bydd y cynllun, sydd yn cynnwys ysgol newydd, dwy ganolfan gymunedol, cartref i'r henoed a gwesty 100 gwely yn creu tua 3,000 o swyddi. Fel rhan o'r ymgynghoriad bu grwpiau protest lleol, Cymdeithas yr Iaith a gwleidyddion o bob plaid yn mynegi eu pryder am effaith y datblygiad ar yr iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried rhoi mesurau lliniaru yn eu lle fyddai'n sicrhau nad oes effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yng nghyffiniau Bodelwyddan.

Cynghorau Tref a Chymuned

81. Anfonwyd holiadur syml i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych i holi am iaith cyfarfodydd, iaith gohebiaeth, agenda a chofnodion cyfarfodydd a'r defnydd o offer cyfieithu. Cafwyd ymateb gan 9 o'r 28 Cyngor, sef 32%.

82. O'r sawl a ymatebodd i'r holiadur, roedd dau gyngor yn defnyddio offer cyfieithu ar-y-pryd. Roedd 4 yn cyhoeddi'r agenda a'r cofnodion yn ddwyieithog ynghyd ag anfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol allan yn y ddwy iaith. Roedd y gweddill yn cynnal eu cyfarfodydd a'u gweinyddiaeth yn Saesneg.

Y Sector Gwirfoddol

83. Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC) sy'n gyfrifol am gydlynu cyrff a mudiadau gwirfoddol yn y sir. Mae dros 1,400 o fudiadau'n aelodau cysylltiol o DVSC. Mae can y corff 55 o staff llawn amser a rhan-amser ac yn eu plith mae 10 sydd yn gallu siarad Cymraeg – rhai yn fwy hyderus na'i gilydd.

84. Mae gan DVSC bolisi iaith sy'n golygu fod pob gwybodaeth sy'n cael ei ddosbarthu neu ei gyhoeddi - er enghraifft y papur newyddion chwarterol, gohebiaeth gyffredinol, bwletinau, posteri ac ati yn ddwyieithog. Tan yn ddiweddar roedd DVSC yn cyflogi cyfieithydd llawn amser ond bellach mae'r gwaith cyfieithu yn cael ei wneud yn allanol.

85. Mae DVSC yn awyddus i gynnal mwy o'u cyfarfodydd yn ddwyieithog ond ar hyn o bryd yn gweld y gost o dalu am gyfieithydd ar-y-pryd yn ormodol. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn awyddus i weld rhywun yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i ddatblygu marc safon fyddai'n cydnabod fod mudiadau neu sefydliadau unigol yn gweithredu'n ddwyieithog.

86. Ymhen blwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau mewn perthynas â'r sector gwirfoddol.



Sir y Fflint

Cofgolofn Daniel Owen, Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

Cefndir Economaidd a Chymdeithasol

1. Mae lleoliad Sir y Fflint, ar y ffin yng nghornel Gogledd Ddwyrain Cymru yn unigryw, ac mae'n cynnwys ardal sy'n mesur 438 cilometr sgwâr. Mae'r sir yn ymfalchïo yn ei hardaloedd diwydiannol llewyrchus a'r patrwm o aneddiadau ffyniannus sy'n cynnal poblogaeth sy'n tyfu.

2. Yn ôl cyfrifiad 2011 mae Sir y Fflint yn gwasanaethu poblogaeth breswyl o 152,506 gyda 50% ohonynt wedi eu geni yng Nghymru.

3. Mae'r sir yn ffinio â siroedd Wrecsam, Dinbych a Chaer. Mae'r Sir yn un o'r rhai lleiaf difreintiedig yng Nghymru, er bod rhai pocedi o dlodi mewn wardiau penodol yng Ngorllewin yr Wyddgrug, Mostyn, Treffynnon, Shotton a Fflint.

4. Mae gan Sir y Fflint un o'r sectorau gweithgynhyrchu mwyaf yn y DU sy'n cynnwys amrediad o ddiwydiannau megis Cerbydau Modur, Bwyd, Awyrofod, Dur ac Ynni Adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau aml-genedlaethol mawr fel Toyota, Airbus a Vion. Mae'r Sir hefyd yn cefnogi amrediad eang o ddiwydiannau gwasanaethau ac adwerthu.

5. Mae'r niferoedd sy'n ddi-waith yn y sir yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda'r canrannau uchaf sy'n hawlio budd-daliadau yn byw yn ardaloedd Cei Connah a Fflint, ac yn ardaloedd gwledig yr Wyddgrug a Sealand. Mae diweithdra yn broblem o fewn yr oedran 18-24. Yn ôl 'Adroddiad Economaidd Sir Y Fflint 2010', mae'r canran o bobl 18-24 sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn 33%, sydd yn is na chyfartaledd Cymru, ond yn uwch na chyfartaledd y D.U, sef 29%.

6. Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad mae canran y boblogaeth sy'n economaidd weithredol (70.3%), yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru (67.3%) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (65.8%).

7. Mae mwyafrif y gweithlu yn gweithio yn y sectorau Gweithgynhyrchu (18.9%), Cyfanwerthu a Manwerthu (16.3%), Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (11.1%), Addysg (8.6%) ac Adeiladu (7.7%).

8. Nid oes gan 23.5% o'r boblogaeth oed gweithio gymwysterau. Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru, sef 24.7%.

9. Dros y blynyddoedd, mae ardaloedd gwledig Sir y Fflint, fel amryw o ardaloedd eraill trwy Gymru wedi gweld argyfwng economaidd yn y cymunedau hynny sydd yn ddibynnol ar amaethyddiaeth. Mae cynlluniau megis Amcan 3 a chyllid o'r Undeb Ewropeaidd wedi mynd yn bell iawn o safbwynt adfywio cymunedau, ond mae'r bygythiad i seiliau cymunedau traddodiadol Gymraeg yn yr ardaloedd gwledig yn parhau i fodoli.

Y Gymraeg yn Sir y Fflint

10. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 19,343 o bobl Sir y Fflint yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 13.2% o'r boblogaeth. Cyfanswm y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 20,599, sef 14.4% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeng mlynedd mae gostyngiad wedi bod o 1,256 mewn nifer a 1.2% fel canran siaradwyr Cymraeg yn y sir.

11. Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos mai yn ardal Yr Wyddgrug (De'r Wyddgrug – 30.6%), Trelawnyd (26.2%) a Threuddyn (24.4%) y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

12. Fel y mae'r map isod yn dangos, y wardiau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Saltney Stoneybridge (6.1%), Seland (7.5%) a Saltney Cyffordd

yr Wyddgrug (7.8%). Mae mwyafrif helaeth y wardiau gyda chanrannau isel yn agos at y ffin â Lloegr.

13. Dengys y map isod ddosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir y Fflint yn ôl canrannau. Gwelir bod rhaniad clir rhwng yr adrannau etholiadol yng ngorllewin y sir, sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, a'r rhai sydd yn y dwyrain, yn agos at y ffin â Lloegr.

14. Dengys y map isod ddosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir y Fflint yn ôl canrannau. Gwelir bod rhaniad clir rhwng yr adrannau etholiadol yng ngorllewin y sir, sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, a'r rhai sydd yn y dwyrain, yn agos at y ffin â Lloegr.

Sir y Fflint
Tabl: Sgiliau yn y Gymraeg
(Gallu siarad Cymraeg)



Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

15. Mae'r tabl isod yn dangos yr adrannau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf a'r isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint:

Adran Etholiadol	% Siaradwyr Cymraeg 2011
De'r Wyddgrug	30.6
Trelawnyd a Gwaunysgor	26.2
Treuddyn	24.4
Ffynnongroyw	22.9
Chwitffordd	20.7
Helygain	20.7
Caerwys	20.3
Cei Conna Wepre	9.1
Canol Cei Conna	8.7
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	8.5
Saltney Cyffordd yr Wyddgrug	7.8
Seland	7.5
Saltney Stoneybridge	6.1

16. Ymddengys yn ôl data 2011 mai 5 ward etholiadol yn y sir sydd â dros 500 o siaradwyr Cymraeg. Fel y dengys y tabl isod, tre'r Wyddgrug, sef tref weinyddol Sir y Fflint, sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg o bell ffordd, sef 810, gyda'r gweddill rhwng 500 - 600 o siaradwyr Cymraeg.

Adran Etholiadol	Nifer Siaradwyr Cymraeg
De'r Wyddgrug	810
Cei Conna Golftyn	577
Ewloe	575
Caerwys	507
Llaneurgain	503

17. Rhwng 2001-2011, roedd 10 adran etholiadol yn y sir wedi gweld cynnydd o ran nifer a chanran siaradwyr Cymraeg, gyda'r cynnydd mwyaf yn adran etholiadol Hawarden.

Adran Etholiadol	Cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg	Newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg
Argoed	23	+0.98%
Caegwrle	3	+0.03%
Kinerton Uchaf	17	+0.63%
Gronant	1	+0.88%
Penarlâg	42	+2.03%
Yr Hôb	19	+0.35%
Dwyrain yr Wyddgrug	34	+1.44%
De'r Wyddgrug	35	+1.74%
Gorllewin yr Wyddgrug	65	+0.9%
Gorllewin Shotton	44	+1.5%

18. At ei gilydd gwelodd 18 adran etholiadol (allan o 57) gynnydd o ran nifer siaradwyr Cymraeg ers 2001 gyda Gorllewin yr Wyddgrug (+65), Gorllewin Shotton (+44) a De'r Wyddgrug (+35) ymhlith yr uchaf. Gwelodd bob ward yn ardal Yr Wyddgrug gynnydd o ran niferoedd rhwng 2001-2011 a thair o'r pedair gynnydd o ran canran.

19. Cafwyd cynnydd yng nghanran siaradwyr Cymraeg yn 14 o'r adrannau etholiadol ers 2001, gyda'r cynnydd mwyaf yn Hawarden (+2.0%), De'r Wyddgrug (+1.7%) a Gorllewin Shotton (+1.5%).

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran

20. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran yn Sir y Fflint fel yn siroedd eraill y gogledd ddwyrain. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae dros 37% o blant 5-15 oed Sir y Fflint yn gallu siarad Cymraeg. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 17.8% ar gyfer y grŵp oedran 15-30 a thipyn yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-50, sef 8.3%. Mae'r grŵp oedran 50-70 yn debyg iawn o ran canran i'r grŵp oedran 30-50, sef 8.5%. Mae'r grŵp oedran 70+ ychydig bach yn uwch gyda 10.6% yn medru'r Gymraeg.

Sir Y Fflint

Grŵp Oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb dros 3 oed	14.4	13.2	20,599	19,343
3-4 oed	10.3	14.4	382	545
5-9 oed	32.7	33.1	3,138	2,768
10-14 oed	42.4	38.9	4,270	3,499
15-19 oed	27.4	24.2	2,521	2,298
20-24 oed	13.8	12.8	1,082	1,152
25-29 oed	12.2	10.4	1,103	892
30-34 oed	9.0	11.2	1,012	938
35-39 oed	8.7	10.4	1,036	1,009
40-44 oed	7.9	8.8	818	1,005
45-49 oed	7.7	8.0	736	939
50-54 oed	7.5	7.6	857	767
55-59 oed	7.7	7.1	718	674
60-64 oed	8.3	6.5	665	721
65-69 oed	9.1	7.1	581	597
70-74 oed	9.8	7.0	552	476
75-79 oed	10.3	8.6	464	426
80+ oed	11.8	9.6	664	637

21. Fel y gwelir, ceir y canrannau mwyaf yn medru'r Gymraeg yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn yn ddi-os yn adlewyrchu dylanwad y gyfundrefn addysg ar sgiliau ieithyddol plant oed ysgol. Fel y nodir isod, mae'r ffigwr hwn gryn dipyn yn uwch na'r ganran o blant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod nifer fawr

o rieni'n cofnodi eu plant fel siaradwyr Cymraeg er mai dilyn trac ail iaith mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn ei wneud yn yr ysgol.

22. Yn ôl niferoedd, gwelir y gostyngiad mwyaf yn y grwpiau oedran 18+ sydd yn awgrymu'n gryf bod dylanwad y gyfundrefn addysg yn lleihau wrth i bobl ifanc golli cysylltiad â'r iaith ar ôl iddynt adael yr ysgol. Ymhlith y grwpiau oedran 70-74 a 75-79 y ceir y niferoedd isaf.

23. Yr hyn sydd yn wahanol i ffigurau Sir y Fflint yn 2011 o'u cymharu â siroedd Conwy a Dinbych, ac i raddau llai Wrecsam, yw bod lleihad ers 2001 yng nghanran y plant 10-19 oed sy'n gallu siarad Cymraeg – gostyngiad o 34.9% i 31.6%. Mae'r niferoedd yn y ddau grŵp oedran hyn wedi gostwng hefyd, o 4,270 yn 2001 (10-14 oed) i 3,499 yn 2011 (15-19 oed).

24. Mae'r cynnydd yn y grŵp oedran 3-4 oed, o 10.3% i 14.4%, yn galonogol ac yn dangos dylanwad posibl y teulu estynedig o ran cyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc. Ar y llaw arall, gallai'r datblygiad adlewyrchu cyfraniad y Mudiad Meithrin neu ddarparwyr gofal plant preifat. Gellid dadlau y gallai'r ffigwr hwn fod yn uwch pe bai swyddog TWF yn gweithio yn Sir y Fflint. O ran nifer, mae'r cynnydd yn 163 o blant - o 382 i 545 mewn degawd. Fodd bynnag, nid yw'r canrannau cystal yn y grŵp oedran 10-14 a 15-19 ac ydoedd ddeng mlynedd yn ôl.

25. Yn debyg iawn i bob sir arall yng Nghymru, nid yw'r pegynnu ieithyddol sydd yn digwydd ymhlith y grŵp oedran 10-14 yn cael ei barhau wedi hynny. Er enghraifft, gwelir cwymp dramatig yn y ganran o siaradwyr Cymraeg a oedd yn 10-14 oed yn 2001, sef 42.4% i 12.8% erbyn iddynt gyrraedd 20-24 oed yn 2011. Yr unig esboniad posibl yw bod rhieni, ar sail y ffaith bod eu plant yn cael cryn dipyn o Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol gynradd, yn eu cofnodi fel siaradwyr Cymraeg. Wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd mae'r sgiliau hyn yn y rhan fwyaf o achosion yn cael eu colli gan fod cyn lleied o Gymraeg ail iaith yn cael ei ddysgu yn y sector uwchradd.

26. Fel y mae'r graff isod yn dangos, mae gostyngiad sylweddol yn digwydd yng nghanran siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran 16+ bob degawd. Mae'r ffaith bod dylanwad y gyfundrefn addysg yn dod i ben unwaith y mae disgybl yn gadael yr ysgol ynghyd â'r diffyg cyfleoedd yn y gymuned ac yn y gweithle i ddefnyddio'r Gymraeg, yn gyfrifol am erydu sgiliau a hyder ieithyddol pobl ifanc.



27. Er nad yw'r sefyllfa wedi gwella ers 2001 mae'n amlwg ddigon wrth edrych ar linellau'r graff mai'r un patrwm o ddirywiad a welir o un Cyfrifiad i'r llall.

28. Mae'n ddiddorol nodi bod canrannau'r grwpiau oedran 70+ wedi dirywio dros y ddegawd ddiwethaf sy'n awgrymu bod yr hen do o siaradwyr Cymraeg yn araf ddiflannu.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Man Geni

29. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae poblogaeth Sir y Fflint wedi codi o 148,629 yn 2001 i 152,506 yn 2011, sef cynnydd o 3,877.

30. Mae hanner y boblogaeth (50.0%) wedi eu geni y tu allan i Gymru, bron y cyfan ohonynt, wedi symud o Loegr. Sir y Fflint yw'r sir fwyaf poblog yn y gogledd a'r sir sydd â'r gyfran isaf o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru.

31. Mae'r canrannau uchaf o'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru'n byw yn agos at y ffin â Lloegr yn ardal Glannau Dyfrdwy (57% ar gyfartaledd). Fodd bynnag, mae'r dosbarthiad yn fwy cytbwys ar draws y sir nag yn un o'r siroedd eraill yn y gogledd ddwyrain. Er enghraifft, mae 40% o drigolion ardal Yr Wyddgrug a 46% i'r gorllewin o'r Wyddgrug a Threffynnon wedi eu geni yn Lloegr.

32. Mae ardaloedd gorllewinol y sir yn fwy Cymreig na'r rhai yn y dwyrain – o safbwynt y niferoedd sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sydd wedi eu geni yng Nghymru. Mae ychydig dros 5000 o'r 19,343 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y pentrefi gorllewinol - dros 2,000 yn yr Wyddgrug a chyfanswm o bron i 3,000 rhwng Treffynnon a'r Fflint. Mae'r 9,000 arall wedi eu gwasgaru drwy weddill y sir.

33. Dengys y tabl isod bod y rhai a anwyd yng Nghymru lawer mwy tebygol o fod wedi dysgu Cymraeg na'r rhai a aned yn Lloegr – 50.8% o'i gymharu â 24%.

	Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed	Canran y boblogaeth a aned yng Nghymru	Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	Nifer a aned y tu allan i Gymru	Nifer a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg	Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg
Sir y Fflint	146,940	49.5%	18.8%	74,250	5,703	7.7%

34. Mae'r ganran yn Sir y Fflint sydd wedi eu geni yn Lloegr ac sydd yn siarad Cymraeg yn debyg iawn i ganrannau Sir Conwy a Sir Ddinbych, 7.9% ac 8.0% fel ei gilydd, ond yn uwch na'r ganran gyffelyb yn Sir Wrecsam, sef 5.3%. Disgyblion ysgol fyddai'r rhan helaethaf o'r niferoedd sydd wedi dysgu Cymraeg ers iddynt symud i Gymru i fyw.

35. Mae'r siart isod yn dangos bod 13,640 o'r bobl gafodd eu geni yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, sef 18.8% o boblogaeth y sir.

36. Dengys y siart isod mai 7.7% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg, sef 5,703 o drigolion Sir y Fflint.



Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref

37. Mae arbenigwyr iaith ar draws y byd yn pwysleisio mai diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref a diffyg defnydd o'r iaith o fewn y teulu yw un o'r ffactorau sy'n bennaf gyfrifol am ddirywiad iaith, ac yn hynny o beth nid yw'r Gymraeg yn eithriad. Mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw* a nifer o brosiectau sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd teuluoedd mewn cynllunio ieithyddol.

38. Dengys y tabl isod bod nifer y plant sy'n medru'r iaith yn Sir y Fflint mewn cartrefi cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg wedi codi o 44 i 52 ers 2001. Mewn cartrefi rhiant unigol sy'n siarad Cymraeg mae'r nifer wedi aros yr un fath.

Sir y Fflint: Nifer o blant Cymraeg 3 i 4 oed



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg
2011	52	15	142	302
2001	44	15	100	210

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

39. Ceir y newid mwyaf calonogol fodd bynnag yn y cynnydd mewn trosglwyddiad iaith mewn cartrefi cwpl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg, sydd wedi codi o 100 yn 2001 i 142 yn 2011. Mae'r cynnydd mewn cartrefi heb un oedolyn yn medru'r iaith hefyd yn arwyddocaol iawn – gydag bron i 100 yn fwy o blant wedi caffael yr iaith dros y ddegawd ddiwethaf.

40. Mae'r graff isod yn dangos bod lefelau trosglwyddiad iaith ar gyfartaledd ym mhob cartref wedi codi o 10.3% i 14.6% ers 2001. Y cynnydd mwyaf o ran canran yw'r hyn a welwyd mewn cartrefi cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg (+4.1%) a chartrefi heb oedolyn Cymraeg (+3.9%). Er bod cynnydd o 5.3% mewn cartrefi un rhiant yn siarad Cymraeg, mae'r nifer, sef 15, yn rhy fach i'w ystyried yn ffactor allweddol.



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg	Pob cartref
2011	59.1	25.0	28.7	10.6	14.6
2001	55.0	19.7	26.0	6.7	10.3

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Proffil o Alwedigaethau Siaradwyr Cymraeg Sir y Fflint

41. Mae'r graff isod yn dangos mai'r sectorau sy'n denu'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg o ran nifer a chanran yw – galwedigaethau proffesiynol (14.8%), galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill (13.8%) a galwedigaethau proffesiynol a thechnegol gyswllt (10.6%).

42. Mae'r sefyllfa o ran cael presenoldeb siaradwyr Cymraeg ymhlith rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion yn fwy hafal yn Sir y Fflint na siroedd Conwy a Dinbych. Mae dylanwad rheolwyr ac uwch swyddogion di-Gymraeg yn gallu bod yn un negyddol ar bolisïau recriwtio gan eu bod yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol mewn swyddi blaenorol a'u profiad cynt o ran defnyddio'r Saesneg fel iaith weinyddu a chyfathrebu. Mae hyn yn ategu dadl gref gan Delyth Morris a Glyn Williams (*Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*), sydd wedi dangos fod tuedd gyson yn hanesyddol i siaradwyr Cymraeg gael eu diystyru ar gyfer swyddi

rheoli, a bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl ddi-Gymraeg yn meddiannu swyddi rheolwyr ar draws Cymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

43. Mae'n ddiddorol nodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y sector gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid yn yr hanner uchaf o'r holl sectorau a restrir yn y graff isod. Mae hwn yn faes wrth gwrs lle dylai fod pwyslais mawr ar gyfathrebu a rhoi dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Sir y Fflint

Nifer a % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl galwedigaeth. Pobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2612.

Addysg

Addysg Feithrin

44. Mudiad Meithrin sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir y Fflint. Mae gan y mudiad 9 Cylch Meithrin/Meithrin Mwy a 10 Cylch Ti a Fi ar draws y sir. Yn ogystal, bwriedir cychwyn cylch Ti a Fi newydd yn Aston/Shotton yn y dyfodol agos.

Cylchoedd Ti a Fi

Mornant, Picton

Treffynnon

Y Fflint

Helygain

Maesglas

Garden City, Sealand,

Bwcle

Treuddyn

Cylch Capel Bethesda, Yr Wyddgrug

Cylch Parkfields, Yr Wyddgrug

Shotton (i agor ym mis Medi, 2014)

Cylchoedd Meithrin/Meithrin Mwy:

Mornant, Pictwn

Gwenffrwd, Treffynnon*

Treffynnon*

Y Fflint*

Aston/Shotton

Treuddyn

Yr Wyddgrug

Glanrafon, Yr Wyddgrug

Garden City, Sealand*

*Darpariaeth Dechrau'n Deg

45. Ymddengys yn ôl y rhestr uchod bod dosbarthiad y cylchoedd Ti a Fi a'r cylchoedd meithrin wedi eu lleoli yn y trefi a'r pentrefi mwyaf poblog ar draws y sir neu o fewn cyrraedd hwylus iddynt.

Addysg Gynradd

46. Ar hyn o bryd mae gan Sir y Fflint 5 ysgol gynradd Gymraeg a 63 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Mae gan y sir un ysgol uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Maes Garmon.

Ysgolion Cynradd Cymraeg

Ysgol Gynradd Croes Atti, Y Fflint

Ysgol Gynradd Gymraeg Glanrafon, Yr Wyddgrug

Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon

Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr Picton

Ysgol Gynradd Terrig, Treuddyn

47. Bwriedir agor ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Shotton ar Lannau Dyfrdwy ym mis Medi 2014. Am y blynyddoedd cyntaf bydd yr ysgol, a fydd yn dechrau gyda dosbarthiadau meithrin a derbyn, yn dod o dan ofalaeth Pennaeth a llywodraethwyr Ysgol Croes Atti, Y Fflint. Y bwriad, wrth i'r ysgol dyfu, fydd penodi pennaeth, llywodraethwyr a threfn weinyddu annibynnol.

48. Yn ôl ffigurau diweddaraf Adran Addysg Sir y Fflint, 6.9% o blant saith oed sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyd o bryd. Ar sail asesiadau athrawon, barnwyd bod 95 o ddisgyblion yn siarad Cymraeg iaith gyntaf yn 2011 a 113 o ddisgyblion yn 2012. Nod y Cyngor Sir yw cynyddu hyn gan 2% bob blwyddyn.

49. Mae pob disgybl mewn ysgol gynradd Gymraeg yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Yn 2012, trosglwyddodd 81 o ddisgyblion allan o garfan o 87 o ysgolion cynradd Gymraeg i Ysgol Maes Garmon neu Ysgol Glan Clwyd. Mae hyn yn cyfateb i 93% o'r garfan. 92% o ddisgyblion drosglwyddodd i addysg uwchradd Gymraeg yn 2011 a 98% yn 2010.

50. Rhwng 77 a 100 o ddisgyblion sydd wedi gadael ysgolion cynradd Cymraeg pob blwyddyn dros y pedair blynedd ddiwethaf i ysgol uwchradd . A bwrw bod 100 ar y mwyaf yn gadael pob blwyddyn mae hynny'n golygu rhyw 400 o ddisgyblion mewn pedair blynedd. Yn syfrdanol fodd bynnag, mae data Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 3,500 o bobl ifanc 10-14 oed yn siarad Cymraeg yn Sir y Fflint.

51. Mae data Cyfrifiad 2011 yn gamarweiniol o ran mesur gwir nifer a chanran plant 4-16 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn Sir y Fflint. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 38.9% o bobl ifanc 10-14 oed yn siarad Cymraeg ac eto dim ond 6% yn y flwyddyn honno gafodd eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, sef 14 oed. Mae'n amlwg ddigon bod rhieni (di-Gymraeg yn bennaf) wedi camliwio'n ddybryd allu ieithyddol eu plant. Mae'r realiti o ran y nifer a'r canran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sir dipyn yn is na'r ffigwr a geir yng Nghyfrifiadau'r degawdau diwethaf.

52. Cynhaliodd y Cyngor Sir yr arolwg diweddaraf o'r galw am addysg Gymraeg yn Ebrill 2009. Roedd yr arolwg yn targedu rhieni oedd â phlant 2 oed ac iau yn y flwyddyn honno. Dywedodd 22% o'r ymatebwyr y byddent yn debygol o anfon eu plant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd ac roedd hyn yn codi i 33% os oedd y ddarpariaeth o fewn 2 filltir o'u cartref.

Addysg Uwchradd Gymraeg

53. Sefydlwyd Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug yn 1961 ac yn y flwyddyn academaidd 2013-14 mae oddeutu 560 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae tua 80% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

54. Mae'r ysgol wedi bod yn gweithredu Cynllun Trochi ers nifer o flynyddoedd bellach sydd yn cynnig cyfle i ddisgyblion sydd wedi cael addysg gynradd cyfrwng Saesneg i drosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg. Ar gyfartaledd mae rhyw 15 o ddisgyblion yn dilyn y cwrs ar ddiwedd Blwyddyn 6 a dechrau Blwyddyn 7 bob blwyddyn.

55. Mae holl ddisgyblion Ysgol Maes Garmon yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ym Mlwyddyn 9. Yn 2012, aseswyd 79 o ddisgyblion yn y Gymraeg, sef 100% o'r garfan.

56. Yn gyffredinol, mae'r holl ddisgyblion a gofrestrodd i gael addysg Gymraeg ar ddiwedd CA3 yn parhau i gael addysg Gymraeg yn CA4. Yn 2012, cafodd 100% o ddisgyblion Ysgol Maes Garmon eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3, CA4 a CA5.

Addysg Uwchradd Saesneg

57. Mae gwybodaeth gan CBAC yn dangos bod dros 75% o ddisgyblion Sir y Fflint yn dilyn cyrsiau byr mewn Cymraeg fel ail iaith yn hytrach na'r cwrs llawn. Mae arolygon Estyn yn dangos mai dim ond nifer fechan iawn o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr mewn Cymraeg fel ail iaith sy'n gwneud cynnydd da tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Er bod canran y disgyblion ar draws Cymru sy'n cael graddau A* - C ar y cwrs byr wedi cynyddu rhywfaint o 47% yn 2006 i 49% yn 2012, mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n wael â'r nifer gafodd raddau A* - C ar y cwrs llawn, sef 69% yn 2006 a 74% yn 2012. Yn ôl Estyn, y prif resymau pam mae disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr yn tangyflawni yw:-

- caiff gormod o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer yr arholiad haen is er y gallant ennill graddau uwch;
- mae'r amser a ddyrennir i addysgu'r cwrs byr yn aml yn llai na'r amser a argymhellir gan CBAC;
- yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr glywed ac ymarfer defnyddio'r iaith y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol;
- mewn gormod o ysgolion, caiff y cwrs byr ei addysgu gan athrawon nad oes ganddynt yr arbenigedd na chwaith ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.

Addysg Bellach: Coleg Cambria

58. Yn dilyn cyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl ar 1 Awst 2013, datblygwyd Cynllun Iaith Gymraeg newydd i'r coleg cyfun newydd, sef Coleg Cambria. Yn ôl y Cynllun Iaith mae Coleg Cambria yn llwyr ymroddedig i hyrwyddo dwyieithrwydd, diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn hynod falch o fod yn sefydliad gwirioneddol Gymreig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

59. Mae'n un o golegau mwyaf y DU, yn cyflogi dros 1,600 o staff gyda dros 7,000 o fyfyrwyr llawn amser ac 20,000 o ddysgwyr rhan-amser, a chysylltiadau rhyngwladol dros bedwar cyfandir.

60. Mae chwe safle i'r coleg, tri yn Wrecsam a'r lleill yng Nghei Connah, Llaneurgain a Llysfasi. Mae'r coleg yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys tri awdurdod lleol gyda phoblogaeth o bron i 400,000 sy'n cynrychioli dros 12% o boblogaeth Cymru.

61. Mae'r coleg yn denu myfyrwyr o dair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sef Morgan Llwyd, Maes Garmon a Glan Clwyd yn ogystal â nifer o ysgolion dwyieithog gan gynnwys Dinas Brân, Brynhyfryd a'r Berwyn.

62. Mae Coleg Cambria yn cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog. Mae maint y cyfrwng addysgu yn amrywio o gwrs i gwrs ond mae cyfran sylweddol o'r cyrsiau canlynol yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:-

- Gofal Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sgiliau Cyflogadwyedd
- Gwallt a Harddwch
- Mecaneg Cerbydau
- Adeiladu
- Amaethyddiaeth
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Cymraeg i Oedolion

63. Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar bob lefel yn siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Mae gan y ganolfan ddarpariaeth eang iawn ym mhob sir sy'n ceisio ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr o safbwynt lefelau, lleoliadau, amserau a dulliau dysgu.

64. Gweler isod y nifer o ddysgwyr a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau ar lefelau gwahanol yn Sir y Fflint yn ystod 2013-14. Yn ôl y disgwyl efallai, mae'r mwyafrif helaeth wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Ar sail y ffigurau hyn, mae'r dilyniant o lefel Mynediad i Canolradd yn eithaf cadarn, ond lleiafrif sy'n parhau i lefelau Uwch a Hyfedredd.

Lefel	Sir y Fflint
Mynediad	101
Sylfaen	297
Canolradd	132
Uwch	51
Hyfedredd	63

65. Gweler yn ôl y map isod leoliad y ddarpariaeth yn Sir y Fflint a'r gwahanol lefelau a gynigir - o gyrsiau lefel Mynediad i gyrsiau lefel Hyfedredd.

Cyrsiau Iaith Sir y Fflint 2012-2013

Mudiadau Iaith/Cymdeithasol

Urdd Gobaith Cymru

66. Mae gan yr Urdd ddarpariaeth dda ar draws Sir y Fflint sydd yn cynnwys clybiau mewn ysgolion, adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd. Mae gan yr Urdd dros 1,200 o aelodau yn y sir.

67. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau wythnosol mewn gwahanol rannau o'r sir, mae'r Urdd yn trefnu Eisteddfodau Cylch ac Eisteddfod Sirol, cystadlaethau chwaraeon, clybiau mewn ysgolion, gweithdai o bob math, tripiau ac ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd.

Darpariaeth yr Urdd yn Sir y Fflint



68. Mae'r Urdd yn cydweithio'n agos iawn gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg y sir i ddarparu gweithgareddau i hybu'r defnydd o'r iaith a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Urdd wedi gweithio gyda 29 o ysgolion cynradd a 9 ysgol uwchradd ar draws y sir, yn eu plith y 5 ysgol gynradd Gymraeg ac wrth gwrs Ysgol Maes Garmon.

69. Mae'r siart isod yn dangos ystod y ddarpariaeth reolaidd sydd ar gael gan yr Urdd yn Sir y Fflint. Nid yw hyn yn cynnwys wrth gwrs y llu o weithgareddau achlysurol a wneir mewn ysgolion.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

70. Mae gan Ffederasiwn Clybiau'r Ffermwyr Ifanc dri chlwb yn Sir y Fflint, sef:

Cilcaen

Treuddyn

Whitffordd/Caerwys

Mae gan bob un o'r clybiau hyn aelodau sy'n siaradwyr Cymraeg ac o ganlyniad maent yn gweithredu'n ddwyieithog.

Merched y Wawr/Clybiau Gwawr

71. Mae gan Ferched y Wawr ddwy gangen yn Sir y Fflint, sef:-

Yr Wyddgrug

Treffynnon

Mae dau Glwb Gwawr hefyd yn weithredol yn y sir, sef clwb Fama (ardal yr Wyddgrug) a Genod Gwenffrewi (Treffynnon).

Menter Iaith Sir y Fflint

72. Sefydlwyd Menter Iaith Sir y Fflint yn 1997 er mwyn ymateb i awydd trigolion lleol i ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol gan gynnwys gweithgareddau cymdeithasol.

73. Erbyn hyn, mae gan y Fenter 6 aelod o staff, sef:

- Prif Swyddog (sy'n gyfrifol am reoli Menter Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor)
- 2 x Swyddog Busnes rhan amser
- 3 x Swyddog Datblygu

74. Mae nod ac amcanion Menter Iaith Sir y Fflint yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

'Mae'r Fenter yn bodoli er mwyn ehangu, hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint'.

Gwneir hyn drwy:

- Normaleiddio defnydd yr iaith drwy sicrhau meysydd a chyfleodd i'w defnyddio;
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith a'i phroffil gweledol a chlywedol;
- Codi hyder y rhai a'i siaradai a chenhadu ymysg y di-Gymraeg;
- Tynnu sylw at gyflwr yr iaith yn y gymuned a cheisio dylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar ei ffyniant;
- Cryfhau sail economaidd yr iaith drwy sicrhau bod swyddi yn cael eu creu yn y sir sydd yn nodi'r gallu i siarad Cymraeg fel sgil hanfodol.

75. Mae gweithgareddau'r Fenter yn cynnwys:

- Darparu cyfleoedd hamdden i blant a phobl ifainc;
- Hybu'r Gymraeg yn y sector busnes;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gwirfoddol;

- Hwyluso gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac addysgiadol i bobl o bob oed;
- Cynyddu'r defnydd o'r iaith a chodi hyder siaradwyr Cymraeg;
- Darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol;
- Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i godi proffil yr iaith a'r Fenter fel corff cynllunio ieithyddol;
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni newydd a darpar rieni o bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref;
- Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg;
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth ac adnoddau;
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus ar gynlluniau strategol sy'n effeithio ar gyflwr yr iaith;
- Cyfrannu i strategaethau adfywio cymunedol ac economaidd.

76. Mae Rheolwr Menter Iaith Sir y Fflint hefyd yn rheoli Menter Iaith Maelor er bod gan y ddwy Fenter Bwyllgorau Rheoli annibynnol. Dyma'r unig drefniant yng Nghymru lle mae un rheolwr yn rheoli mwy nag un Menter Iaith. Mae'r cytundeb hwn hefyd yn galluogi'r ddwy fenter i rannu llawer o gostau gweinyddol a chynnal.

77. Mae'r Fenter yn rheoli'r Prosiect Iaith Cydweithredol a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) ar ran Mentrau Iaith Maelor, Dinbych a Chonwy a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru. Mae'r prosiect yn darparu gweithgareddau i blant ac oedolion mewn pedwar maes penodol, sef:-

- Y Cyfryngau a Ffilm
- Gweithgareddau Awyr Agored
- Ymwybyddiaeth Iaith a Threftadaeth
- Cefnogi Dysgwyr yr Iaith

78. Mae Menter Iaith Sir y Fflint hefyd yn weithgar iawn gyda'r dathliadau dwyieithog canlynol:

- Dathliadau'r Hen Galan - Twmpath (bob mis Ionawr)
- Dathliadau Santes Dwynwen (bob mis Ionawr)
- Wythnos Iaith ar Daith Fflint a Wrecsam (bob mis Ebrill - Mai)
- Gŵyl y Cadi Ha (bob mis Mai)
- Gŵyl Treuddyn (bob Gorffennaf)
- Gŵyl Y Ffin (bob yn ail flwyddyn)
- Gŵyl Tegeingl (bob yn ail Awst)
- Sioe Dinbych a Fflint (Awst)
- Sioe Caerwys (bob Gorffennaf)
- Gŵyl Bryn y Beili (bob Gorffennaf)
- Gŵyl Fwyd a Diod Yr Wyddgrug (bob Medi)
- Gŵyl Cilcain (Gŵyl Fama gynt - bob Hydref)
- Gŵyl Daniel Owen Festival (bob Hydref)
- Eisteddfod Treuddyn (bob Tachwedd)
- Dathliadau Calan Gaeaf - Twmpath (bob mis Tachwedd)
- Taith y Fari Lwyd (bob mis Rhagfyr)

79. Cafodd adolygiad ei gynnal yn ddiweddar o'r Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Aman Tawe gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm. Cafodd adroddiad ar yr adolygiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Cyfeirir at brif argymhellion yr adroddiad yn *Atodiad A*.

TWF

80. Nid oes swyddog TWF yn Sir y Fflint.

Papurau Bro

81. Ceir dau Bapur Bro yn Sir y Fflint, sef:

Papur Fama – yn gwasanaethu ardal Yr Wyddgrug a'r cylch

Y Glannau – Papur Bro Glannau Clwyd ac ardal Treffynnon

Mae cylchrediad y ddau bapur o gwmpas 500-600.

Cymdeithasau Cymraeg Eraill

82. Mae gan Sir y Fflint draddodiad hir o gynnal cymdeithasau a mudiadau Cymraeg sydd wedi cyfrannu'n helaeth i Gymreictod yr ardal. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng mae'r bwrlwm cymdeithasol yn parhau. Nodir isod yr ystod eang o gymdeithasau Cymraeg sy'n weithgar ar draws y sir yn hybu Cymreictod ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog:

- Cymdeithas Wil Bryan, yr Wyddgrug
- Cymdeithas Hafan Deg, Treuddyn (dwyieithog)
- Cymdeithas Trelawnyd
- Cymdeithas Thomas Pennant
- Dawnswyr Delyn, Yr Wyddgrug
- Cymdeithas Cymraeg Yr Wyddgrug a'r Cylch
- Cymdeithas Edward Llwyd
- Cylch Darllen Cymraeg
- Clwb Scrabble Cymraeg

Côrau Cymraeg:

- Parti'r Pentan
- Côr Glan Alun
- Côr Meibion Trelawnyd
- Côr y Dref (dwyieithog)
- Côr Meibion Caerwys

Cymdeithasau Cymraeg ynghlwm â chapeli:

- Cwch Gwenyn, Capel Bethesda, Yr Wyddgrug
- Cymdeithas y Prynhawn, Capel Bethesda, Yr Wyddgrug
- Cymdeithas Carmel a Seion, Capel Carmel, Treffynnon
- Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Berthen, Licswm
- Cymdeithas Ddiwylliadol Capel Soar, Nercwys
- Cymdeithas Cymraeg Capel Ebeneser, Treuddyn

Eisteddfodau Lleol:

- Eisteddfod Treuddyn (bob mis Tachwedd)
- Eisteddfod y Dysgwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (bob trydedd flwyddyn – rhwng siroedd Dinbych, Fflint a Wrecsam)

Fforwm Iaith Sir y Fflint a Wrecsam

83. Mae'r Fforwm Iaith yn gweithredu ar draws siroedd y Fflint a Wrecsam ac yn cynnwys aelodau o fudiadau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddwy sir. Mae aelodaeth bresennol y Fforwm yn cynnwys y canlynol:-

- Menter Iaith Sir y Fflint
- Menter Iaith Maelor
- Mentrau Iaith Cymru
- Yr Urdd
- Merched y Wawr
- Clybiau Gwawr
- Mudiad Meithrin
- TWF (Wrecsam)
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Cynllun Iaith Cydweithredol
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint

- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Glyndŵr
- Coleg Cambria
- Coleg Harlech
- Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Adran Addysg, Cyngor Sir y Fflint
- Athrawon Bro, Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Wrecsam
- Athrawon Bro, Sir Wrecsam
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd Wrecsam
- Llywodraeth Cymru

84. Mae prif swyddog Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor yn awyddus iawn i ail-ddiffinio pwrpas y Fforwm Iaith fel ei fod yn gweithredu mwy fel grŵp cynllunio strategol yn y dyfodol a llai o 'siop siarad'. Mae'r amheuon am werth y Fforymau Iaith ar eu ffurf bresennol yn cael eu cadarnhau yn yr adolygiad diweddar a wnaed gan Brifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm o'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith. Fel y nodir yn yr adroddiad - 'Mae'r Fforymau Iaith Sirol (fforymau trafod sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau lleol perthnasol) yn cael eu hystyried gan lawer yn endidau heb fod iddynt werth sylweddol, dylanwad strategol nac effaith lluosi…….Er bod gwerth iddynt o ran dod i adnabod gwahanol sefydliadau ac unigolion a chlywed drwy adroddiadau beth sydd wedi digwydd, ni welir pwrpas iddynt o ran gweithredu fel cyrff cynllunio strategol.'

Y Sector Cyhoeddus

85. Mae gan Gyngor Sir y Fflint Gynllun Iaith yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993). Er nad oes copi o'r Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor mae Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith yn datgan mai nod y Cynllun yw:-

'....cefnogi amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 'Iaith Fyw - Iaith Byw', a gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint ....er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ei gwneud yn fwy gweladwy a chynyddu'r defnydd a wneir ohoni mewn sefyllfaoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn Sir y Fflint. Bydd Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg yn Sir y Fflint yn adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol, blaenoriaethau a chapasiti'r Cyngor.'

86. Nid oes gan Gyngor Sir y Fflint swyddog sydd â chyfrifoldeb penodol am yr iaith Gymraeg, yn wahanol i'r tair sir arall yng ngogledd ddwyrain Cymru. Fodd bynnag mae'r Cyngor drwy ei gynllun 'Y Gymraeg mewn Addysg' yn ymrwymedig i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf.

87. Mae gan Gyngor Sir y Fflint tua 7,135 o staff llawn-amser. Mewn arolwg diweddar o sgiliau iaith y gweithlu rhyw 5% o blith y rhai a gwblhaodd yr hunanasesiad a nododd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'r ffigwr hwn dipyn yn is na chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn Sir y Fflint, sef 13.2%. Nododd 62% o'r staff bod ganddynt 'rhywfaint o Gymraeg'.

88. Cyn diwedd y flwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad i safonau iaith y Cyngor yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynghorau Tref a Chymuned

89. Anfonwyd holiadur syml i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint i holi am iaith cyfarfodydd, iaith gohebiaeth, agenda a chofnodion cyfarfodydd a'r defnydd o offer cyfieithu. Cafwyd ymateb gan 11 o'r 35 Cyngor, sef 31%.

90. O'r sawl a ymatebodd i'r holiadur, dau gyngor sydd yn cyhoeddi'r agenda a'r cofnodion yn ddwyieithog ynghyd ag anfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol allan yn y ddwy iaith. Nid oedd un cyngor yn defnyddio offer cyfieithu ar-y-pryd ond nododd

7 y byddent yn barod i ystyried defnyddio'r gwasanaeth pe bai am ddim. Roedd y gweddill yn cynnal eu cyfarfodydd a'u gweinyddiaeth yn Saesneg.

Y Sector Wirfoddol yn Sir y Fflint

91. Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint 16 o staff – 4 llawn amser a 12 rhan-amser. O blith y staff mae 3 yn siaradwyr Cymraeg a 2 yn ddysgwyr yr iaith. Mae ganddynt tua 10 o wirfoddolwyr sydd yn cynnwys 2 siaradwr Cymraeg. Mae'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yn cael ei reoli gan 10 o ymddiriedolwyr, ac yn eu plith mae 2 sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae dros 450 o fudiadau gwirfoddol ar draws y sir yn aelodau cysylltiol.

92. Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint bolisi iaith sy'n golygu bod yr arwyddion yn y pencadlys yn Yr Wyddgrug yn ddwyieithog ac mae posteri a nifer o gyhoeddiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Nid oes ganddynt gyfieithydd yn aelod o'r staff, felly mae'r gwaith o gyfieithu dogfennau ac ati'n cael ei wneud gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir Conwy.

93. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint yn awyddus i gryfhau ei bolisi iaith ac i sicrhau yn y dyfodol bod staff y Dderbynfa a'r sawl sy'n ateb y brif linell ffôn yn siaradwyr Cymraeg. Maent yn cydweithio'n agos gyda Menter Iaith Sir y Fflint ar hyn o bryd i gynyddu'r nifer o wirfoddolwyr dwyieithog ac i baratoi ar gyfer ymweliad Eisteddfod yr Urdd â'r sir yn 2016.



Sir Wrecsam

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Sir Wrecsam

Cefndir Economaidd a Chymdeithasol

1. Prif ganolbwynt masnachol, diwydiannol a chymdeithasol y sir yw tref Wrecsam. Lleolir y dref ychydig filltiroedd o'r ffin â Lloegr ac mae'n ganolfan naturiol i Ogledd Cymru. Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae gan Wrecsam boblogaeth o 134,844. Roedd 69.2% ohonynt wedi eu geni yng Nghymru.

12. Mae economi Wrecsam wedi ei drawsffurfio yn yr ugain mlynedd diwethaf o un oedd yn cael ei ddominyddu gan ddiwydiant trwm a thraddodiadol i fod yn brif ganolbwynt gweithgynhyrchu, technoleg a gwasanaethau gyda chwmnïau fel Kellogs, JCB, Moneypenny a Tritech wedi eu lleoli yno.

13. Parc Diwydiannol Wrecsam yw'r ail fwyaf yn y DU a gyda'r mwyaf yn Ewrop. Mae rhai o brif gwmnïau gweithgynhyrchu'r byd wedi eu lleoli yno.

14. Mae'r sir yn amrywio'n fawr o ran ei llewyrch economaidd gyda rhai wardiau ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru a wardiau eraill ymhlith y 10% lleiaf difreintiedig.

15. Mae lefelau diweithdra yn Sir Wrecsam, sef 3.9%, ychydig bach yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru, sef 4.0%, ond mae diweithdra ymhlith yr ifanc yn cynyddu, ac yn sefyll ar 9.4% ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr hwn gyda'r uchaf yng Ngogledd Cymru.

16. Mae mwyafrif y gweithlu yn gweithio yn y sectorau Gweithgynhyrchu (18.3%), Cyfanwerthu a Manwerthu (15.2%), Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (14.6%), Addysg (8.9%) ac Adeiladu (6.9%).

17. Nid oes gan 26.7% o'r boblogaeth oed gweithio gymwysterau. Mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Gogledd Cymru, sef 24.7%.

Yr Iaith Gymraeg yn Sir Wrecsam

18. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 16,659 o bobl Sir Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 12.9% o'r boblogaeth. Cyfanswm y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 18,102, sef 14.6% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeng mlynedd mae gostyngiad wedi bod o 1,443 mewn nifer a 1.7% fel canran o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

19. Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos mai yn adrannau etholiadol Dyffryn Ceiriog (31.2%), Ponciau (28.2%) a Pant (26.6%) y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

20. Y wardiau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Wynnstay (7.7%), Cartrefle (8.3%), Smithfield (8.3%), Rossett (8.5%) ac Owrtyn (8.5%). Dengys y map isod ddosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir Wrecsam yn ôl canrannau.

Wrecsam
Tabl: Sgiliau yn y Gymraeg
(Gallu siarad Cymraeg)



Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

21. Gwelir bod yr adrannau mwyaf Seisnigaidd ar y ffin â Lloegr ac mewn rhannau o dref Wrecsam a'r cyffiniau.

22. Yr adran etholiadol gyda'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Ponciau (sy'n cynnwys pentref Rhosllannerchrugog) gyda 1,298. Yr ail uchaf yw ward Coedpoeth gydag 825 o siaradwyr Cymraeg a'r trydydd uchaf yw Dyffryn Ceiriog gyda 661.

23. Mae'r tabl isod yn dangos yr adrannau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf a'r isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Wrecsam:

Adran Etholiadol	% Siaradwyr Cymraeg 2011
Dyffryn Ceiriog	31.2
Ponciau	28.2
Pant	26.7
Penycae	19.6
Coedpoeth	18.3
Minera	17.7
Queensway	8.6
Owrtyn	8.5
Rossett	8.5
Cartrefle	8.3
Smithfield	8.3
Wynnstay	7.7

24. Mae data 2011 yn dangos bod 8 ward etholiadol yn y sir â dros 500 o siaradwyr Cymraeg. Fel y nodwyd uchod, ward Ponciau sydd â'r nifer mwyaf o bell ffordd gyda Choedpoeth yn ail uchaf.

Adran Etholiadol	Nifer Siaradwyr Cymraeg
Ponciau	1,298
Coedpoeth	825
Dyffryn Ceiriog	661
Cefn	550
Tre-Ioan/Johnstown	515
Llay	506
Dwyrain a De Gwersyllt	506

Brymbo	504

25. Rhwng 2001-2011, roedd 10 adran etholiadol yn y sir wedi gweld cynnydd bychan o ran nifer a chanran siaradwyr Cymraeg.

Adran Etholiadol	Cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg	Newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg
Dwyrain a De Gwersyllt	91	+1.2%
Gogledd Gwersyllt	64	+1.6%
Gorllewin Gwersyllt	10	+0.9%
Holt	112	+1.3%
Little Acton	28	+1.5%
Llay	18	+1.5%
Marford a Hosely	1	+0.6%
New Broughton	56	+1.0%
Rosett	23	+0.9%
Whitegate	2	+1.3%

26. At ei gilydd gwelodd 15 adran etholiadol (allan o 47) gynnydd bychan o ran nifer siaradwyr Cymraeg ers 2001 gyda Holt yn gweld y cynnydd mwyaf (+112), gyda Dwyrain a De Gwersyllt (+91) a Gogledd Gwersyllt (+64) ymhlith yr uchaf. Gwelodd pob un o'r tair ward yn ardal Gwersyllt gynnydd o ran niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg rhwng 2001-2011.

27. Cafwyd cynnydd bychan yng nghanran siaradwyr Cymraeg mewn 10 o'r adrannau etholiadol ers 2001, gyda'r cynnydd mwyaf yng Ngogledd Gwersyllt (+1.6%), Little Acton (+1.5%) a Llay (+1.5%).

28. Yn anffodus, gwelwyd y cwymp mwyaf o ran niferoedd a chanrannau yn yr adrannau etholiadol sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol o 12.9%. Er enghraifft,

collwyd 328 o siaradwyr Cymraeg yn ward Ponciau (-9.2%), 117 yn Cefn (-3.1%), 115 yn Pant (-5.4%) ac 108 yn Nyffryn Ceiriog (-3.1%) ers 2001.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran

29. Fel yng ngweddill siroedd y gogledd ddwyrain, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Sir Wrecsam yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 mae dros 26% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 14.6% ar gyfer y grŵp oedran 15-30 ac yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-50 (7.9%). Y grwpiau oedran 30-50 a 50-70 (8.5%) sydd â'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yn yr holl grwpiau oedran.

30. Mae'r grŵp oedran 70+ ychydig yn uwch gyda 12.6% yn medru'r Gymraeg. Nid yn annisgwyl, ceir y canrannau mwyaf yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn mae'n bur debyg yn adlewyrchu dylanwad y gyfundrefn addysg ar sgiliau ieithyddol plant oed ysgol.

Sir Wrecsam

Grŵp Oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb dros 3 oed	14.6	12.9	18,105	16,659
3-4 oed	11.3	15.4	344	526
5-9 oed	30.5	29.5	2,417	2,246
10-14 oed	33.9	33.2	2,822	2,565
15-19 oed	21.2	21.6	1,724	1,737
20-24 oed	11.9	12.0	931	1,012
25-29 oed	9.2	10.3	728	911

30-34 oed	8.5	8.6	813	709
35-39 oed	8.4	7.7	812	680
40-44 oed	9.1	7.6	791	756
45-49 oed	9.0	7.6	774	740
50-54 oed	10.4	7.8	975	671
55-59 oed	11.2	7.8	881	644
60-64 oed	11.6	8.9	751	789
65-69 oed	14.2	9.5	797	675
70-74 oed	15.2	10.6	779	574
75-79 oed	16.9	12.3	747	523
80+ oed	18.7	14.8	1,019	901

31. Fel ym mhob un o siroedd y gogledd ddwyrain, gwelir cynnydd yn nifer a chanran y plant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynnydd o +3.1% yn golygu bod 182 mwy yn siarad Cymraeg yn y grŵp oedran hwn nag oedd yn 2001 (545 o'i gymharu â 332). Unwaith yn rhagor, y tebygrwydd yw bod hyn yn adlewyrchu gwaith y Mudiad Meithrin a TWF sydd yn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn y cartref.

32. Fodd bynnag, nid yw'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran 5-15 mor uchel ac ydoedd yn 2001. Gwelwyd gostyngiad bach yn y ganran dros gyfnod o ddeng mlynedd o 28.5% i 28.1%.

33. Gwelwyd lleihad hefyd yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr un grŵp oedran ers 2001, o 6,963 i 6,548.

34. Fel y profir mewn siroedd eraill, ac fel mae'r graff isod yn ei amlygu, nid yw'r ymchwydd a welir o ran canran a nifer yn yr oed 10-14 yn cael ei ymestyn o ddegawd i ddegawd. Er enghraifft mae'r 33.9% sy'n medru'r Gymraeg yn 10-14 oed yn 2001 wedi

mwy na haneri erbyn 2011, ac wedi syrthio i 12% yn y grŵp oedran 20-24. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad a wnaed o'r siroedd eraill yn y gogledd ddwyrain, mae'n debyg mai'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am y cwymp yw absenoldeb yr ysgol fel dylanwad cadarnhaol a'r diffyg cyfleoedd i bobl ifanc ymarfer eu sgiliau iaith yn y gymuned neu'r gweithle.



35. Sylwer mor debyg yw'r ddwy linell o 2001 i 2011. Mae'r cwymp o ran canrannau yn y grwpiau oedran 10-14, 15-19 a 20-24 bron yn union yr un fath. Oni bod ymyrraeth fwriadus a thargedu pwrpasol yn digwydd, y tebygrwydd yw y bydd llinell 2021 yn dilyn yr un trywydd negyddol.

36. Nodir gyda thristwch y dirywiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 70%, o 16.9% i 12.6%. Mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg 70 oed ac uwch hefyd wedi gostwng o 2,545 i 1,998, sy'n golygu colled o 547 o siaradwyr. Mae'r lleihad yn fwy yn y grŵp oedran 80+ sy'n awgrymu'n gryf fod nifer y siaradwyr Cymraeg cynhenid yn

araf ddiflannu o'r sir. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, y tebygrwydd yw y bydd cynffon y llinell ar gyfer 2021 yn fwy gwastad.

37. Mae'r ffaith mai 9.6% sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 20-40 oed, sydd dipyn yn is na'r cyfartaledd sirol o 12.9%, yn argoeli'n wael ar gyfer y dyfodol. Dyma'r grŵp oedran wrth gwrs fyddai'n debygol o fagu teulu a bod mewn sefyllfa i allu trosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Man Geni

38. Mae poblogaeth Sir Wrecsam wedi codi o 124,024 yn 2001 i 129,425 yn 2011, sef cynnydd o 5,401.

39. Mae Wrecsam yn sir ddiwydiannol boblog, lle mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn isel, ond lle mae'r gyfran a aned yng Nghymru'n weddol uchel. Mae 68% o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, sydd yn uwch nag unrhyw sir arall yn y gogledd.

40. Nid yw man geni trigolion Sir Wrecsam yn amrywio'n fawr iawn ac eithrio'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd yn agos i'r ffin â Lloegr, er enghraifft adrannau etholiadol Maelor a Rossett. Mae cymaint ag 81% wedi eu geni yn adrannau etholiadol Pant a Phonciau (sy'n cynnwys pentref Rhosllannerchrugog) a 70% yn nhref Wrecsam a'r cyffiniau. Mae'r gyfran ychydig yn llai mewn ardaloedd gwledig fel Dyffryn Ceiriog a'r Waun, sef 61%.

41. Nid oes cyfatebiaeth amlwg yn Sir Wrecsam rhwng man geni a'r gallu i siarad Cymraeg, fel y gwelir yn siroedd Conwy, Dinbych a Sir y Fflint. Mae'n amlwg bod tranc yr iaith yn ymdebygu i'r hyn a ddigwyddodd i gymoedd diwydiannol y de-ddwyrain, a bod y dirywiad yn cael ei achosi gan ddylanwadau mewnol yn hytrach na ffactorau allanol fel symudoledd poblogaeth.

42. Dengys y tabl isod bod y gyfran a aned yn Lloegr sydd yn siarad Cymraeg yn gymharol isel, sef 5.3% .

	Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed	Canran y boblogaeth a aned yng Nghymru	Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg	Nifer a aned y tu allan i Gymru	Nifer a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg	Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg
Sir Wrecsam	129,425	68%	16.4%	41,109	2,160	5.3%

43. Mae'r gyfran yn Sir Wrecsam sydd wedi eu geni yn Lloegr ac sydd yn siarad Cymraeg yn is na chanrannau Sir Conwy (7.9%), Sir Ddinbych (8.0%) a Sir y Fflint (7.7%). Mae'n bur debyg mai disgyblion ysgol fyddai'r rhan helaethaf o'r niferoedd sydd wedi dysgu Cymraeg ers iddynt ddod i Gymru i fyw.

44. Mae'r siart isod yn dangos bod 14,499 o'r bobl gafodd eu geni yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, sef 16.4% o boblogaeth y sir.



45. Mae'r siart isod yn nodi mai 5.3% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg, sef 2,160 o drigolion Sir Wrecsam.



Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref

46. Mewn sir gyda phoblogaeth gweddol sefydlog, nad yw wedi cael ei heffeithio'n arw gan fewnlifiad o bobl a aned y tu allan i Gymru, mae'n deg dod i'r casgliad mai un o'r ffactorau sy'n bennaf gyfrifol am ddirywiad yr iaith yn yr ardal arbennig hon o Gymru yw diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref. Mewn sir â hanes diwydiannol cyfoethog ag iddi ar un adeg gymunedau Cymraeg traddodiadol gellid yn hawdd dod i'r casgliad mai diffyg statws yr iaith dros genedlaethau a'r meddylfryd bod y Saesneg yn iaith bwysicach o ran gwerth economaidd sydd wrth wraidd yr enciliad ieithyddol diweddar.

47. Dengys y tabl isod bod nifer y plant sy'n medru'r iaith yn Sir Wrecsam mewn cartrefi cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 59 i 48 ers 2001 – mae hynny mae'n debyg oherwydd ffactorau demograffaidd gan fod cyfran y trosglwyddo'n uwch fel y nodir isod. Mewn cartrefi rhiant unigol sy'n siarad Cymraeg mae'r nifer wedi cynyddu 0 13 i 38.

Wrecsam: Nifer o blant Cymraeg 3 i 4 oed



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg
2011	48	38	141	264
2001	59	13	75	188

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

48. Y ffaith fwyaf calonogol fodd bynnag yw bod nifer y plant sy'n gallu siarad Cymraeg mewn cartrefi cwpl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg wedi codi o 75 yn 2001 i 141 yn 2011 a bod y nifer mewn cartrefi heb un oedolyn yn siarad Cymraeg wedi codi o 188 i 264.

49. Mae'r graff isod yn dangos bod y cyfraddau trosglwyddo ym mhob cartref wedi codi o 11.3% i 15.6% mewn degawd.



	Cartref cwpl - 2 oedolyn Cymraeg	Cartref rhiant unigol, oedolyn Cymraeg	Cartref cwpl - 1 oedolyn Cymraeg	Cartrefi heb oedolyn Cymraeg	Pob cartref
2011	80.0	43.7	40.4	9.9	15.6
2001	69.4	28.3	25.8	7.2	11.3

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

50. Mae'r gyfradd drosglwyddo mewn cartref cwpwl gyda dau oedolyn yn siarad Cymraeg wedi codi o 69.4% i 80%, sydd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 82%.

51. Er bod y cyfraddau trosglwyddo yn uwch na deng mlynedd yn ôl mewn cartrefi cwpwl gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg (o 25.8% i 40.4%) ac mewn cartrefi rhiant unigol

gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg (o 28.3 i 43.7%), mae'r cyfraddau hyn yn dal i fod yn is na'r cyfraddau cenedlaethol o 45% a 53% fel ei gilydd.

52. Mae'r cynnydd i'w groesawu wrth gwrs ac yn adlewyrchiad mae'n debyg o waith diwyd mudiadau fel TWF a'r Mudiad Meithrin sydd wedi bod yn gweithredu cynlluniau blaengar dros nifer o flynyddoedd i geisio annog mwy o ddefnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.

Proffil o Alwedigaethau Siaradwyr Cymraeg Sir Wrecsam

53. Mae'r graff isod yn dangos mai'r sectorau sy'n denu'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg o ran nifer a chanran yw – galwedigaethau proffesiynol (15.4%), galwedigaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill (11.6%) a galwedigaethau proffesiynol a thechnegol gyswllt (10.6%).

54. Mae'n werth nodi mai'r sector trydydd isaf o ran canran siaradwyr Cymraeg yw'r sector sy'n cynnwys rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion. Fel y nodwyd eisoes mae dylanwad rheolwyr ac uwch swyddogion di-Gymraeg yn gallu bod yn un negyddol ar bolisïau recriwtio gan eu bod yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol mewn swyddi blaenorol a'u profiad cynt o ran defnyddio'r Saesneg fel iaith weinyddu a chyfathrebu. Mae hyn yn ategu dadl gref gan Delyth Morris a Glyn Williams (*Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*), sydd wedi dangos fod tuedd gyson yn hanesyddol i siaradwyr Cymraeg gael eu diystyru ar gyfer swyddi rheoli, a bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl ddi-Gymraeg yn meddiannu swyddi rheolwyr ar draws Cymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg.

55. Mae'n ddiddorol nodi bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y sector gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid (10.2%) yn yr hanner uchaf o'r holl sectorau a restrir yn y graff isod. Mae hwn yn faes wrth gwrs lle dylai fod pwyslais mawr ar gyfathrebu a rhoi dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Wrecsam

Nifer a % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl galwedigaeth. Pobl 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2612.

Addysg

Addysg Feithrin

56. Mudiad Meithrin sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Wrecsam. Mae gan y mudiad 9 Cylch Meithrin/Meithrin Mwy a 12 Cylch Ti a Fi ar draws y sir.

Cylchoedd Ti a Fi

Glyn Ceiriog
Maes y Gornel, Rhos
Min y Ddôl
Brynteg
Pencae
Llay
Summerhill
Hightown
Gwersyllt
Brymbo
Coedpoeth
Saith Seren, Wrecsam

Cylchoedd Meithrin/Meithrin Mwy

Glyn Ceiriog
Min y Ddôl*
Pant, Rhos*
ID Hooson, Rhos
Maes y Gornel, Rhos
Hillstreet, Wrecsam

Coedpoeth

Bro Alun*

Summerhill

*(Darpariaeth Cynllun 'Dechrau'n Deg')

57. Fel y gwelir yn ôl y rhestr uchod mae gan y Mudiad Meithrin ddarpariaeth eang o gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd Meithrin/Meithrin Mwy ar draws y sir.

Addysg Gynradd

58. Mae gan Sir Wrecsam 7 ysgol gynradd Gymraeg ac un ysgol ddwy ffrwd yn Nyffryn Ceiriog. Mae gan y sir 52 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Ysgolion Cymraeg

Cefn Mawr (Ysgol Min y Ddôl)

Coedpoeth (Ysgol Bryn Tabor)

Rhos (Ysgol I.D Hooson)

Wrecsam (Ysgol Bodhyfryd)

Wrecsam (Ysgol Plascoch)

Wrecsam (Ysgol Bro Alun)

Llanarmon Dyffryn Ceiriog (Ysgol Llanarmon)

Ysgol Ddwy Ffrwd

Ysgol Cynddelw, Dyffryn Ceiriog

59. Mae'r cyfraddau trosglwyddo o'r ysgolion cynradd Cymraeg i Ysgol Morgan Llwyd bron yn 100% pob blwyddyn.

Addysg Uwchradd

60. Mae gan y sir un ysgol uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Morgan Llwyd sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 11-18 oed yn y sir. Mae gan yr ysgol dros 800 o ddisgyblion ar hyn o bryd, ond mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd y nifer hwn yn codi i ryw 1200 dros y deng mlynedd nesaf wrth i'r galw am addysg Gymraeg gynyddu. Mae'r awdurdod addysg eisoes yn rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd y bydd angen ail ysgol uwchradd Gymraeg yn y dyfodol agos.

61. Mae Ysgol Morgan Llwyd wedi bod yn gweithredu cynllun trochi ers nifer o flynyddoedd sy'n caniatáu i ddisgyblion drosglwyddo o'r sector cyfrwng Saesneg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) i'r sector cyfrwng Cymraeg. Mae 15 disgybl ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf wedi manteisio ar y cynllun hwn ac wedi caffael yr iaith i'r graddau fel eu bod bellach yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer TGAU a lefel 'A'.

62. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 33.2% o bobl ifanc 10-14 oed Sir Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, realiti'r sefyllfa yw mai ond 8.9% gafodd eu hasesu mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae'r gwahaniaeth rhwng data'r Cyfrifiad a data'r Adran Addysg yn 24%. Mae'n amlwg bod rhieni (di-Gymraeg yn bennaf) yn camliwio gallu ieithyddol eu plant, sy'n golygu bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn gamarweiniol iawn. Mae'n debyg bod sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Wrecsam, fel yng ngweddill siroedd y Gogledd Ddwyrain, dipyn gwaeth na'r hyn sy'n ymddangos yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad bob degawd.

Addysg Bellach: Coleg Cambria

63. Yn dilyn cyfuno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl ar 1 Awst 2013, datblygwyd Cynllun Iaith Gymraeg newydd i'r coleg cyfun newydd, sef Coleg Cambria. Yn ôl y Cynllun Iaith mae Coleg Cambria yn llwyr ymroddedig i hyrwyddo dwyieithrwydd, diwylliant a threftadaeth Cymru ac yn hynod falch o fod yn sefydliad gwirioneddol Gymreig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

64. Mae'n un o golegau mwyaf y DU, yn cyflogi dros 1,600 o staff gyda dros 7,000 o fyfyrwyr llawn amser ac 20,000 o ddysgwyr rhan-amser, a chysylltiadau rhyngwladol dros bedwar cyfandir.

65. Mae chwe safle i'r coleg, tri yn Wrecsam a'r lleill yng Nghei Connah, Llaneurgain a Llysfasi. Mae'r coleg yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys tri awdurdod lleol gyda phoblogaeth o bron i 400,000 sy'n cynrychioli dros 12% o boblogaeth Cymru.

66. Mae'r coleg yn denu myfyrwyr o dair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sef Morgan Llwyd, Maes Garmon a Glan Clwyd yn ogystal â nifer o ysgolion dwyieithog gan gynnwys Dinas Brân, Brynhyfryd a'r Berwyn.

67. Mae Coleg Cambria yn cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog. Mae maint y cyfrwng addysgu yn amrywio o gwrs i gwrs ond mae cyfran sylweddol o'r cyrsiau canlynol yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:-

- Gofal Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sgiliau Cyflogadwyedd
- Gwallt a Harddwch
- Mecaneg Cerbydau
- Adeiladu
- Amaethyddiaeth
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Cymraeg i Oedolion

68. Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ar bob lefel yn siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Mae gan y ganolfan ddarpariaeth eang iawn ym mhob sir sy'n ceisio ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr o safbwynt lefelau, lleoliadau, amserau a dulliau dysgu.

69. Gweler isod y nifer o ddysgwyr a gofrestrodd ar gyfer cyrsiau ar lefelau gwahanol yn Sir Wrecsam yn ystod 2013-14. Fel y gellid disgwyl efallai, mae'r mwyafrif helaeth wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Ar sail y ffigurau hyn, tua thraean o'r dysgwyr sy'n symud o lefel Sylfaen i Canolradd. Mae dilyniant o'r Canolradd i lefelau Uwch a Hyfedredd yn bur isel – llai na 10%.

Lefel	Sir Wrecsam
Mynediad	364
Sylfaen	434
Canolradd	149
Uwch	12
Hyfedredd	7

70. Sefydlwyd Clwb DAW (Dysgwyr Ardal Wrecsam) ym mis Medi 2010 fel Pwyllgor y Dysgwyr oedd â chyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau ym Mhabell y Dysgwyr ar faes Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro ym mis Awst 2011. Penderfynodd y Clwb barhau ar ôl yr Eisteddfod ac erbyn hyn mae rhwng 50-60 o ddysgwyr yn cwrdd yn fisol i fwynhau gweithgareddau o bob math sydd yn gyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog.

71. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cydweithio'n agos gyda chlwb DAW i drefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn Sir Wrecsam. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa anffurfiol. Ymhlith y gweithgareddau a drefnwyd dros y misoedd diwethaf, mae:-

- Teithiau cerdded
- Noson blasu gwin
- Clwb darllen
- Sesiynau Sgwrsio
- Cwisiau
- Helfa Drysor
- Gig gyda Bryn Fôn

72. Gweler yn ôl y map isod leoliad y ddarpariaeth yn Sir Wrecsam a'r gwahanol lefelau a gynigir - o gyrsiau lefel Mynediad i gyrsiau lefel Uwch:

Cyrsiau Iaith Wrecsam 2012-2013



Mudiadau Iaith/Cymdeithasol

Urdd Gobaith Cymru

73. Mae gan yr Urdd ddarpariaeth dda yn Sir Wrecsam sydd yn cynnwys clybiau mewn ysgolion, adrannau, uwch adrannau, aelwydydd, clybiau chwarae a chlybiau perfformio. Mae gan yr Urdd dros 1,850 o aelodau yn rhanbarth Fflint Maelor.

74. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau wythnosol mewn gwahanol rannau o'r sir, mae'r Urdd yn trefnu Eisteddfodau Cylch ac Eisteddfod Sirol, cystadlaethau chwaraeon, gweithgareddau mewn ysgolion, gweithdai o bob math, tripiau ac ymweliadau â gwersylloedd yr Urdd.

Darpariaeth yr Urdd yn Sir Wrecsam

75. Mae'r Urdd yn cydweithio'n agos iawn gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg y sir i ddarparu gweithgareddau i hybu'r defnydd o'r iaith a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Urdd wedi gweithio gyda 20 o ysgolion cynradd ac 8 ysgol uwchradd ar draws y sir, yn eu plith yr ysgolion cynradd Gymraeg ac wrth gwrs Ysgol Morgan Llwyd.

76. Mae'r siart isod yn dangos ystod y ddarpariaeth reolaidd sydd ar gael gan yr Urdd yn Sir Wrecsam. Nid yw hyn yn cynnwys wrth gwrs y llu o weithgareddau achlysurol a gynhelir mewn ysgolion.



77. Mae swyddogion yr Urdd hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda rhai o Ganolfannau Ieuenctid y Cyngor i annog y defnydd o'r Gymraeg ac i gynnig cyfleoedd achredu drwy'r Gymraeg. Y canolfannau y mae'r Urdd wedi bod yn cydweithio gyda hwy yn ddiweddar yw - Clwb Ieuenctid Llanarmon, Clwb Ieuenctid Coedpoeth a Chlwb Ieuenctid y Fic yn Wrecsam.

78. Mae'r Urdd ar y cyd â Menter Iaith Maelor a'r Cyngor Sir yn cyflogi swyddog llawn amser i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc Wrecsam. Mae prosiect CIW (Cymry Ifanc Wrecsam) yn cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc rhwng 11-25 oed. Yn ogystal â Swyddog CIW, mae gan yr Urdd Swyddog Datblygu Sirol llawn amser sy'n gyfrifol am Sir Wrecsam a Sir y Fflint.

Merched y Wawr/Clybiau Gwawr

79. Mae gan Ferched y Wawr ddwy gangen yn Sir Wrecsam, sef:-

Wrecsam
Dyffryn Ceiriog

Mae dau Glwb Gwawr hefyd yn weithredol yn y sir, sef clwb y Bont (ardal Rhiwabon) a Sêr Maelor (Wrecsam) .

Menter Iaith Maelor

80. Sefydlwyd Menter Iaith Maelor yn 1999 er mwyn hybu, hwyluso ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn Sir Wrecsam. Mae'r Fenter yn cyflawni hyn drwy:-

- Ddarparu cyfleoedd i bobl o bob oedran gwrdd â chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg;

- Gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a chyrff cyhoeddus i godi proffil y Gymraeg;
- Cefnogi cyrff cyhoeddus a busnesau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog siaradwyr a dysgwyr yr iaith i'w defnyddio;
- Gweithredu fel canolfan wybodaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cynnal drwy'r Gymraeg.

Mae'r Fenter yn fwy diweddar wedi bod yn ceisio normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd drwy ganolbwyntio ar hybu busnesau, teuluoedd a phobl ifanc i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

81. Mae'r Fenter yn rhannu rheolwr a swyddog busnes gyda Menter Sir y Fflint. Mae'r rheolwr yn gweithio diwrnod a hanner yr wythnos i Fenter Iaith Maelor. Mae Menter Iaith Maelor hefyd yn cyd-ariannu swyddog ieuenctid gyda'r Urdd a'r Cyngor Sir.

82. Erbyn hyn, mae gan y Fenter 4 aelod o staff, sef:
    - Prif Swyddog (sy'n gyfrifol am reoli Menter Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor)
    - 1 Swyddog Busnes (rhan amser)
    - 1 x Swyddog Datblygu (rhan amser)
    - 1 x Swyddog Prosiect Dwyieithrwydd Mewn Busnes

83. Cafodd adolygiad ei gynnal yn ddiweddar o'r Mentrau Iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Phrosiect Aman Tawe gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm. Cafodd adroddiad ar yr adolygiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Cyfeirir at brif argymhellion yr adroddiad hwn yn *Atodiad A*.

Fforwm Iaith Sir y Fflint a Wrecsam

84. Mae'r Fforwm Iaith yn gweithredu ar draws siroedd y Fflint a Wrecsam ac yn cynnwys aelodau o fudiadau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg yn y ddwy sir. Mae aelodaeth bresennol y Fforwm yn cynnwys y canlynol:-

- Menter Iaith Sir y Fflint
- Menter Iaith Maelor
- Mentrau Iaith Cymru
- Yr Urdd
- Merched y Wawr
- Clybiau Gwawr
- Mudiad Meithrin
- TWF (Wrecsam)
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Cynllun Iaith Cydweithredol
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir y Fflint
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Glyndŵr
- Coleg Cambria
- Coleg Harlech
- Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Adran Addysg, Cyngor Sir y Fflint
- Athrawon Bro, Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Wrecsam
- Athrawon Bro, Sir Wrecsam
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd Wrecsam
- Llywodraeth Cymru

TWF

85. Mae TWF yn fudiad sy'n annog rhieni a darpar rieni i fagu eu plant yn ddwyieithog. Mae Swyddog TWF rhan amser (15 awr yr wythnos) yn gweithio yn Sir Wrecsam. Rhan o'i gwaith yw gwneud cyflwyniadau i rieni am fanteision dwyieithrwydd mewn clinigau

cyn-geni ac ôl-eni ac mewn grwpiau 'crefft rheini' sy'n cael eu cynnal gan fydwragedd yr ardal.

86. Mae TWF hefyd yn cynnal sesiynau 'Amser TWF' sy'n rhoi cyfle i rieni sydd â babanod dan 12 mis oed ddod at ei gilydd i fwynhau gweithgareddau megis canu, darllen, tylino corff ac ati drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sesiynau 'Amser TWF' yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn Rhosllannerchrugog, Gwersyllt, a Wrecsam.

Canolfan 'Saith Seren'

87. Agorodd Canolfan Gymraeg Wrecsam, sef Canolfan 'Y Saith Seren', yn swyddogol ar 28ain Ionawr 2012. Menter gydweithredol yw'r ganolfan sydd ar agor fel caffi/bar yn ystod y dydd yn cynnig prydiau bwyd gyda chynnyrch lleol a Chymreig, ond yn gweithredu fel tafarn mwy traddodiadol gyda'r nos. Mae'r ganolfan erbyn hyn wedi darparu ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd ar y llawr cyntaf sydd bellach yn gartref i Fenter Iaith Maelor.

88. Nod Canolfan 'Saith Seren' yw cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg o bob oed, a dysgwyr, ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith mewn awyrgylch gymdeithasol Gymraeg a Chymreig. Y gobaith yw y daw'r ganolfan yn brif ffocws ar gyfer gweithgareddau Cymraeg y dref dros y blynyddoedd nesaf. Mae rhaglen o adloniant a gweithgareddau cymdeithasol amrywiol, gan gynnwys gigs i bobl ifanc, yn cael eu trefnu'n gyson. Mae agor y ganolfan yn enghraifft o'r gwaddol diwylliannol a adawyd yn sgîl ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â thref Wrecsam yn 2011.

Papurau Bro

89. *Y Clawdd* yw papur bro ardal Wrecsam. Mae 10 rhifyn y flwyddyn yn cael ei gyhoeddi ac mae'r cylchrediad o gwmpas 550. Mae dau bapur bro arall yn cael eu cyhoeddi'n sirol, sef *Yr Ysgub* sy'n cael ei werthu ar draws ardal Glyn Ceiriog a Dyffryn Tanat gyda chylchrediad misol o 700, a *Nene* yn ardal Rhosllannerchrugog, Ponciau a Phenycae gyda chylchrediad misol o ryw 650.

Y Sector Cyhoeddus

90. Mae gan Gyngor Sir Wrecsam Gynllun Iaith yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993). Mae'r Cyngor -

- Yn cydnabod fod iaith yn rhan hanfodol o hunaniaeth unigolyn;
- Yn ymroddedig i barchu hunaniaeth yr holl bobl hynny y mae'n eu gwasanaethu;
- Yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn y Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddefnyddio neu dderbyn gwasanaethau'r Cyngor, yn unol â darpariaethau'r Cynllun.

91. Wrth weithredu mesurau'r cynllun, mae'r Cyngor yn parchu hawl a dymuniad teg y rheiny sydd am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn hytrach na darparu gwasanaeth a allai fod yn gyfleus i'r Cyngor ei hunan. Mae'r strategaeth ar gyfer cynllunio ei wasanaethau at y dyfodol yn seiliedig ar y gred ei bod bob amser yn deg ac yn rhesymol i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaeth gan neu gyfathrebu â'r Cyngor yn eu dewis iaith.

92. Noda'r Cyngor ymhellach wrth gyhoeddi ei Gynllun Iaith, ei fod yn ymroddi i gryfhau a hyrwyddo safle'r iaith Gymraeg wrth ddatgan ei barodrwydd i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal, ble bynnag y bo modd gwneud hynny, trwy:

- Hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg;
- Cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o gael Cymru gwbl ddwyieithog;
- Cynllunio, darparu a phwyso a mesur gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

93. Mewn asesiad a gynhaliwyd o sgiliau iaith staff Cyngor Sir Wrecsam yn ystod 2012-13, allan o gyfanswm o 3,828, tua 5.5% a ddynodwyd yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn llai na hanner y ganran sy'n siarad Cymraeg yn sirol yn ôl Cyfrifiad 2011, sef 12.9%.

94. Mae gan Gyngor Sir Wrecsam swyddog penodol sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg o fewn y Cyngor.

95. Cyn diwedd y flwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad i safonau iaith y Cyngor yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cynghorau Tref a Chymuned

96. Anfonwyd holiadur syml i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Wrecsam i holi am iaith cyfarfodydd, iaith gohebiaeth, agenda a chofnodion cyfarfodydd a'r defnydd o offer cyfieithu. Cafwyd ymateb gan 5 o'r 34 Cyngor, sef 15%.

97. O'r sawl a ymatebodd i'r holiadur, roedd pob un ohonynt yn cynnal eu cyfarfodydd a'u gweinyddiaeth yn Saesneg.

Y Sector Wirfoddol yn Sir Wrecsam

86. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) sy'n gyfrifol am gydlynu a chefnogi mudiadau gwirfoddol yn y sir. Mae gan AVOW 47 o staff – 15 llawn amser a 32 rhan-amser. Yn eu plith mae 2 o'r staff llawn amser a 2 o'r staff rhan-amser yn siaradwyr Cymraeg. Mae 10 o ymddiriedolwyr yn gweithredu fel Bwrdd Rheoli, sydd yn cynnwys 3 siaradwr Cymraeg.

87. Mae gan AVOW 187 o fudiadau sy'n aelodau llawn o'r corff a 600 ychwanegol o gyrff/mudiadau sy'n derbyn gwybodaeth a bwletinau newyddion ganddynt.

88. Mae gan AVOW Gynllun Iaith wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith sy'n golygu bod yr arwyddion, posteri, cyhoeddiadau, bwletinau newyddion a gwefan y mudiad yn ddwyieithog. Defnyddir offer cyfieithu ar-y-pryd yn eu Cyfarfod Blynyddol. Mae'r gwaith cyfieithu ysgrifenedig yn cael ei gomisiynu i gwmnïau cyfieithu lleol.

89. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad i safonau iaith y sector gwirfoddol yng Nghymru yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (2011) ym mis Mawrth 2015. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, mae AVOW yn awyddus i recriwtio mwy o staff dwyieithog, i ddarparu mwy o gyrsiau iaith i'r staff presennol ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

Prif Gasgliadau

Prif Gasgliadau

1. Mae'r cydweithio rhwng Mentrau Iaith y Gogledd Ddwyrain a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, yn enghraifft o arfer da. Mae'r cyd-gynllunio rhwng y Mentrau a'r Ganolfan wedi esgor ar nifer o brosiectau cyffrous sydd wedi cael dylanwad ieithyddol ar draws ardal eang, gan gynnwys trefnu sesiynau dwys i ddysgwyr yn Nant Gwrtheyrn, darparu cyfieithu cymunedol, cynnal gweithgareddau awyr agored a chynlluniau i gymathu mewnfudwyr. Mae'r Prosiect Iaith Cydweithredol wedi galluogi'r Mentrau i gynllunio ar y cyd ac adnabod blaenoriaethau sy'n targedu meysydd a grwpiau oedran penodol.

2. Mae enghreifftiau da'n bodoli mewn rhai ardaloedd o gydweithio effeithiol rhwng y Mentrau Iaith a'r prif fudiadau iaith. Mae hyn wedi esgor ar gynlluniau cyffrous sydd â'r potensial o greu deilliannau arwyddocaol. Fodd bynnag, maent yn rhy brin i fedru dod i'r casgliad bod lefel y cydweithio'n ddigon eang, yn ddigon strategol ac yn ddigon cadarn i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefyllfa'r Gymraeg yn y Gogledd Ddwyrain.

3. Prin yw'r enghreifftiau o gyd-gynllunio effeithiol yn y Gogledd Ddwyrain gyda Chynghorau Sir a chyrff cyhoeddus eraill megis y Bwrdd Iechyd a Cholegau Addysg Bellach. Mae potensial aruthrol yn bodoli o safbwynt dylanwadu ar bolisïau'r cyrff hyn mewn meysydd mor eang ag addysg, iechyd a gofal, gwasanaethau cymdeithasol, tai a chynllunio, gwasanaethau hamdden, gwaith ieuenctid, adfywio economaidd a datblygu cymunedol.

4. Mae nifer o bartneriaid y Mentrau Iaith yn credu bod perygl i ddyblygu gwaith ddigwydd gan nad oes strwythur yn bodoli ar gyfer adnabod blaenoriaethau ieithyddol a chynllunio ar y cyd. Teimlir yn gyffredinol y dylai'r Mentrau Iaith ganolbwyntio ar sectorau lle nad oes arbenigedd neu ddarpariaeth i'w gael yn y Gymraeg a rhoi cefnogaeth i fudiadau iaith sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, dysgwyr a theuluoedd.

5. Mae'r angen am fwy o gydweithio strategol yn cael ei danseilio gan y ffaith bod yr holl fudiadau iaith yn cael eu cyfyngu gan dargedau unigol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gwneud cydweithio'n anodd gan fod y cwestiwn ynghylch pwy sy'n hawlio'r targedau'n codi ei ben yn gyson. A ddylai'r llywodraeth gytuno ar dargedau sirol/rhanbarthol rhwng y mudiadau iaith er mwyn annog mwy o gydweithio?

6. Nid yw'r berthynas rhwng y Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith mor gadarnhaol ag y dylai fod ym mhob ardal. Mae hyn yn gallu arwain at densiynau a gwrthdaro. Mae angen gwell dealltwriaeth o beth yw nod ac amcanion yr holl fudiadau a chynlluniau sy'n gyfrifol am gynllunio iaith a gwella'r cyfathrebu a chydweithio rhyngddynt.

7. Mae'r Fforymau Iaith Sirol ar y cyfan yn cael eu hystyried yn ddi-werth fel fforymau ar gyfer cynllunio iaith. Gwelir bod budd iddynt o ran dod â mudiadau a sefydliadau at ei gilydd i rannu gwybodaeth ond credir bod angen iddynt fod yn fwy strategol a chydlynol. Byddai'n fanteisiol pe bai modd cael cynrychiolaeth ar lefel uwch-swyddogion o du'r Cynghorau Sir, y Bwrdd Iechyd a Cholegau Addysg Bellach i gyfrannu at y broses gynllunio - o'r ymchwil a'r dadansoddi i'r gweithredu a'r mesur deilliannau. Mae lle i ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb am arwain a gweinyddu'r Fforymau Iaith i'r Cynghorau Sir.

8. Mae'r ffaith bod Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor yn cyd-ariannu rheolwr a rhannu costau gweinyddol yn arfer da. Dylid croesawu unrhyw ddatblygiadau sy'n ceisio cwtogi ar gostau gweinyddol a'r amser mae staff yn ei dreulio ar waith papur. Dylai'r Mentrau roi ystyriaeth ofalus i gynlluniau sy'n golygu bod beichiau gweinyddol, ariannol a rheolaethol yn cael eu rhannu a bod mwy o geisiadau nawdd yn cael eu cyflwyno ar y cyd (gyda mudiadau iaith eraill lle'n briodol) er mwyn atgyfnerthu'r elfen gydweithredol.

9. Nid oes gan y mwyafrif o'r mudiadau iaith (gan gynnwys y Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith) brosesau digon datblygedig i adnabod anghenion (ar sail dadansoddi data a phatrymau ieithyddol/cymdeithasol) ac i greu cynlluniau gweithredol, i fonitro cynnydd a mesur deilliannau.

10. Nid yw'r twf diweddar mewn addysg Gymraeg yn ddigon i wneud iawn am y colledion a welir bob degawd yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg ar draws y pedair sir. Mae angen i lawer mwy o blant elwa o addysg Gymraeg er mwyn atal dirywiad pellach dros y blynyddoedd nesaf. Mae angen i rieni ddeall yn well beth yw manteision dwyieithrwydd drwy ymgyrchoedd marchnata cyson.

11. Mae defnyddio data'r Cyfrifiad i fesur faint o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn gallu bod yn gamarweiniol. Mae'r ffaith bod rhieni di-Gymraeg yn gorliwio gallu ieithyddol eu plant yn rhoi camargraff dybryd i ni o beth yw gwir sefyllfa'r iaith yn ein gwahanol siroedd. Fel y nodir yn y graff isod, mae'r gwahaniaeth mewn canran rhwng y sawl a ddynodwyd fel siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011 a'r sawl a oedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y grŵp oedran 5-15 yn 2011 yn amrywio o (+24%) yn Sir Wrecsam, (+32%) yn Sir y Fflint, (+27%) yn Sir Ddinbych a (+33%) yn Sir Conwy.



Ffynhonnell: Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg

12. Mae'r newidiadau demograffaidd o ran patrymau mewnfudo ac allfudo yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Ychydig dros 50% o boblogaeth siroedd Conwy, Dinbych a'r Fflint gafodd eu geni yng Nghymru. Yn ôl astudiaeth gan Dr Delyth Morris o Brifysgol Bangor mae traean o siaradwyr Cymraeg Cymru yn mudo dros y ffin i Loegr pob degawd i fynychu prifysgolion neu chwilio am waith. Mae angen i Lywodraeth Cymru a chyrff sy'n gyfrifol am adfywio sicrhau bod y Gymraeg yn cael troedle economaidd er mwyn cadw ein pobl ifanc yng Nghymru.

13. Y grŵp oedran 15-24 sy'n colli eu sgiliau iaith yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae hyn wedi bod yn batrwm cyson ers hanner can mlynedd. Gan nad yw canran uchel o bobl ifanc yn defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y gweithle neu yn y gymuned ar ôl gadael ysgol, mae eu sgiliau iaith yn erydu'n sylweddol fel nad oes ganddynt yr hyder i'w defnyddio. Er bod tua thraean ohonynt yn gadael Cymru mae angen canolbwyntio egni ar y sawl sy'n aros yn eu cymunedau a'u hannog i ddal cysylltiad â'r iaith.

14. Mae ehangu addysg Gymraeg, darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol, ehangu gweithgareddau hamdden a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, gweithio gyda theuluoedd i wella trosglwyddiad iaith yn y cartref, cymhathu mewnfudwyr, creu mwy o swyddi lle mae sgiliau dwyieithog yn hanfodol, hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith busnesau a mudiadau gwirfoddol yn flaenoriaethau pwysig i'r partneriaid iaith a'r Cynghorau Sir dros y blynyddoedd nesaf.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru

Argymhellion

Argymhellion

Argymhellion Cyffredinol:

1. Bod y Cynghorau Sir, y Byrddau Gwasanaethau Lleol (LSB), Llywodraeth Cymru, Colegau Addysg Bellach, y Prifysgolion, y Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol a'r mudiadau iaith yn cydnabod yr angen i gydweithio'n agosach i gynllunio dyfodol yr iaith mewn modd mwy strategol a chydlynol;

2. Bod y Cynghorau Sir, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn ail-ystyried cylch gorchwyl ac aelodaeth y Fforymau Iaith Sirol er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws strategol a gwell cydweithio'n digwydd rhwng partneriaid â'i gilydd;

3. Bod y Cynghorau Sir a Llywodraeth Cymru yn gosod methodoleg glir yn ei lle i fonitro cynnydd a deilliannau ieithyddol mewn perthynas â chynlluniau gweithredu lleol a sirol;

4. Bod y Cynghorau Sir a Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r Fforymau Iaith i ddatblygu strategaeth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn nifer o feysydd polisi penodol er enghraifft - plant a phobl ifanc, dysgwyr, teuluoedd ac ati;

5. Bod y Cynghorau Sir a Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda'r Fforymau Iaith i ddod i gytundeb ynglŷn â pha fudiad neu sefydliad ddylai arwain ar ddatblygu cynlluniau strategol ym mhob maes gweithredu penodol;

6. Bod y Mentrau Iaith yn defnyddio Proffil Iaith y Gogledd Ddwyrain a'r adolygiad o'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith gan Brifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm fel sail i ddatblygu cynlluniau gweithredol cynhwysfawr i adfywio'r Gymraeg yn y pedair sir ar y cyd â'r Cynghorau Sir a phartneriaid strategol eraill.

7. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn y maes datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd economi lewyrchus i ddyfodol y Gymraeg a bod strategaethau'n cael eu creu i sicrhau fod pobl ifanc yn arbennig yn gallu aros yn eu cymunedau lleol a chyfrannu i'w ffyniant;

8. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Prifysgolion, Colegau Addysg Bellach a chyrff cyhoeddus eraill yn ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith arfaethedig ac y byddant yn rhoi statws a gwerth economaidd i'r iaith drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle;

9. Bod Cwmni Gyrfa Gogledd Cymru, Colegau Addysg Bellach, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r ysgolion uwchradd Cymraeg yn cydweithio er mwyn marchnata argaeledd darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

10. Bod y Cyngor Sir, Cwmni Gyrfa Gogledd Cymru a'r ysgolion uwchradd Cymraeg yn cydweithio'n agos er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth economaidd y Gymraeg drwy dynnu eu sylw at swyddi mewn nifer o sectorau amrywiol sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog;

11. Bod Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau nawdd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau dwys tebyg i'r Cwrs Sabothol i athrawon ar gyfer gweithwyr mewn sectorau eraill megis y sector iechyd a gofal, gwasanaethau cymdeithasol a staff awdurdodau lleol;

12. Bod y Cyngor Sir, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid eraill yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gynnwys yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth faterol yn rhan o'r Bil Cynllunio a'r Bil Tai arfaethedig a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hintegreiddio i'r broses o ymgysylltu â'r gymuned ynghylch materion cynllunio;

13. Bod y Cyngor Sir, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid eraill yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r canllawiau i awdurdodau cynllunio yn Nodyn Cyngor

Technegol (TAN) 20 o ran gofynion i fesur effaith cynllunio ar yr iaith Gymraeg yn enwedig yn y cadarnleoedd traddodiadol Cymraeg;

14. Bod Cynghorau Sir yn dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio i ail ystyried y broses a ddefnyddir i ragfynegi'r nifer o dai sydd eu hangen ar bob awdurdod lleol er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion cymunedol penodol ac effaith y cynnydd ar yr iaith Gymraeg.

Argymhellion Sirol: Conwy

Addysg

1. Bod Cyngor Sir Conwy yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn yn digwydd i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg;

2. Bod y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio'n agos gyda chynlluniau megis *Dechrau'n Deg,* sy'n rhoi cefnogaeth i rieni mewn cymunedau difreintiedig, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle priodol yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir;

3. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda staff a Bwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd Maelgwn er mwyn ei throi gydag amser yn Ysgol Gymraeg,

4. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda staff a chyrff llywodraethol yr ysgolion cynradd Saesneg sydd â defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg, i sicrhau bod y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio bod dilyniant ieithyddol priodol ar gael yng Nghyfnod Allweddol 2;

5. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cynradd Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio i sicrhau y byddai dilyniant ieithyddol priodol ar gael yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2;

6. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Conwy;

7. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir yn annog pob ysgol gynradd ac uwchradd i sefydlu Cyngor Iaith (tebyg i'r Cyngor Eco) er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;

8. Bod y Cyngor Sir yn defnyddio'r data a gesglir yn yr asesiad o'r galw am addysg Gymraeg ar hyd y glannau i gynllunio ar gyfer twf addysg Gymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd;

9. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Conwy a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion;

10. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Conwy neu ymgynghoriaeth allanol yn cynnal cyfarfodydd i rieni ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a phwysigrwydd dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd;

11. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn y sector uwchradd;

12. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir;

13. Bod y Cyngor Sir yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynllun ail-gyfle yn Ysgol Dyffryn Conwy gan fabwysiadu'r Cynllun Trochi sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Ysgol y Creuddyn a nifer o ysgolion uwchradd eraill ledled Cymru;

14. Bod y Cyngor Sir yn rhoi arweiniad i sicrhau bod ysgolion uwchradd Saesneg y sir yn symud ar hyd continwwm iaith a'u bod yn creu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

15. Bod yr Urdd a Menter Iaith Conwy yn ceisio nawdd i benodi swyddog ieuenctid i weithio yn Ysgol y Creuddyn (tebyg i'r datblygiad diweddar yn Ysgol Dyffryn Conwy) i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ac ar lefel gymunedol;

16. Bod Menter Iaith Conwy a'r Urdd yn cydweithio'n agos gydag S4C i adnabod disgyblion ar draws yr ystod oedran fyddai'n gallu gweithredu fel 'hyrwyddwyr y sianel' ac i rannu gwybodaeth ymhlith eu cyfoedion drwy wahanol ddulliau cyfathrebu am gyfresi neu raglenni penodol;

17. Bod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd a Menter Iaith Conwy i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg;

18. Bod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Conwy yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws holl wasanaethau'r partneriaid a bod ei hadfywio yn ganolog i gynllun strategol y Bartneriaeth;

Hamdden a Chwaraeon

19. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu mwy o wasanaethau hamdden, megis gwersi nofio, drwy gyfrwng y Gymraeg;

20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd a Menter Iaith Conwy i ddarparu cyfleoedd hamdden a chwaraeon yn Gymraeg i blant a phobl ifanc;

21. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i hyfforddi mwy o hyfforddwyr chwaraeon cyfrwng Cymraeg;

22. Bod y Cyngor Sir yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;

23. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu 'Pencampwr Iaith' ym mhob un o'r Canolfannau Hamdden i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chreu ethos gweledol sy'n parchu statws yr iaith;

24. Bod Menter Iaith Conwy yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb.

Gweithgareddau Cymunedol

25. Bod yr Urdd a Menter Iaith Conwy yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc y tu allan i oriau ysgol - gyda'r hwyr, ar benwythnosau a gwyliau ysgol;

26. Bod Menter Iaith Conwy yn datblygu prosiect 'Ail-gydiwch yn eich Cymraeg' i gyn-ddisgyblion Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy fel bod modd iddynt gadw cysylltiad â'r iaith mewn gweithgareddau cymdeithasol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;

27. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir a Menter Iaith Conwy yn sefydlu system dracio er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy a'u hysbysu, ymhlith pethau eraill, o gyfleoedd gwaith sy'n codi yn y sir neu'r rhanbarth;

28. Bod Menter Iaith Conwy yn datblygu gwasanaeth tebyg i *e-chlysur* a weinyddir gan rai o'r Mentrau Iaith yng Nghymru sy'n ddull hwylus ac effeithiol o rannu gwybodaeth am

ddigwyddiadau neu weithgareddau Cymraeg drwy e-bost, neges destun neu *Facebook*;

29. Bod Menter Iaith Conwy yn sefydlu mwy o Bwyllgorau Ardal ar draws y sir i ddatblygu cynlluniau a gweithgareddau lleol yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011 ac i annog perchnogaeth ar y blaenoriaethau a nodir yn y dadansoddiadau;

30. Bod Menter Iaith Conwy a phartneriaid megis Popeth Cymraeg a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Iaith ar hyd y glannau fyddai'n ffocws i weithgareddau Cymraeg yr ardal ac yn gyrchfan i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd;

31. Bod y Cyngor Sir ar y cyd â Menter Iaith Conwy a gwerthwyr tai yn dosbarthu 'Pecyn Croeso' i fewnfudwyr a sefydlu rhaglen ddosbarthu drwy weithio ar y cyd â grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned;

32. Bod Menter Iaith Conwy yn cydweithio ag ysgolion, grwpiau cymunedol, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Cynghorau Tref a Chymuned a system 'cofrestru treth' y Cyngor Sir er mwyn cynnal sesiynau 'Ymwybyddiaeth Iaith' a 'Blasu Iaith' i fewnfudwyr.

Tai a Chynllunio

33. Bod Cyngor Sir Conwy yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio i ystyried effaith cynllunio ar ddiwylliant cymunedau penodol ac ar yr iaith Gymraeg fel y nodir yn argymhellion cyffredinol uchod (rhif 11-13);

34. Bod y Cyngor Sir yn datblygu canllawiau ar y mesurau lliniaru y gellid eu defnyddio i leihau effaith datblygiadau tai ar yr iaith Gymraeg;

35. Bod y Cyngor Sir yn gofyn i ddatblygwyr tai am Ddatganiad Iaith ar ddatblygiadau llai na 5 uned mewn ardaloedd gwledig ac Asesiad Effaith Ieithyddol llawn ar

ddatblygiadau mwy na 10 uned mewn unrhyw ran o'r sir, a'u bod mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio ar sail ieithyddol;

36. Bod y Cyngor Sir yn defnyddio arian o'r Lefi Isadeiledd Cymunedol sy'n cychwyn yn 2015 i gefnogi mesurau lliniaru megis cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, adeiladu neu adnewyddu neuaddau pentref, prynu adnoddau cymunedol megis offer cyfieithu, datblygu gwefan ac ati.

Y Sector Fusnes

37. Bod Menter Iaith Conwy ar y cyd â'r Mudiad Meithrin yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu Meithrinfa Ddydd ar y glannau fyddai'n darparu gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio, mynychu cyrsiau hyfforddiant neu'n dilyn cyrsiau coleg;

38. Bod Menter Iaith Conwy'n cefnogi agor siop lyfrau Gymraeg ar y glannau fyddai'n gallu gwerthu adnoddau amrywiol ar gyfer plant ac oedolion, dysgwyr a'r di-Gymraeg yn ogystal â bod yn fan cyswllt i siaradwyr Cymraeg yr ardal;

39. Bod Menter Iaith Conwy'n parhau i ddatblygu'r syniad o sefydlu prosiect hydro 70kw ar Afon y Foel, Cwmpenmachno i sicrhau cynaladwyedd hir dymor y fenter drwy warchod swyddi a chreu tua 8 o swyddi dros dro yn y broses ddylunio ac adeiladu;

40. Bod Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ar y cyd â Menter Iaith Conwy yn darparu cyrsiau iaith i staff busnesau/siopau sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd;

41. Bod Menter Iaith Conwy'n annog siopau a busnesau ar draws y sir i fabwysiadu delwedd ddwyieithog ac i annog staff i ddefnyddio'r iaith wrth gyfarch cwsmeriaid, gan gynnwys staff sy'n dysgu'r iaith;

42. Bod Menter Iaith Conwy'n cynnal digwyddiadau rhwydweithio cyson i fusnesau i roi cyngor ac arweiniad iddynt, ac i rannu arfer da a chyfnewid profiadau o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Iaith ac Economi

43. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn y maes datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd economi lewyrchus i ddyfodol y Gymraeg a bod strategaethau'n cael eu creu i sicrhau bod pobl ifanc yn arbennig yn gallu aros yn eu cymunedau lleol a chyfrannu i'w ffyniant;

44. Bod Menter Iaith Conwy yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i'r Cyngor Sir a chyrff cyhoeddus eraill o ran monitro eu cydymffurfiaeth â'r Cynlluniau Iaith presennol a'r Safonau Iaith arfaethedig;

45. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod datblygiad a chynaladwyedd yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth asesu prosiectau newydd bydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, y Cynllun Datblygu Gwledig ac unrhyw ffynonellau datblygu economaidd a chymunedol eraill;

46. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 a Chwmni Gyrfa Cymru yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc, gan gynyddu'r galw am sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gallu'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i weithredu'n ddwyieithog;

Hybu'r Gymraeg o fewn Teuluoedd

47. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mwy o arian i gefnogi gweithgarwch TWF gan fod diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad yr iaith Gymraeg yn Sir Conwy;

48. Bod Menter Iaith Conwy yn cydweithio'n agos gyda mudiad TWF a'r Mudiad Meithrin i hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sector cyn-ysgol trwy dargedu cymunedau penodol o fewn y sir yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg;

49. Bod Menter Iaith Conwy yn cydweithio'n agos gyda mudiad TWF a'r Mudiad Meithrin i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd a phlant er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng iaith y cylch meithrin/ysgol ac iaith y gymuned .

Argymhellion Sirol: Dinbych

Addysg

1. Bod Cyngor Sir Dinbych yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn yn digwydd i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg;

2. Bod y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio'n agos gyda chynlluniau megis *Dechrau'n Deg,* sy'n rhoi cefnogaeth i rieni mewn cymunedau difreintiedig, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle priodol yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir;

3. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda staff a Chyrff Llywodraethol y tair ysgol ddwy ffrwd yn y sir er mwyn eu troi gydag amser yn ysgolion Cymraeg;

4. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda staff a chyrff llywodraethol yr ysgolion cynradd Saesneg sydd â defnydd arwyddocaol o'r Gymraeg i sicrhau bod y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio bod dilyniant ieithyddol priodol ar gael yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2;

5. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cynradd Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio i sicrhau y byddai dilyniant ieithyddol priodol ar gael yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2;

6. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Ddinbych;

7. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir yn annog pob ysgol gynradd ac uwchradd i sefydlu Cyngor Iaith (tebyg i'r Cyngor Eco) er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;

8. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir Ddinbych a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion;

9. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân er mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn y sector uwchradd;

10. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phenaethiaid a byrddau llywodraethol ysgolion Brynhyfryd a Dinas Brân i sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf;

11. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir Ddinbych neu ymgynghoriaeth allanol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda rhieni ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a phwysigrwydd dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd;

12. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir;

13. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phenaethiaid a byrddau llywodraethol yr ysgolion uwchradd Saesneg i ddileu'r cwrs Cymraeg ail-iaith byr ar gyfer TGAU a'i ddisodli gan y cwrs llawn gan roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo defnydd o'r iaith;

14. Bod y Cyngor Sir yn rhoi arweiniad i sicrhau bod ysgolion uwchradd Saesneg y sir yn symud ar hyd continwwm iaith a'u bod yn creu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

15. Bod yr Urdd a Menter Iaith Sir Ddinbych yn ceisio nawdd i benodi swyddog/ion ieuenctid i weithio yn ysgolion Glan Clwyd, Brynhyfryd a Dinas Brân i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ac ar lefel gymunedol;

16. Bod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd a Menter Iaith Sir Ddinbych i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg;

17. Bod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws holl wasanaethau'r partneriaid a bod ei hadfywio yn ganolog i gynllun strategol y Bartneriaeth.

Hamdden a Chwaraeon

18. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu mwy o wasanaethau hamdden, megis gwersi nofio a sesiynau ffitrwydd, drwy gyfrwng y Gymraeg;

19. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i ddarparu mwy o gyfleoedd hamdden a chwaraeon yn Gymraeg i blant a phobl ifanc;

20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i hyfforddi mwy o hyfforddwyr chwaraeon cyfrwng Cymraeg;

21. Bod y Cyngor Sir a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;

22. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu 'Pencampwr Iaith' ym mhob un o'r Canolfannau Hamdden i fod yn gyfrifol am hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a chreu ethos sy'n parchu statws yr iaith;

23. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb.

Gweithgareddau Cymunedol

24. Bod yr Urdd a Menter Iaith Sir Ddinbych yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol - gyda'r hwyr, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol;

25. Bod yr Urdd yn ystyried sefydlu Uwch Adran yng Nghorwen er mwyn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc Bro Edeyrnion i fwynhau gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg;

26. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith yng nghlybiau ieuenctid y Cyngor Sir;

27. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych a'r Urdd yn cydweithio'n agos gydag S4C i adnabod disgyblion ar draws yr ystod oedran fyddai'n gallu gweithredu fel 'hyrwyddwyr y sianel' ac i rannu gwybodaeth ymhlith eu cyfoedion drwy wahanol ddulliau cyfathrebu am gyfresi neu raglenni penodol;

28. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn datblygu prosiect 'Ail-gydiwch yn eich Cymraeg' i gyn-ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd a chyn-ddisgyblion ffrydiau Cymraeg Ysgol

Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân fel bod modd iddynt gadw mewn cysylltiad â'r iaith drwy weithgareddau cymdeithasol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;

29. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir a Menter Iaith Sir Ddinbych yn sefydlu system dracio er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion Ysgol Glan Clwyd a chyn-ddisgyblion ffrydiau Cymraeg Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Brân a'u hysbysu, ymhlith pethau eraill, o gyfleoedd gwaith sy'n codi yn y sir neu'r rhanbarth;

30. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn datblygu gwasanaeth tebyg i *e-chlysur* a weinyddir gan rai o'r Mentrau Iaith ar draws Cymru sy'n ddull hwylus ac effeithiol o rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau neu weithgareddau Cymraeg drwy e-bost, neges destun neu *Facebook*;

31. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn sefydlu Pwyllgorau Ardal ar draws y sir a'u cynorthwyo i adnabod blaenoriaethau lleol ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011;

32. Bod y Cyngor Sir, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru a Menter Iaith Sir Ddinbych yn cefnogi bwriad Popeth Cymraeg i sefydlu Canolfan Iaith ym Mhrestatyn fyddai'n gyrchfan i ddysgwyr yr iaith;

33. Bod y Cyngor Sir ar y cyd â Menter Iaith Sir Ddinbych a gwerthwyr tai yn dosbarthu 'Pecyn Croeso' i fewnfudwyr a sefydlu rhaglen ddosbarthu drwy weithio ar y cyd â grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned;

34. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cydweithio ag ysgolion, grwpiau cymunedol, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, Cynghorau Tref a Chymuned a system 'cofrestru treth' y Cyngor Sir er mwyn cynnal sesiynau 'Ymwybyddiaeth Iaith' a 'Blasu Iaith' i fewnfudwyr.

Tai a Chynllunio

35. Bod Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio i ystyried effaith cynllunio ar ddiwylliant cymunedau penodol ac ar yr iaith Gymraeg fel y nodir yn argymhellion cyffredinol uchod (rhif 11-13);

36. Bod y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth fanwl i fesurau a fyddai'n lliniaru effaith posibl y datblygiad tai ym Modelwyddan ar yr iaith Gymraeg;

37. Bod y Cyngor Sir, wrth fabwysiadu mesurau lliniaru, yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu ysgol Gymraeg fel rhan o'r datblygiad ym Modelwyddan ynghyd â sefydlu Canolfan Gymraeg fyddai'n cynnwys ystafelloedd hyfforddiant ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, swyddfeydd i fudiadau iaith a busnesau Cymraeg, caffi a bar cymunedol a theatr fechan/sinema;

38. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod y broses recriwtio ar gyfer staff yn y cartref henoed a'r gwesty ar y safle yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r angen am benodi gweithlu dwyieithog;

39. Bod y Cyngor Sir yn gofyn i ddatblygwyr tai am Ddatganiad Iaith ar ddatblygiadau llai na 5 uned mewn ardaloedd gwledig ac Asesiad Effaith Ieithyddol llawn ar ddatblygiadau mwy na 10 uned mewn unrhyw ran o'r sir, a'u bod, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg, yn medru defnyddio canlyniadau'r asesiadau i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio ar sail ieithyddol;

40. Bod y Cyngor Sir yn defnyddio arian o'r Lefi Isadeiledd Cymunedol sy'n cychwyn yn 2015 i gefnogi mesurau lliniaru megis cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, gweithgareddau i blant a phobl ifanc, adeiladu neu adnewyddu neuaddau pentref, prynu adnoddau cymunedol megis offer cyfieithu, datblygu gwefan ac ati.

Y Sector Fusnes

41. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cefnogi siopau a busnesau ar draws y sir i fabwysiadu delwedd ddwyieithog ac annog staff i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg, gan gynnwys dysgwyr yr iaith;

42. Bod Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ar y cyd â Menter Iaith Conwy yn darparu cyrsiau iaith i staff busnesau/siopau sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd;

43. Bod y Cyngor Sir a Menter Iaith Sir Ddinbych yn dosbarthu bathodynnau ymhlith staff y Cyngor a busnesau lleol i ddynodi pwy sy'n siaradwyr Cymraeg;

44. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio cyson i fusnesau i roi cyngor ac arweiniad iddynt, ac i rannu arfer da a chyfnewid profiadau o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg;

45. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cydweithio i gynnal cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a sesiynau blasu iaith i staff archfarchnadoedd ar draws y sir.

Iaith ac Economi

46. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn y maes datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd economi lewyrchus i ddyfodol y Gymraeg a bod strategaethau'n cael eu creu i sicrhau fod pobl ifanc yn arbennig yn gallu aros yn eu cymunedau lleol a chyfrannu i'w ffyniant;

47. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i'r Cyngor Sir a chyrff cyhoeddus eraill o ran monitro eu cydymffurfiaeth â'r Cynlluniau Iaith presennol a'r Safonau Iaith arfaethedig;

48. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod datblygiad a chynaladwyedd yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth asesu prosiectau newydd bydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer arian

o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, y Cynllun Datblygu Gwledig ac unrhyw ffynonellau datblygu economaidd a chymunedol eraill;

49. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 a Chwmni Gyrfa Cymru yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw am sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gallu'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i weithredu'n ddwyieithog;

Hybu'r Gymraeg o fewn Teuluoedd

50. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mwy o arian i gefnogi gweithgarwch TWF gan fod diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych;

51. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos gyda mudiad TWF a'r Mudiad Meithrin i hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sector cyn-ysgol trwy dargedu cymunedau penodol o fewn y sir yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg;

52. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos gyda TWF a'r Mudiad Meithrin i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd a phlant er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng iaith y cylch meithrin/ysgol ac iaith y gymuned .

Y Sector Gwirfoddol

53. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol (DVSC) i ddatblygu marc safon i fudiadau gwirfoddol sy'n adlewyrchu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;

54. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cais i gronfa'r Loteri Fawr neu'r Cynllun Datblygu Gwledig i brynu offer cyfieithu ac i hyfforddi cyfieithwyr cymunedol i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gan y sector gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned;

55. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith a Blasu Iaith i staff a gwirfoddolwyr yn y sector gwirfoddol;

56. Bod Menter Iaith Sir Ddinbych yn cynorthwyo'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol i baratoi ar gyfer cyflawni gofynion y Safonau Iaith a ddaw i rym ar gyfer y sector gwirfoddol yn 2015.

Argymhellion Sirol: Sir y Fflint

Addysg

1. Bod Cyngor Sir y Fflint yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn yn digwydd i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg;

2. Bod y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio'n agos gyda chynlluniau megis *Dechrau'n Deg,* sy'n rhoi cefnogaeth i rieni mewn cymunedau difreintiedig, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle priodol yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir;

3. Bod y Cyngor Sir a Menter Iaith Sir y Fflint yn marchnata manteision addysg Gymraeg yng nghyffiniau Shotton er mwyn sicrhau y bydd digon o blant yn mynychu'r ysgol Gymraeg newydd fydd yn agor ym mis Medi 2014;

4. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer y galw cynyddol am addysg Gymraeg yn ardal Bwcle ac yn gosod prosesau yn eu lle i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg yn yr ardal honno yn y dyfodol agos;

5. Bod y Cyngor Sir yn adnabod ysgolion cynradd Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf a chynllunio i sicrhau y byddai dilyniant ieithyddol priodol ar gael yng Nghyfnod Allweddol 2;

6. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir y Fflint a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus ar draws y sir i hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion;

7. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir y Fflint neu ymgynghoriaeth allanol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda rhieni ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a phwysigrwydd dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd;

8. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol Maes Garmon er mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn y sector uwchradd;

9. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phenaethiaid a byrddau llywodraethol yr ysgolion uwchradd Saesneg i ddileu'r cwrs Cymraeg ail-iaith byr ar gyfer TGAU a'i ddisodli gan y cwrs llawn gan roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo defnydd o'r iaith;

10. Bod y Cyngor Sir yn rhoi arweiniad i sicrhau bod ysgolion uwchradd Saesneg y sir yn symud ar hyd continwwm iaith a'u bod yn creu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

11. Bod y Cyngor Sir yn darparu sesiwn hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir;

12. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion ysgolion Cymraeg Sir y Fflint;

13. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir yn annog pob ysgol gynradd ac uwchradd i sefydlu Cyngor Iaith (tebyg i'r Cyngor Eco) er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;

14. Bod yr Urdd a Menter Iaith Sir y Fflint yn ceisio nawdd i benodi swyddog ieuenctid i weithio yn Ysgol Maes Garmon i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ac ar lefel gymunedol;

15. Bod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd a Menter Iaith Sir y Fflint i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc;

16. Bod Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor Sir yn darparu cyfleoedd i blant a theuluoedd i fwynhau gweithgareddau hybu darllen drwy gyfrwng y Gymraeg;

17. Bod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws holl wasanaethau'r partneriaid a bod darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn ganolog i'w strategaeth.

Hamdden a Chwaraeon

18. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu mwy o wasanaethau hamdden, megis gwersi nofio, drwy gyfrwng y Gymraeg;

19. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i ddarparu mwy o gyfleoedd hamdden a chwaraeon yn Gymraeg i blant a phobl ifanc;

20. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i hyfforddi mwy o hyfforddwyr chwaraeon cyfrwng Cymraeg;

21. Bod y Cyngor Sir a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;

22. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb.

Gweithgareddau Cymunedol

23. Bod yr Urdd a Menter Iaith Sir y Fflint yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol - gyda'r hwyr, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol;

24. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith yng nghlybiau ieuenctid y Cyngor Sir;

25. Bod Menter Iaith Sir y Fflint a'r Urdd yn cydweithio'n agos gydag S4C i adnabod disgyblion ar draws yr ystod oedran fyddai'n gallu gweithredu fel 'hyrwyddwyr y sianel' ac i rannu gwybodaeth ymhlith eu cyfoedion drwy wahanol ddulliau cyfathrebu am gyfresi neu raglenni penodol;

26. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn datblygu prosiect 'Ail-gydiwch yn eich Cymraeg' i gyn-ddisgyblion Ysgol Maes Garmon fel bod modd iddynt gadw mewn cysylltiad â'r iaith drwy weithgareddau cymdeithasol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;

27. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir a Menter Iaith Sir y Fflint yn sefydlu system dracio er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion Ysgol Maes Garmon a'u hysbysu, ymhlith pethau eraill, o gyfleoedd gwaith sy'n codi yn y sir neu'r rhanbarth;

28. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn datblygu gwasanaeth tebyg i *e-chlysur* a weinyddir gan rai o'r Mentrau Iaith ar draws Cymru sy'n ddull hwylus ac effeithiol o rannu gwybodaeth gyda siaradwyr Cymraeg a dysgwyr am ddigwyddiadau neu weithgareddau Cymraeg drwy e-bost, neges destun neu *Facebook*;

29. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cynnal astudiaeth ddichonolrwydd i'r posibilrwydd o agor Canolfan Gymraeg yn nhre'r Wyddgrug i weithredu fel ffenest siop i'r Fenter, i fod yn gyrchfan ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr a gweithredu fel man cyfarfod i fudiadau a chymdeithasau Cymraeg yr ardal.

Hybu'r Gymraeg o fewn Teuluoedd

30. Bod y Cyngor Sir, y Fenter Iaith a phartneriaid eraill yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i benodi swyddog TWF yn Sir y Fflint gan fod diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad yr iaith Gymraeg yn y sir;

31. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sector cyn-ysgol;

32. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd a phlant er mwyn cryfhau'r defnydd cymunedol o'r iaith Gymraeg.

Y Sector Fusnes

33. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cefnogi siopau a busnesau ym mhrif drefi'r sir i fabwysiadu delwedd ddwyieithog ac annog staff i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg, gan gynnwys dysgwyr;

34. Bod y Cyngor Sir a Menter Iaith Sir y Fflint yn dosbarthu bathodynnau ymhlith staff y Cyngor, busnesau a mudiadau gwirfoddol lleol i ddynodi pwy sy'n siaradwyr Cymraeg;

35. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio cyson i fusnesau i roi cyngor ac arweiniad iddynt, ac i rannu arfer da a chyfnewid profiadau o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg;

36. Bod Menter Iaith Sir y Fflint a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cydweithio i gynnal cyrsiau 'ymwybyddiaeth iaith' a sesiynau 'blasu iaith' i staff mewn busnesau sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Iaith ac Economi

37. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i'r Cyngor Sir a chyrff cyhoeddus eraill o ran monitro eu cydymffurfiaeth â'r Cynlluniau Iaith presennol a'r Safonau Iaith arfaethedig;

38. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod datblygiad a chynaladwyedd yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth asesu prosiectau newydd bydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, y Cynllun Datblygu Gwledig ac unrhyw ffynonellau datblygu economaidd a chymunedol eraill;

39. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 a Chwmni Gyrfa Cymru yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw am sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gallu'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i weithredu'n ddwyieithog.

Y Sector Gwirfoddol

57. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol i ddatblygu marc safon i fudiadau gwirfoddol sy'n adlewyrchu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;

58. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cais i gronfa'r Loteri Fawr neu'r Cynllun Datblygu Gwledig (ar y cyd â Menter Iaith Maelor) i brynu offer cyfieithu ac i hyfforddi cyfieithwyr cymunedol i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gan y sector gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned;

59. Bod Menter Iaith Sir y Fflint a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cynnal sesiynau 'Ymwybyddiaeth Iaith a 'Blasu Iaith' i staff a gwirfoddolwyr yn y sector gwirfoddol;

60. Bod Menter Iaith Sir y Fflint yn cynorthwyo'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol i baratoi ar gyfer cyflawni gofynion y Safonau Iaith a ddaw i rym ar gyfer y sector gwirfoddol yn 2015.

Argymhellion Sirol: Wrecsam

Addysg

1. Bod Cyngor Sir Wrecsam yn cydweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau bod addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael yn hwylus ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn yn digwydd i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg;

2. Bod y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn cydweithio'n agos gyda chynlluniau megis *Dechrau'n Deg,* sy'n rhoi cefnogaeth i rieni mewn cymunedau difreintiedig, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle priodol yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir;

3. Bod y Cyngor Sir yn ymateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg a chynllunio ar gyfer twf addysg Gymraeg yn y sector cynradd;

4. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer sefydlu ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y sir erbyn 2020;

5. Bod y Cyngor Sir yn dechrau'r broses o adnabod ysgolion cynradd Saesneg fyddai'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio i sicrhau y byddai dilyniant ieithyddol priodol ar gael yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2;

6. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu Siartr Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (sy'n annog plant i siarad Cymraeg yn yr ysgol ac yn gymunedol) a'i addasu at ofynion Sir Wrecsam;

7. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir yn annog pob ysgol gynradd ac uwchradd i sefydlu Cyngor Iaith (tebyg i'r Cyngor Eco) er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a dysgwyr;

8. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Maelor a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaus i hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion;

9. Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Menter Iaith Maelor neu ymgynghoriaeth allanol yn cynnal cyfarfodydd cyson gyda rhieni ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a phwysigrwydd dilyniant ieithyddol o'r sector cynradd i'r uwchradd;

10. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu protocol dilyniant clir gyda phob ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol Morgan Llwyd er mwyn cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfnod allweddol yn y sector uwchradd;

11. Bod y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg Gymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir;

12. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio gyda phenaethiaid a byrddau llywodraethol yr ysgolion uwchradd Saesneg i ddileu'r cwrs Cymraeg ail-iaith byr ar gyfer TGAU a'i ddisodli gan y cwrs llawn gan roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo defnydd o'r iaith ;

13. Bod y Cyngor Sir yn rhoi arweiniad i sicrhau bod ysgolion uwchradd Saesneg y sir yn symud ar hyd continwwm iaith a'u bod yn creu ethos sy'n annog parch tuag at y Gymraeg;

14. Bod yr Urdd, Ysgol Morgan Llwyd a Choleg Cambria yn ceisio nawdd i benodi swyddog ieuenctid i weithio gyda disgyblion a myfyrwyr Ysgol Morgan Llwyd a'r Coleg i hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol o fewn yr ysgol ac ar lefel gymunedol;

15. Bod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd a Menter Maelor i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg;

16. Bod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Wrecsam yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio ar draws holl wasanaethau'r partneriaid a bod ei hadfywio yn ganolog i gynllun strategol y Bartneriaeth.

Hamdden a Chwaraeon

17. Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu mwy o wasanaethau hamdden, megis gwersi nofio, drwy gyfrwng y Gymraeg;

18. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i ddarparu mwy o gyfleoedd hamdden a chwaraeon yn Gymraeg i blant a phobl ifanc;

19. Bod y Cyngor Sir yn cydweithio â'r Urdd i hyfforddi mwy o hyfforddwyr chwaraeon cyfrwng Cymraeg;

20. Bod y Cyngor Sir a'r Ganolfan Cymraeg i Oeodlion yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;

21. Bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu 'Pencampwr Iaith' ym mhob un o'r Canolfannau Hamdden i fod yn gyfrifol am hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a chreu ethos sy'n parchu statws yr iaith;

22. Bod Menter Iaith Maelor yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb.

Tai a Chynllunio

23. Bod y Cyngor Sir yn cynnal asesiad o effaith ieithyddol codi carchar newydd ar gyrrion Wrecsam ar yr iaith Gymraeg.

Gweithgareddau Cymunedol

24. Bod yr Urdd a Menter Iaith Maelor yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol - gyda'r hwyr, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol;

25. Bod Menter Iaith Maelor yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth iaith yng nghlybiau ieuenctid y Cyngor Sir;

26. Bod Menter Iaith Maelor a'r Urdd yn cydweithio'n agos gydag S4C i adnabod disgyblion ar draws yr ystod oedran fyddai'n gallu gweithredu fel 'hyrwyddwyr y sianel' ac i rannu gwybodaeth ymhlith eu cyfoedion drwy wahanol ddulliau cyfathrebu am gyfresi neu raglenni penodol;

27. Bod Menter Iaith Maelor yn datblygu prosiect 'Ail-gydiwch yn eich Cymraeg' i gyn-ddisgyblion Ysgol Morgan Llwyd fel bod modd iddynt gadw mewn cysylltiad â'r iaith drwy weithgareddau cymdeithasol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;

28. Bod Adran Addysg y Cyngor Sir a Menter Iaith Maelor yn sefydlu system dracio er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion Ysgol Morgan Llwyd a'u hysbysu, ymhlith pethau eraill, o gyfleoedd gwaith sy'n codi yn y sir neu'r rhanbarth;

29. Bod Menter Iaith Maelor yn ceisio nawdd i greu 'App' y medrir ei lawr lwytho sy'n rhestru'r holl fusnesau, siopau a gwasanaethau lle gellir defnyddio'r Gymraeg yn Wrecsam i alluogi siaradwyr Cymraeg (yn enwedig pobl ifanc) a dysgwyr i ddefnyddio'r iaith;

30. Bod Menter Iaith Maelor yn ceisio nawdd i greu gwefan benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr - er mwyn rhannu gwybodaeth, marchnata digwyddiadau, rhestru siopau, busnesau a gwasanaethau sy'n defnyddio'r Gymraeg ynghyd â manylion cyswllt mudiadau a chymdeithasau Cymraeg, pigion y papurau bro lleol, gwersi Cymraeg, newyddion cymunedol ac ati;

31. Bod Menter Iaith Maelor yn datblygu gwasanaeth tebyg i *e-chlysur* a weinyddir gan rai o'r Mentrau Iaith ar draws Cymru sy'n ddull hwylus ac effeithiol o rannu gwybodaeth gyda siaradwyr Cymraeg a dysgwyr am ddigwyddiadau neu weithgareddau Cymraeg drwy e-bost, neges destun neu *Facebook*;

32. Bod Menter Iaith Maelor mewn cydweithrediad ag Adran Addysg Gymunedol y Cyngor Sir yn trefnu gweithgareddau hamdden, anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. Zumba, coginio, blasu gwin, clwb cerdded ac ati;

33. Bod Menter Iaith Maelor ar y cyd â phartneriaid eraill yn cynnal Gŵyl Gymraeg flynyddol, awyr agored yng nghanol tref Wrecsam gyda rhai o artistiaid gorau Cymru'n perfformio yn ogystal â dawnsio gwerin, perfformiadau stryd, stondinau ac arddangosfeydd.

Y Sector Fusnes

34. Bod Menter Iaith Maelor yn cefnogi siopau a busnesau ar draws y sir i fabwysiadu delwedd ddwyieithog gan annod staff i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg;

35. Bod y Cyngor Sir a Menter Iaith Maelor yn dosbarthu bathodynnau ymhlith staff y Cyngor, busnesau a mudiadau gwirfoddol lleol i ddynodi pwy sy'n siaradwyr Cymraeg;

36. Bod Menter Iaith Maelor, y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn cynnal 'Diwrnod Cymraeg' yn flynyddol er mwyn hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith siopau a busnesau tref Wrecsam;

37. Bod Menter Iaith Maelor yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio cyson i fusnesau i roi cyngor ac arweiniad iddynt, ac i rannu arfer da a chyfnewid profiadau o safbwynt hybu'r defnydd o'r Gymraeg;

38. Bod Menter Iaith Maelor a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cydweithio i gynnal cyrsiau 'Ymwybyddiaeth Iaith' a sesiynau 'Blasu Iaith' i staff yn y sector preifat sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd;

39. Bod Menter Iaith Maelor yn casglu gwybodaeth a chreu taflen sy'n rhestru'r holl fusnesau, siopau a gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg yn Wrecsam a'i dosbarthu'n eang ymhlith y boblogaeth leol ac mewn ardaloedd y tu allan i'r sir sy'n defnyddio Wrecsam ar gyfer gwasanaethau busnes, siopa, cymdeithasu neu hamddena;

40. Bod Menter Iaith Maelor yn annog archfarchnadoedd a banciau i sefydlu til Cymraeg er mwyn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;

41. Bod Menter Iaith Maelor yn annog Clwb Pêl Droed Wrecsam i wneud cyhoeddiadau dwyieithog ar yr uchelseinydd yn ystod gêmau cartref;

42. Bod Menter Iaith Maelor yn annog Calon FM a Heart FM i ddarparu mwy o raglenni Cymraeg a chynnwys gwersi dysgu Cymraeg yn ddyddiol;

43. Bod Menter Iaith Maelor yn annog y Wrexham Leader i gynnwys colofn Gymraeg yn y papur.

Iaith ac Economi

44. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn y maes datblygu economaidd yn cydnabod pwysigrwydd economi lewyrchus i ddyfodol y Gymraeg a bod strategaethau'n cael eu creu i sicrhau fod pobl ifanc yn arbennig yn gallu aros yn eu cymunedau lleol a chyfrannu i'w ffyniant;

45. Bod Cyngor Sir Wrecsam yn datblygu Strategaeth Sgiliau Iaith er mwyn adlewyrchu disgwyliadau'r Safonau Iaith arfaethedig;

46. Bod Menter Iaith Maelor yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i'r Cyngor Sir a chyrff cyhoeddus eraill o ran monitro eu cydymffurfiaeth â'r Cynlluniau Iaith presennol a'r Safonau Iaith arfaethedig;

47. Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod datblygiad a chynaladwyedd yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn wrth asesu prosiectau newydd bydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer arian o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, y Cynllun Datblygu Gwledig ac unrhyw ffynonellau datblygu economaidd a chymunedol eraill;

48. Bod y Cyngor Sir, trwy'r Rhwydwaith 14-19 a Chwmni Gyrfa Cymru yn datblygu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y gweithle i bobl ifanc gan gynyddu'r galw am sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gallu'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i weithredu'n ddwyieithog;

Hybu'r Gymraeg o fewn Teuluoedd

49. Bod y Cyngor Sir a phartneriaid eraill yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mwy o arian i gefnogi gweithgarwch TWF gan fod diffyg trosglwyddiad iaith yn y cartref yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ddirywiad yr iaith Gymraeg yn Sir Wrecsam;

50. Bod Menter Iaith Maelor yn cydweithio'n agos gyda mudiad TWF a'r Mudiad Meithrin i hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sector cyn-ysgol trwy dargedu cymunedau penodol o fewn y sir yn ôl dadansoddiad ystadegol o'r defnydd o'r Gymraeg;

51. Bod Menter Iaith Maelor yn cydweithio'n agos gyda TWF a'r Mudiad Meithrin i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd a phlant er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng iaith y cylch meithrin/ysgol ac iaith y gymuned .

Y Sector Gwirfoddol

52. Bod Menter Iaith Maelor yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol i ddatblygu marc safon i fudiadau gwirfoddol sy'n adlewyrchu eu gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;

53. Bod Menter Iaith Maelor yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cais i gronfa'r Loteri Fawr neu'r Cynllun Datblygu Gwledig (ar y cyd â Menter Iaith Sir y Fflint) i brynu offer cyfieithu ac i hyfforddi cyfieithwyr cymunedol i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gan y sector gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned;

54. Bod Menter Iaith Maelor a Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn cynnal sesiynau 'Ymwybyddiaeth Iaith' a 'Blasu Iaith' i staff a gwirfoddolwyr yn y sector gwirfoddol;

55. Bod Menter Iaith Maelor yn cynorthwyo'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol i baratoi ar gyfer cyflawni gofynion y Safonau Iaith a ddaw i rym ar gyfer y sector gwirfoddol yn 2015.

Cynllunio Strategol

56. Bod Fforwm Iaith Sir Wrecsam a Sir y Fflint yn rhoi ystyriaeth i'r argymhellion a nodwyd yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu Wrecsam yn Dref Ddwyieithog* a baratowyd gan gwmni Sbectrwm i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012.

Atodiad A

Argymhellion yr Adroddiad ar y Mentrau iaith, Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Aman Tawe

1. Dylid parhau i adeiladu ar gryfderau gwaith cymunedol y sefydliadau. Er mwyn gwneud hyn, mae angen parhau i ddatblygu eu gallu i gynllunio, gosod targedau perthnasol a phriodol a mesur effaith eu gwaith. Dylid addasu system ariannu Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu hyn.

2. Dylid sefydlu is-gynllun gweithredu manwl i strategaeth Iaith Fyw: Iaith Byw. Ynddo, dylid nodi blaenoriaethau manwl ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chymdeithasol. Dylid sicrhau mewnbwn arbenigwyr o raglenni megis Cymunedau'n Gyntaf a sefydliadau perthnasol eraill. Ymhlith ei themâu, dylid cynnwys meysydd yr economi a chyflogaeth, bywyd cymunedol, maes plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol, ynghyd â pheuoedd mwy anodd eu cyrraedd y tu allan i strwythurau arferol. Dylid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fod yn rhan o lunio'r cynllun a'i weithredu.

3. Dylid trefnu cytundeb rhwng yr holl asiantaethau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gytuno beth yn union yw eu priod ddyletswyddau a thasgau yn y cynllun gweithredu uchod, a hynny ar sail angen cynllunio ieithyddol lleol. Dylai'r fframwaith hwn roi eglurder strategol a hyder i'r sefydliadau hynny ynglŷn â beth yw eu priod waith a lle y dylent gydweithio mewn partneriaeth. Dylai hyn anelu at ddileu dyblygu gwaith. Dylid ystyried rhannu swyddogaethau 'swyddfa gefn' yn y cyd-destun hwn. Dylid addasu system ariannu Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu hyn.

4. Dylid sefydlu grŵp o arbenigwyr ieithyddol a pholisi, nad ydynt yn derbyn cyllid grant, i gynnig llwybr pellach ymlaen yn y maes cynllunio ieithyddol a datblygu economaidd a

chymunedol. Dylid hefyd gefnogi corff cydlynu i'r Mentrau Iaith i'w ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Bydd y corff hwn yn gorff partneriaethol i gwmpasu diddordebau polisi'r Llywodraeth a'r Mentrau Iaith eu hunain. Dylid sicrhau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan greiddiol o drefniadau'r corff hwn.

5. Dylid sefydlu rhagor o Gynlluniau Datblygu Ardal. Wrth wneud hyn dylid ystyried p'un ai ddylid uno'r Cynlluniau Gweithredu Iaith â'r Cynlluniau newydd hyn neu â'r Mentrau Iaith yn eu hardaloedd. Dylid comisiynu gwaith pellach ar sut mae estyn dylanwad cynlluniau partneriaeth o'r fath. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod eu hawdurdod llawn yn sylfaen i'r datblygiadau partneriaethol hyn. Dylid cynnal asesiad effaith llawn o'r datblygiadau partneriaethol hyn bob 5 mlynedd.

6. Dylid estyn cylch ariannu'r sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg i 3-5 mlynedd. Er mwyn gweld gwerth ieithyddol am y bunt gyhoeddus, dylid cynnal asesiad effaith annibynnol bob 5 mlynedd ar sail y gwaelodlinau y dyrannwyd y cyllid grant ar eu cyfer.

7. Dylid sicrhau rhaglen o hyfforddiant dwys i'r sefydliadau ym maes newid ymddygiadol a chynllunio ieithyddol. Dylid hefyd sefydlu cofnod cenedlaethol ffurfiol o wersi a ddysgwyd er mwyn cyfnewid arfer da a gwael fel y gellir dysgu ohonynt oll.

8. Dylid cryfhau'r berthynas rhwng y sefydliadau a sefydliadau datblygu cymunedol megis Cymunedau'n Gyntaf.

9. Dylid ailfeddwl sut mae dyrannu arian hyrwyddo'r Gymraeg ar y lefel feicro yng Nghymru. Mae sawl ffordd o wneud hyn (nid yw'r isod yn nhrefn blaenoriaeth):

   - Dim newid yn y broses dyrannu arian, ond cynyddu faint o arian a ddyrennir;
   - Terfynu'r system ariannu gyfredol, adolygu'r holl gyllid a ddyrennir i'r sefydliadau, gan osod disgwyliadau uchelgeisiol a gofyn am gynlluniau gan y sefydliadau a phartïon a chanddynt ddiddordeb mewn gweithredu'r is-gynllun gweithredu uchod ar ffurf cais grant o'r newydd. Sicrhau adnoddau priodol i wneud hyn;

- Rhoi terfyn ar yr holl gyllid a sicrhau bod pob menter yn cael swm penodol fel cyllid grant,
- Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a'i ail-ddyrannu i Fentrau Iaith Cymru neu glwstwr o fentrau iaith rhanbarthol a chanddynt y cyfrifoldeb am weithredu argymhellion yr adroddiad hwn a blaenoriaethau ieithyddol eraill Llywodraeth Cymru,
- Ariannu'r Mentrau Iaith drwy gynllun Cymunedau'n Gyntaf fel bo modd i'r Mentrau Iaith fanteisio ar ffynonellau incwm llywodraethol 'prif ffrwd' yn ogystal,
- Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a'i roi i bartneriaethau Cynllunio Strategol sirol i'w dyrannu,
- Rhoi terfyn ar yr holl gyllid fel uchod a gweithredu cynllun grantiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol, ond gan bwysleisio mai cychwyn o'r newydd y mae'r holl broses ariannol ac ni fydd derbyn grant o'r blaen yn golygu y bydd grant yn cael ei ddyrannu i'r un sefydliad eto. Byddai hyn hefyd yn agor posibilrwydd i grwpiau a sefydliadau nad ydynt yn ddeiliaid grant cyfredol gystadlu am arian,
- Cynnal adolygiad manwl o'r holl wariant ar gynllunio ieithyddol cymunedol (ar ffurf a ddefnyddiodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2009 i archwilio'r celfyddydau) gan fynnu cynllun busnes gan sefydliadau a chan greu portffolio o sefydliadau i ddiwallu anghenion cynllunio ieithyddol cymunedol Llywodraeth Cymru ac argymhellion eraill yr adroddiad hwn,
- Awgrymwn weithredu ar sail rhif (ii) uchod.

10. Dylid rhoi hyfforddiant tymor hir i'r sefydliadau ar symud i fodel rhagweithiol o gyrraedd pobl sy'n aelodau o grwpiau y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010, h.y. Oedran, Anabledd, Ethnigrwydd, Gender, Ailaseinio Gender, Priodas a Phartneriaethau sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Crefydd/Cred, Cyfeiriadedd rhywiol.

Proffil Iaith Gogledd Ddwyrain Cymru